

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

50/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

09/07/2024

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

**OGI** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-209-2

## Gwerthusiad o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Awduron: Heledd Bebb, Nia Bryer a Tanwen Grover, Ymchwil OB3



Adroddiad Ymchwil Llawn: Bebb, H., Bryer, N. a Grover, T. (2024). *Gwerthusiad o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 50/2024.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-sgiliau-hyblyg-adroddiad-terfynol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sean Homer

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru](mailto:cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	2
Rhestr o'r ffigurau .....	3
Geirfa.....	4
1. Cyflwyniad.....	5
2. Methodoleg .....	7
3. Y cyd-destun polisi .....	16
4. Trosolwg o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg.....	29
5. Canfyddiadau: Sail resymegol a dyluniad yr FSP .....	38
6. Canfyddiadau: Gweinyddu a gweithredu'r FSP .....	48
7. Canfyddiadau: Canlyniadau ac Effeithiau'r FSP .....	59
8. Yr anghenion yn y dyfodol a gwelliannau posibl i'r FSP .....	82
9. Casgliadau ac Argymhellion.....	85
Cyfeiriadau.....	91
Atodiad A: Canllaw Trafod – Cyfweiliadau â staff a rhanddeiliaid allweddol Llywodraeth Cymru.....	92
Atodiad B: Canllaw Trafod - Cyfweiliadau gyda chyflogwyr (ymweliad astudiaeth achos)....	96
Atodiad C: Canllaw Trafod - Cyfweiliadau â gweithwyr (ymweliad astudiaeth achos) .....	102
Atodiad D: Canllaw Trafod - Cyfweiliadau gyda darparwyr hyfforddiant (cysylltiedig ag astudiaeth achos).....	104
Atodiad E: Canllaw Trafod - Cyfweiliad byr gyda WG cyswllt allweddol (cysylltiedig ag astudiaeth achos).....	107
Atodiad F: Arolwg ar-lein: Cyflogwyr a gweithwyr .....	110

## Rhestr o'r tablau

Tabl 2.1: Y dull samplu ar gyfer yr astudiaethau achos .....	9
Tabl 2.2: Y sampl terfynol o astudiaethau achos .....	10
Tabl 2.3: Yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, fesul elfen/ffrwd FSP .....	12
Tabl 2.4: Yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, yn ôl daearyddiaeth .....	12
Tabl 2.5: Yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, yn ôl cyfanswm cyllid yr FSP a dderbyniwyd ...	13
Tabl 6.1: Sut y daeth cyflogwyr i glywed am yr FSP am y tro cyntaf.....	48
Tabl 6.2: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i gyflogwyr gymryd rhan yn yr FSP .....	51
Tabl 6.3: Sut y dewisodd y cyflogwyr ddarparuwyd hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP .....	56
Tabl 7.1: Dosbarthiad daearyddol ymgeiswyr llwyddiannus yr FSP, 2022-24.....	60
Tabl 7.2: Ceisiadau llwyddiannus fesul ffrwd/elfen yr FSP, 2022-24.....	61
Tabl 7.3: I ba raddau y gwnaeth cyllid yr FSP ddiwallu anghenion cyflogwyr .....	62

## **Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 4.1: Model Rhesymeg y Rhaglen.....	37
Ffigur 6.1: Boddhad cyflogwyr gydag agweddau gweinyddol ar yr FSP .....	52
Ffigur 7.1: Manteision a welwyd gan gyflogwyr ers ymgymryd â hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP .....	67
Ffigur 7.2: I ba raddau y mae'r manteision a welwyd i'w priodoli i hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol gan yr FSP.....	68
Ffigur 7.3: Newidiadau a welwyd gan gyflogwyr ers i'r staff gael hyfforddiant.....	71
Ffigur 7.4: I ba raddau y digwyddodd newidiadau oherwydd hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol gan yr FSP .....	72
Ffigur 7.5: Yr hyn yr oedd gweithwyr yn gobeithio ei gyflawni o'r hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP .....	73
Ffigur 7.6: Newidiadau a welwyd gan weithwyr ers cwblhau hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP .....	74
Ffigur 7.7: I ba raddau y digwyddodd newidiadau oherwydd hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP .....	75
Ffigur 7.8: Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP i weithwyr yn y dyfodol.....	78

## Geirfa

<b>Acronym/Allweddair</b>	<b>Diffiniad</b>
AB	Addysg Bellach
AU	Addysg Uwch
BBaChau	Busnesau Bach a Chanolig
COVID-19	Clefyd y Coronafeirws 2019
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
ELMS	Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli
FSP	Rhaglen Sgiliau Hyblyg
MERIT	Rheolaeth, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Tâl, Cysylltiadau Diwydiannol a Chymunedol a Hyfforddiant
RhDG	Rhaglen Datblygu'r Gweithlu
UE	Undeb Ewropeaidd
Y DU	Y Deyrnas Unedig

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP).
- 1.2 Roedd disgwyl i'r adolygiad ystyried:
- allbynnau'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg hyd yma, gan gynnwys nifer y cyflogwyr a'r ymyriadau hyfforddiant a gefnogwyd, a'r mathau o ymyriadau hyfforddiant a ddarparwyd
  - canlyniadau ac effeithiau'r FSP mewn perthynas â chyflogwyr, gan gynnwys canlyniadau economaidd, yr effaith ar fusnes, y perthnasoedd a ffurfiwyd neu a gryfhawyd gyda darparwyr dysgu a'r hyn y byddai cyflogwyr wedi'i wneud heb y rhaglen
  - canlyniadau ac effeithiau'r FSP mewn perthynas â gweithwyr, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau ac effeithiau'n ymwneud â'u cyflogaeth a'u sgiliau
  - gwelliannau posibl i'r FSP yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried a yw'r cynllun a'r gyfradd ymyrraeth ar gyfer y rhaglen yn briodol, y cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddiwallu'r galw, pa mor hyblyg ac ymatebol yw'r rhaglen i anghenion busnes, pa mor effeithlon yw taith y cwsmer o ran cael gafael ar gymorth drwy'r FSP a gwersi a ddysgwyd ar gyfer ymyriadau sgiliau yn y dyfodol.
- 1.3 Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Ebrill 2024. Roedd y fethodoleg yn cynnwys ymchwil desg a gwaith maes gydag ystod eang o gyfranwyr gan gynnwys cyflogwyr a gweithwyr mewn busnesau sy'n derbyn cyllid yr FSP.
- 1.4 Mae naw pennod i'r adroddiad hwn, fel a ganlyn:
- pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
  - pennod dau: methodoleg yr astudiaeth
  - pennod tri: cyd-destun polisi yr FSP
  - pennod pedwar: trosolwg o'r FSP gan gynnwys model rhesymeg y rhaglen

- pennod pump: canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r rhesymeg y rhaglen a chynllun y rhaglen
- pennod chwech: canfyddiadau'r gwaith maes o ran gweinyddu a gweithredu'r rhaglen
- pennod saith: canfyddiadau'r gwaith maes o ran y canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd gan y rhaglen mewn perthynas â chyflogwyr a gweithwyr
- pennod wyth: canfyddiadau'r gwaith maes o ran anghenion cymorth yn y dyfodol a gwelliannau posibl i'r rhaglen
- pennod naw: ein casgliadau a'n hargymhellion.

1.5 Mae Atodiadau A i F yn cynnwys yr offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith maes, gan gynnwys canllawiau trafod ac offerynnau arolwg.



## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal y gwerthusiad, yn rhoi proffil o'r cyfranwyr ac yn amlinellu rhai ystyriaethau methodolegol allweddol.

### Dull

2.2 Roedd y gweithgareddau ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Ebrill 2024 yn cynnwys:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru lle y cytunwyd ar y rhaglen waith arfaethedig, cael mynediad i ddogfennau perthnasol a chytuno ar y dull o ymgysylltu ag amrywiol gyfranwyr, gan gynnwys y dull samplu ar gyfer yr astudiaethau achos. Arweiniodd hyn at baratoi dull methodolegol a chynllun prosiect wedi'u mireinio
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys:
  - dadansoddiad o ddogfennau polisi a dogfennau strategol perthnasol yn ymwneud â'r FSP
  - adolygiad llenyddiaeth o ddogfennau'r FSP a chanllawiau sy'n ymwneud â gweinyddu'r cynllun gan gynnwys y ffurflen gais, ffurflen Rheolaeth, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Tâl, Cysylltiadau Diwydiannol a Chymunedol a Hyfforddiant (MERIT) a ffurflen Cynllun Datblygu Sgiliau
  - dadansoddiad o ddwy gronfa ddata o ymgeiswyr llwyddiannus yr FSP ar gyfer cyfnodau cyflawni 2022/23 a 2023/24 FSP (gweler 2.3 am ragor o fanylion)
  - datblygu model rhesymeg fel darlun gweledol o'r Ddamcaniaeth Newid ar gyfer yr FSP
- paratoi canllawiau trafod dwyieithog, a Hysbysiadau Preifatrwydd perthnasol, ar gyfer cyfweld ag amrywiol gyfranwyr gan gynnwys staff ac aelodau panel Llywodraeth Cymru, cyflogwyr sy'n rhan o'r astudiaethau achos, gweithwyr

sy'n rhan o'r astudiaethau achos a darparwyd hyfforddiant. Nodir y rhain yn Atodiadau A-E

- paratoi arolwg dwyieithog ar-lein i'w ddsbarthu i bob cyflogwr FSP a oedd wedi gwneud cais am gyllid yn ystod 2022/23 a 2023/24, a sgrïptio hwnnw gan ddefnyddio meddalwedd SNAP XMP. Cynlluniwyd yr arolwg gyda dwy adran benodol i'w cwblhau gan gyflogwyr a gweithwyr, fel y bo'n briodol. Mae'r arolwg hwn i'w weld yn Atodiad F
- datblygu fframwaith samplu yn seiliedig ar elfennau/ffrydiau'r FSP, daearyddiaeth, a gwerth y grant fel sail i ddewis 12 o gyflogwyr a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid yr FSP ar gyfer yr astudiaethau achos
- ymweld â 12 o gyflogwyr yr astudiaethau achos a:
  - chyfweld â chyfanswm o 17 o gynrychiolwyr cyflogwyr
  - hwyluso grwpiau ffocws gyda gweithwyr mewn naw o'r busnesau hyn. Cyfrannodd cyfanswm o 36 o weithwyr at y trafodaethau hyn
- cyfweld â phum darparwr hyfforddiant a oedd wedi darparu hyfforddiant i gyflogwyr yr astudiaethau achos
- cynnal cyfweiliadau manwl drwy Teams gyda chwe aelod o staff tîm Sgiliau Llywodraeth Cymru a phedwar aelod o banel yr FSP<sup>1</sup>
- cyflwyno'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad i dîm Sgiliau Llywodraeth Cymru
- cyfuno canfyddiadau'r ymchwil desg a'r gwaith maes a pharatoi'r adroddiad hwn.

### **Proffil busnesau astudiaeth achos**

2.3 Derbyniwyd dwy gronfa ddata ar wahân o fanylion cyswllt ar gyfer busnesau a oedd yn derbyn cyllid yr FSP yn ystod 2022/23 a 2023/24 gan Lywodraeth Cymru. Pan gyfunwyd y cronfeydd data hyn roedd cyfanswm o 195 o gofnodion ar gael. Mae

---

<sup>1</sup> Mae panel buddsoddi'r FSP (a reolir gan y Gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr) yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu ceisiadau a gwneud argymhellion cyllido. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys Busnes Cymru, timau rhanbarthol a Diwydiant Cymru.

Tabl 2.1 yn dangos gwasgariad 194 o fusnesau ar draws pob elfen o'r FSP a bu hyn yn sail i'n dull samplu. Ychydig iawn o geisiadau a gefnogwyd ar gyfer dwy elfen, sef Allforio a Sero Net, ond cytunwyd y byddem yn recriwtio o leiaf un busnes o'r ddau sector hyn.

**Tabl 2.1: Y dull samplu ar gyfer yr astudiaethau achos**

Ffrwd yr FSP	Elfen yr FSP	Nifer arfaethedig o astudiaethau achos	Cyfanswm nifer y ceisiadau FSP
Datblygu Busnes	Ddim ar gael	2	16
Prosiectau Partneriaeth	Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch	2	104
	Digidol	2	36
	Twristiaeth a Lletygarwch	2	25
	Creadigol	2	7
	Allforio	1	4
	Sero Net	1	2
Cyfanswm		12	194

- 2.4 Roedd y sampl cychwynnol yn gynrychioliadol o'r gronfa ddata lawn o ran rhanbarth daearyddol a maint y busnes. Dim ond busnesau gyda dyraniad grant FSP o dros £5,000 a oedd yn bwriadu hyfforddi o leiaf ddeg o unigolion a ddewiswyd yn wreiddiol. Dewiswyd chwe astudiaeth achos newydd yn ystod y gwaith maes oherwydd diffyg ymateb neu gwmni yn gwrthod cymryd rhan. O'r herwydd, nid oedd modd dod o hyd i i unrhyw brosiectau ar gyfer yr elfen Allforio a oedd â chyllideb ddigon sylweddol a niferoedd digonol o gyfranogwyr, felly canfuwyd astudiaeth achos ychwanegol ar gyfer yr elfen Gweithgynhyrchu Uwch yn lle hynny. Bu'n rhaid defnyddio astudiaeth achos o ganolbarth Cymru yn hytrach na de-orllewin Cymru ar gyfer y maes Twristiaeth hefyd oherwydd i ni archwilio pob opsiwn a oedd ar gael yn y rhanbarth gwreiddiol.

**Tabl 2.2: Y sampl terfynol o astudiaethau achos**

Cwmni	Ffrwd/elfen FSP	Rhanbarthau	Maint	Ymrwymiad o ran cymorth yr FSP (2022/23)	Ymrwymiad o ran cymorth yr FSP (2023/24)
1	Datblygu Busnes	Y gogledd	Mawr	£500,000	£500,000
2	Datblygu Busnes	Y de-ddwyrain	Mawr	£146,400	£136,328
3	Gweithgynhyrchu Uwch	Y canolbarth	BBaChau	Ddim ar gael	£25,845
4	Gweithgynhyrchu Uwch	Y de-orllewin	BBaChau	Ddim ar gael	£9,185
5	Gweithgynhyrchu Uwch	Y de-ddwyrain	BBaChau	£9,500	Ddim ar gael
6	Digidol	Y de-ddwyrain	BBaChau	£14,894	£24,091
7	Digidol	Y de-ddwyrain	BBaChau	£19,469	£14,696
8	Creadigol	Y de-ddwyrain	BBaChau	£15,450	£21,000
9	Creadigol	Y gogledd	BBaChau	£7,098	£4,860
10	Twristiaeth a Lletygarwch	Y de-ddwyrain	BBaChau	£6,991	£7,670
11	Twristiaeth a Lletygarwch	Y canolbarth	BBaChau	£2,886	Ddim ar gael
12	Sero Net	Y de-ddwyrain	BBaChau	Ddim ar gael	£7,381

Ffynhonnell: Cronfeydd data FSP Llywodraeth Cymru 2022-23 a 2023-24

### **Arolwg**

- 2.5 Ar ôl glanhau'r gronfa ddata i gael gwared ar gofnodion dyblyg, cyfanswm y sampl a oedd ar gael oedd 144 o fusnesau a oedd â chyfeiriad e-bost cysylltiedig. Treialwyd yr arolwg gydag un busnes ac ni chodwyd unrhyw newidiadau na phroblemau.
- 2.6 Ar 17 Ionawr, anfonwyd gwahoddiad cychwynnol at y person cyswllt a enwyd ym mhob cwmni yn gofyn iddo gwblhau'r arolwg ac hefyd i anfon dolen yr arolwg ymlaen at weithwyr a oedd wedi mynychu hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP. Yna dosbarthwyd yr arolwg ar-lein i'r gronfa ddata lawn o 144 o gwmnïau. Cafwyd negeseuon yn dweud nad oedd 12 gwahoddiad wedi cyrraedd pen eu taith.

Anfonwyd dwy neges atgoffa i'r rhai nad oeddent wedi ymateb. Daeth yr arolwg i ben ar 15 Mawrth 2024.

### **Proffil yr ymatebwyr i'r arolwg o gyflogwyr**

- 2.7 Cafwyd ymatebion i'r arolwg gan 26 o gyflogwyr sy'n gyfradd ymateb o 20 y cant. Roedd mwyafrif yr ymatebion hyn yn ymatebion gan BBaChau (21 neu 81%) sy'n cyd-fynd â phroffil y gronfa ddata, sef 80%.
- 2.8 Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (12) wedi derbyn cyllid yr FSP yn 2022-23 a 2023-24, roedd naw wedi derbyn cyllid yn 2022-23 yn unig a phump wedi derbyn cyllid yn 2023-24 yn unig.
- 2.9 Cafwyd ymatebion gan dri chyflogwr a oedd wedi derbyn cyllid yr FSP drwy'r ffrwd Datblygu Busnes, a chafwyd ymatebion hefyd gan bump o'r chwe elfen prosiect partneriaeth. Ni ddaeth unrhyw ymateb i law gan gyflogwr a oedd wedi derbyn cymorth drwy'r ffrwd Allforio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi cael cymorth drwy'r elfen Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg. Yn fras, mae hyn yn gynrychioliadol o'r rhai a dderbyniodd gyllid yr FSP ond mae'r ffrwd Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg wedi'i thangynrychioli a'r ffrydiau Digidol, Creadigol a Sero Net wedi'u gorgynrychioli<sup>2</sup>.

---

<sup>2</sup> Prosiectau Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg yw 54 y cant o brosiectau llwyddiannus yr FSP o gymharu â 38 y cant yn sampl yr arolwg. Mae prosiectau digidol yn cynrychioli 19 y cant o brosiectau llwyddiannus yr FSP, ond mae sampl yr arolwg yn 27 y cant. Mae prosiectau partneriaeth y ffrwd Greadigol yn cyfrif am ddim ond 4 y cant o brosiectau llwyddiannus FSP ac mae sampl yr arolwg yn 8 y cant. Dim ond dau brosiect Sero Net sydd wedi'u hariannu hyd yn hyn, ac ymatebodd un i'r arolwg.

**Tabl 2.3: Yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, fesul elfen/ffrwd FSP**

<b>Elfen/ffrwd prosiect FSP</b>	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Prosiect partneriaeth: Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianneg	10	38%
Prosiect partneriaeth: Digidol	7	27%
Datblygu Busnes	3	12%
Prosiect partneriaeth: Twristiaeth	3	12%
Prosiect partneriaeth: Creadigol	2	8%
Prosiect partneriaeth: Sero Net	1	4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>26</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr

- 2.10 Cafwyd ymatebion gan gyflogwyr o un ar ddeg o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, fel y dangosir yn Nhabl 2.4. Roedd tua hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ne-ddwyrain Cymru. Yn fras, mae'r ymateb yn gynrychioliadol o ddsbarthiad rhanbarthol busnesau a gefnogir gan yr FSP.

**Tabl 2.4: Yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, yn ôl daearyddiaeth**

<b>Awdurdod unedol</b>	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Caerdydd	6	23%
Sir Gaerfyrddin	3	12%
Powys	3	12%
Pen-y-bont ar Ogwr	2	8%
Caerffili	2	8%
Sir y Fflint	2	8%
Casnewydd	2	8%
Sir Benfro	2	8%
Abertawe	2	8%
Gwynedd	1	4%
Rhondda Cynon Taf	1	4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>26</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr

- 2.11 O blith y 26 o gyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, roedd cyfanswm y cyllid a dderbyniwyd drwy'r FSP yn amrywio. Roedd tua thraean wedi cael llai na £5,000 a thraean arall wedi cael £25,000 neu fwy.

**Tabl 2.5: Yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, yn ôl cyfanswm cyllid yr FSP a dderbyniwyd**

<b>Cyfanswm cyllid yr FSP a dderbyniwyd</b>	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
£0-5k	8	31%
£5-10k	4	15%
£10-15k	3	12%
£15-20k	3	12%
£25-50k	6	23%
£100k+	2	8%
Cyfanswm	26	100%

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr

### **Proffil yr ymatebwyr i'r arolwg o weithwyr**

- 2.12 Daeth cyfanswm o 31 o ymatebion i law i'r arolwg o weithwyr, gan naw busnes gwahanol, a hynny o'r sectorau creadigol, digidol a pheirianeg yn bennaf. Nid oes gennym wybodaeth am nifer y gweithwyr a gefnogwyd gan yr FSP er mwyn darparu cyfradd ymateb fanwl gywir.

### **Ystyriaethau methodolegol**

- 2.13 Derbyniwyd dwy gronfa ddata yr FSP gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Roedd y cronfeydd data hyn yn cynnwys manylion cyswllt, yr ymrwymiad cyllido a gymeradwywyd gan y panel a nifer yr unigolion i'w hyfforddi (ymyriadau hyfforddi). Roedd y cronfeydd data hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth gefndir o ran lleoliad a maint y cwmnïau a ariannwyd gan yr FSP a ph'un a gawsant eu hatgyfeirio i gymorth arall gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau i'r dadansoddiad y gellid ei wneud o'r data a oedd ar gael. Nid oedd unrhyw wybodaeth am y swm a hawliwyd o'i gymharu â'r swm y gwnaed cais amdano ac y cytunwyd arno ar lefel cwmni unigol neu'r FSP yn flynyddol (gwariant gwirioneddol o

gymharu â chronfeydd a ymrwymwyd). Nid oedd ychwaith yn bosibl canfod yr hyn a ddigwyddodd i unrhyw atgyfeiriadau a wnaed i dimau eraill Llywodraeth Cymru. Ni chesglir adborth na thystiolaeth werthusol gan gwmnïau a ariennir gan yr FSP ac felly ni ellid dadansoddi unrhyw ddogfennaeth o'r natur hon fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

- 2.14 Ar gyfer pob busnes a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau achos (gan gynnwys y rhai nad ymatebodd neu a wrthododd gymryd rhan), dadansoddwyd y ffurflen gais berthnasol, y Cynllun Datblygu Sgiliau a'r cynllun MERIT hefyd gan y tîm ymchwil. Felly, mae hyn yn cynrychioli wyth y cant o gyfanswm y ceisiadau a gefnogwyd. Nid oedd yn bosibl dadansoddi'r holl geisiadau ar draws y ddwy flynedd o gyllid, felly nid yw'r gwerthusiad hwn mewn sefyllfa i ffurfio barn ynghylch cymhwysra yr holl hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP.
- 2.15 Mae'r gyfradd ymateb o 20 y cant i'r arolwg o gyflogwyr ar ben isaf y gyfradd ddisgwyliedig, sef rhwng 20 a 30 y cant. Yn seiliedig ar sampl o 26 o ymatebwyr, mae canfyddiadau'r arolwg o fewn ffin cyfeiliorniad o 17 y cant, gyda lefel hyder o 95 y cant.
- 2.16 Gall fod elfen o ragfarn yn y sampl a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd, gan fod y rhai sydd wedi ymgysylltu fwyaf â'r FSP yn fwy tebygol o ymateb a chyfrannu at astudiaeth werthuso.
- 2.17 Cyn anfon yr arolwg at gyflogwyr, codwyd yr her o gyrraedd gweithwyr yn effeithiol a sicrhau eu bod yn ymwybodol bod eu hyfforddiant yn cael ei ariannu gan yr FSP fel problem. Heb fanylion cyswllt uniongyrchol ar gyfer gweithwyr, cytunwyd mai'r unig opsiwn oedd gofyn i gyflogwyr anfon yr arolwg ymlaen at y gweithwyr perthnasol ac egluro'r cyd-destun. Yn ôl y disgwyl, arweiniodd y camau ychwanegol sydd eu hangen i gyrraedd gweithwyr at gyfradd ddychwelyd isel. Nid oes sicrwydd ychwaith ynghylch cyfanswm y boblogaeth, gan fod cronfa ddata'r FSP yn cofnodi nifer yr ymyriadau hyfforddiant (h.y. nifer y sesiynau hyfforddi a fynychwyd, yn hytrach na phob unigolyn a hyfforddwyd) felly nid yw'n bosibl rhoi syniad o'r gyfradd ymateb. Mae hefyd yn anodd canfod a yw'r holl sylwadau a wnaed yn yr ymatebion i'r arolwg yn ymwneud â hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP yn unig.



- 2.18 Ni wnaeth chwe chwmini a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau achos ymateb neu fe wnaethant wrthod cymryd rhan. Mewn dau achos y rhesymau a roddwyd oedd nad oedd y cyllid wedi'i wario yn unol â'r bwriad neu fod y chwmini'n cael trafferthion ariannol. O'r herwydd, mae'r gwerthusiad yn llai tebygol o adlewyrchu materion o'r fath.
- 2.19 Er mwyn ceisio triongli'r gwahanol safbwyntiau, dim ond astudiaethau achos gydag o leiaf ddeg ymyriad hyfforddiant a chyllideb o £15,000 o leiaf a ddewiswyd yn wreiddiol. O'r herwydd, mae'r gwerthusiad hwn yn dibynnu ar bob chwmini arall sy'n derbyn symiau llai i roi eu barn drwy'r arolwg.
- 2.20 Mewn tair o'r astudiaethau achos, roedd nifer y gweithwyr a oedd wedi dilyn hyfforddiant yn isel neu roeddent ond wedi dilyn cwrs hyfforddi byr ac felly nid oeddent ar gael i'w cyfweld. Mae'r astudiaethau achos hyn felly'n fyrrach ac nid ydynt wedi'u triongli i'r graddau a fwriadwyd yn wreiddiol. Ar draws yr arolwg a'r astudiaethau achos, ni chafwyd unrhyw gyfraniad gan unrhyw fusnes a ariannwyd drwy elfen Allforio'r FSP.
- 2.21 Yn wreiddiol, bwriadwyd cyfweld â darparwyr hyfforddiant hefyd fel rhan o'r astudiaethau achos, ond mewn sawl achos nid oedd y darparwyr hyfforddiant yn ymwybodol o gyllid yr FSP neu ni wnaeth y cyflogwyr a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos ddarparu manylion cyswllt. O'r herwydd, fe wnaethom nodi nifer o ddarparwyr hyfforddiant a oedd wedi darparu cyrsiau ar gyfer nifer o gyflogwyr yr FSP gan ofyn iddynt am adborth mwy cyffredinol ar effaith y cyllid arnynt fel darparwyr. Mae'r adborth hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn hytrach nag mewn perthynas ag astudiaethau achos penodol.
- 2.22 Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r holl dystiolaeth ansoddol, a chyflwynir y canfyddiadau allweddol yn yr adroddiad terfynol hwn. Mae dystiolaeth fanylach yn ymwneud â phob ymweliad astudiaeth achos wedi'i darparu mewn astudiaethau achos unigol i Lywodraeth Cymru. Ni fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi oherwydd y wybodaeth fasnachol sensitif sydd ynddynt.

### 3. Y cyd-destun polisi

3.1 Mae'r bennod hon yn darparu'r cyd-destun strategol a'r cyd-destun polisi ar gyfer y Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP). Mae'n ystyried polisiâu cenedlaethol diweddar perthnasol yn ogystal â chynlluniau gweithredu sector-benodol a chanfyddiadau allweddol o raglenni cyllido hyfforddiant sgiliau blaenorol perthnasol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

#### Trosolwg o bolisiâu

##### *Datganiad Polisi ar Sgiliau, 2014*

3.2 Roedd y Datganiad Polisi ar Sgiliau yn cwmpasu pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac roedd dau ohonynt yn arbennig o berthnasol i'r FSP sef:

- Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf – canolbwyntio ar sbarduno'r galw am swyddi sydd â gwell sgiliau a all ysgogi'r economi
- Sgiliau a werthfawrogi gan gyflogwyr – cydnabod pwysigrwydd ennyn diddordeb cyflogwyr i gyfranogi yn y system sgiliau gyda lefel o fuddsoddi ar y cyd ochr yn ochr â'r llywodraeth<sup>3</sup>.

3.3 Roedd y datganiad yn ymrwmo i gyflwyno cronfa hyblyg er mwyn darparu ymyriadau sgiliau wedi'u targedu lle na ellid diwallu anghenion sgiliau drwy ddarpariaeth arall sy'n bodoli eisoes neu lle roedd achos clir dros gynnwys Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Yn benodol, amlinellodd y bwriad i '[g]yflwyno cronfa hyblyg wedi'i thargedu at anghenion recriwtio a sgiliau cwmnïau sy'n strategol bwysig.'<sup>4</sup>

3.4 Roedd y ddogfen yn ystyried y sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn cydnabod yr angen i Gymru barhau i ymgysylltu â chyflogwyr i sicrhau eu bod yn gyfranogwyr gweithgar yn y broses o gyflawni rhaglenni hyfforddiant, gan gyd-fuddsoddi yn eu gweithlu ochr yn ochr â chymorth gan y llywodraeth. Amlygodd y ddogfen bwysigrwydd cefnogi cyflogwyr i gydnabod gwerth y sgiliau ar draws eu

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru (2014), [Datganiad Polisi ar Sgiliau](#), tud.5

<sup>4</sup> Ibid., tud.8

gweithlu, ond roedd hefyd yn amlinellu set glir o egwyddorion ar gyfer rhannu costau ochr yn ochr â'r llywodraeth yn y dyfodol gan gynnwys gweithredu 'egwyddorion ariannu newydd yn seiliedig ar gyfraniad nominal o hyd at 50 y cant gan y llywodraeth i gefnogi cyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant achrededig i'w gweithwyr.'<sup>5</sup>

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

- 3.5 Mae'r FSP yn cyd-fynd â 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)'<sup>6</sup> ac yn cyfrannu ati. Y flaenoriaeth allweddol y mae'r rhaglen yn cyfrannu'n uniongyrchol ati yw'r nod 'Cymru Lewyrchus' - cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.

*Ffyniant i bawb: Symud Cymru Ymlaen 2016-21*

- 3.6 Mae Sgiliau a Chyflogadwyedd yn un o'r pum maes blaenoriaeth allweddol a nodwyd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-21. Mae'n cydnabod 'po gryfaf yw'r sylfaen sgiliau yng Nghymru, y mwyaf o siawns sydd gennym o ddenu busnesau newydd a thyfu'r rhai presennol i wella ffyniant'<sup>7</sup> ac mae'n amlinellu rôl bwysig cymorth busnes uniongyrchol wedi'i dargedu a rhaglenni sgiliau o ansawdd o ran cyflawni'r nod hwnnw.
- 3.7 O ran sgiliau ar gyfer busnes, bu'r Rhaglen Lywodraethu yn trafod sut y gallai sgiliau ddatgloi twf ac arloesedd mewn busnesau, ac er bod gan fusnesau gyfrifoldeb i fuddsoddi yn eu gweithlu eu hunain, mae'r llywodraeth hefyd yn chwarae rhan wrth sicrhau cysylltiad fwy clos rhwng yr hyfforddiant a gynigir ac anghenion economi Cymru. Yn yr un modd, roedd y ddogfen yn cydnabod y gall 'sgiliau da' wneud Cymru'n lle mwy deniadol i fuddsoddwyr, ac y gallai sgiliau trosglwyddadwy helpu pobl i symud yn haws rhwng swyddi a symud ymlaen o swyddi â chyflogau is.

---

<sup>5</sup> Ibid., tud.18

<sup>6</sup> [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (2016) [Ffyniant i Bawb: Symud Cymru Ymlaen 2016-21](#), tud.4

3.8 Soniodd y Rhaglen Lywodraethu am y flaenoriaeth o sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir o fewn cyd-destun economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym, er mwyn sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn gystadleuol a bod sicrwydd o ran cyflogaeth. Mae sgiliau digidol yn cael eu hamlygu'n benodol fel rhan bwysig o'r economi newydd. Ymhellach, mae rôl cyflogwyr da a fydd 'yn mynd ati o'u rhan eu hunain i fuddsoddi mewn datblygu ac addasu eu gweithlu' wedi'i nodi ochr yn ochr â 'rôl hollbwysig' y llywodraeth o ran 'darparu'r hyfforddiant y mae ei angen ar bobl a'r economi.'<sup>8</sup> O'r herwydd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r holl raglenni sgiliau a dysgu seiliedig ar waith presennol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion presennol cyflogwyr a'r economi ac yn gallu 'ymateb yn hyblyg i ofynion newydd'.<sup>9</sup>

3.9 Yn y ddogfen, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- 'sicrhau bod ein darpariaeth meithrin sgiliau...yn adlewyrchu anghenion presennol cyflogwyr ac yn parhau i ddiwallu anghenion economi'r dyfodol
- ad-drefnu'r arlwy presennol a chreu rhaglen gyflogadwyedd newydd a symlach sy'n ymateb yn well i anghenion unigolion a chyflogwyr
- mynd ati yn y Cymoedd i dreialu dull seiliedig ar leoedd o wella cyflogadwyedd, gan gynnwys ehangu'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg er mwyn hoelio sylw ar ennyn diddordeb cyflogwyr mewn ardaloedd difreintiedig.'<sup>10</sup>

#### *Rhaglen Lywodraethu, 2021-2026*

3.10 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-26 yn cynnwys deg amcan llesiant i sicrhau Cymru fwy llewyrchus, fwy cyfartal a gwyrddach sy'n creu sylfaen gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol. Un amcan allweddol yw 'adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.' Mae amcan arall yn addo 'adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.'<sup>11</sup>

---

<sup>8</sup> Ibid., tud.18

<sup>9</sup> Ibid., tud.18

<sup>10</sup> Ibid., t.27

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru (2021), [Rhaglen Lywodraethu, Diweddariad](#) tud.8

3.11 Er na chrybwyllir yr FSP yn benodol, mae'n cyfrannu at nifer o ymrwymadau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu. Er enghraifft, mae ganddi rôl i'w chwarae wrth i Lywodraeth Cymru anelu at ddatblygu ei Chenhadaeth i Gryfhau ac Adeiladu'r Economi ar gyfer Cymru a'i hymrwymiad i 'helpu meysydd allweddol o'n heconomi, fel awyrofod a dur, i arloesi, tyfu a lleihau eu hól troed carbon.'<sup>12</sup>

*Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau (2022)*

3.12 Nod y cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau hwn yw nodi blaenoriaethau polisi a buddsoddi clir i ganolbwyntio arnynt. Fe'i lluniwyd mewn amodau ariannol anodd a oedd yn cynnwys effeithiau'r pandemig COVID-19, colli £1 biliwn o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r argyfwng economaidd parhaus sy'n ymwneud â chostau byw. Yn hynny o beth, mae'n cydnabod y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd tra'n parhau i 'gefnogi economi yng Nghymru sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu a denu gwell swyddi mewn busnesau mwy gwydn a chystadleuol ar draws ein rhanbarthau.'<sup>13</sup>

3.13 Mae'r cynllun yn cydnabod y rôl y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei chwarae i gefnogi gofynion sgiliau busnesau ar gyfer llwyddiant economaidd hirdymor Cymru ac mae'n ymrwymo i gefnogi cyflogwyr o fewn economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

3.14 Mae'r cynllun yn amlinellu pum maes gweithredu allweddol:

- Cenedlaethau'r Dyfodol – sy'n canolbwyntio ar ddull system gyfan o gyflawni'r Warrant i Bobl Ifanc fel bod pawb o dan 25 oed yn cael cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth
- Cydraddoldeb Economaidd – wedi'i dargedu at y rhai a dangynrychiolir yn y farchnad lafur a'r rhai sy'n ddi-waith â chyflyrau iechyd hirdymor

---

<sup>12</sup> Ibid., tud.2

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru (2022), [Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau](#), tud.2

- Gwaith Teg i Bawb – cefnogi ac annog cyflogwyr i greu cyflogaeth o ansawdd uchel, gwella'r hyn a gynigir i weithwyr presennol a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg
- Gwaith Iach, Cymru Iach – sy'n canolbwyntio ar atal pobl rhag gadael cyflogaeth oherwydd problemau iechyd
- Dysgu am Oes – gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau addysgol ac ehangu mynediad i'r system sgiliau.

*Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach (2023)*

- 3.15 Yn ddiweddar, nododd Gweinidog yr Economi bedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer economi Cymru ar gyfer y dyfodol sy'n canolbwyntio ar ffyniant gwyrdd a chyfleoedd economaidd sero net; cefnogi pobl ifanc; canolbwyntio ar gyfres lai o flaenoriaethau ar gyfer twf ar lefelau rhanbarthol gan gynnwys meysydd fel niwclear, ynni gwynt ar y môr a thechnoleg; a buddsoddi mewn twf, gan gynnwys '[c]efnogi masnacheiddio, ymchwil a datblygu ac entrepreneuriaeth'<sup>14</sup>.
- 3.16 O dan y camau gweithredu Gwaith Teg i Bawb mae ymrwymiad i esblygu a gwella gwasanaeth Busnes Cymru gan gynnwys cefnogi busnesau i wella arferion rheoli, cyflogaeth ac adnoddau dynol (AD). Mae hefyd yn trafod yr angen i gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol.<sup>15</sup>

**Cyd-destun polisi sector-benodol**

- 3.17 Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi a chynlluniau sector-benodol sy'n ymwneud â'r ffrydiau prosiect partneriaeth presennol o fewn yr FSP:

**Sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg**

*Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu (2021)*

- 3.18 Mae'r cynllun gweithredu hwn sy'n canolbwyntio ar anghenion y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ac yn seiliedig ar gyflawni tri chanlyniad allweddol:

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru (2023), [Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach](#), tud.10

<sup>15</sup> Ibid., tud.38

- Economi ffyniannus – gyda sylfaen economaidd amrywiol yng Nghymru o gwmnïau sy'n edrych tuag allan, yn arloesi, yn gynhyrchol ac sy'n cyflogi 'gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau ar gyfer byd sy'n newid'
- Economi werdd – lle mae adnoddau'n ychwanegu gwerth economaidd a lle mae gwastraff yn cael ei osgoi, a buddsoddiad mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid
- Economi gyfartal – 'sy'n golygu buddsoddi ym mhotensial cynhyrchol pawb mewn cymunedau', gydag angen i adeiladu uchelgais, annog dysgu am oes a chefnogi pobl i wneud y gorau o'u potensial.<sup>16</sup>

3.19 Er nad yw'r cynllun gweithredu yn cyfeirio'n benodol at yr FSP, serch hynny mae'n amlinellu'r angen i wella sgiliau arweinyddiaeth a rheoli a llenwi bylchau mewn sgiliau drwy sicrhau bod 'gennym y bobl sydd â'r sgiliau sydd eu hangen arnom' a datblygu cyfrwng i bobl â thalentau amrywiol allu ymuno â'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru<sup>17</sup>. Mae hefyd yn amlinellu rôl bwysig y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol 'o ran llywio'r cyllid ar gyfer sgiliau ar draws dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau.<sup>18</sup>

3.20 Mae'r cynllun gweithredu hefyd yn nodi pwysigrwydd angori busnesau'n well yng Nghymru, gyda 'chynnig' gan Gymru sy'n cynnwys buddsoddi mewn sgiliau yn chwarae rhan hanfodol o ran dylanwadu ar benderfyniad busnes i sefydlu canghennau gweithgynhyrchu mewn rhanbarth penodol.

*Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Ein Taith tuag at 'Gymru 4.0' (2023)*

3.21 Datblygwyd y Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu sydd wedi'i ddiweddarau mewn ymateb i'r heriau mawr y mae'r sector gweithgynhyrchu yn eu hwynebu o ganlyniad i ddatblygiadau diweddar megis Brexit a threfniadau masnachu newydd gyda'r UE, pandemig COVID-19, yr argyfwng hinsawdd, cynnydd mewn prisiau a'r amharu ar gadwyni cyflenwi byd-eang. Mae'r cynllun ar ei newydd wedd yn amlinellu chwe

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru (2021), [Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu](#), tud.3

<sup>17</sup> Ibid., tud.8 a tud.20

<sup>18</sup> Ibid., tud.21

amcan strategol sy'n ffurfio dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer y sector.

- 3.22 O dan amcan strategol 3: nodi a datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithlu ac arweinwyr er mwyn cyflawni 'Cymru 4.0', mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod yr anawsterau a wynebir gan fusnesau o ran denu digon o bobl â'r sgiliau, y cymwysterau neu'r profiad cywir ac mae'n cyfeirio at nifer o ddulliau cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio mewn ffordd wedi'i thargedu i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar y sector gweithgynhyrchu.
- 3.23 Mae'r cynllun gweithredu'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr FSP a'i ddwy elfen wahanol fel enghraifft o sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i anghenion y sector. Mae'n amlinellu 'Prosiect Partneriaeth Uwch Beirianeg a Gweithgynhyrchu i helpu i sbarduno economi sgiliau Cymru, gan ganolbwyntio ar anghenion sgiliau blaenoriaeth a nodwyd gan gyflogwyr yng Nghymru a chyrrff sy'n cynrychioli'r diwydiant yn y sector.'<sup>19</sup>

### **Sgiliau allforio**

#### *Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio (2020)*

- 3.24 Yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o gamau gweithredu penodol sy'n canolbwyntio ar feithrin capasiti a gallu fel bod busnesau'n meddu ar y sgiliau cywir i allu allforio'n llwyddiannus a hyderus. Mae ffocws penodol ar gefnogi BBaChau i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i'w galluogi i ymuno â marchnadoedd newydd a photensial allforio heb ei gyffwrdd.
- 3.25 Yn y tymor byr, mae'r cynllun gweithredu yn ymrwmo i helpu ac annog cwmnïau i ddatblygu eu gallu allforio 'drwy Grant Hyfforddiant Allforio sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i staff ymgymryd â hyfforddiant achrededig sy'n gysylltiedig ag allforio.'<sup>20</sup>

### **Sgiliau creadigol**

#### *Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol 2022-2025*

---

<sup>19</sup>Llywodraeth Cymru (2023), [Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Ein Taith tuag at 'Gymru 4.0](#), tud.25

<sup>20</sup>Llywodraeth Cymru (2020), [Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio](#), tud.16



- 3.26 Mae dwy adran i'r cynllun hwn. Mae'r adran gyntaf yn amlinellu ymrwymïadau Cymru Greadigol i sicrhau newid drwy ei gylch gwaith ei hun ac ar y cyd ar draws portffolios Llywodraeth Cymru. Mae'r ail adran yn amlinellu 10 blaenoriaeth allweddol ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau.
- 3.27 Yn adran un, mae Cymru Greadigol yn ymrwmo i ddatblygu adran fwy cynhwysfawr ar ei gwefan wedi'i neilltuo i sgiliau a thalent, sy'n cyfeirio at gyfleoedd hyfforddi a 'c[h]ymorth i gwmnïau sydd am hyfforddi/uwchsgilio staff (e.e. Rhaglen Sgiliau Hyblyg).<sup>21</sup>
- 3.28 Yn adran dau, amlinellir hyfforddiant busnes ac arweinyddiaeth ym Mlaenoriaeth 1, gyda'r nod o gefnogi arweinwyr a rheolwyr y dyfodol yn y sectorau creadigol i'w galluogi i ffynnu, tyfu a chyrraedd eu llawn botensial. Er mwyn cyflawni hyn, nodir cam gweithredu allweddol i 'sicrhau bod gan arweinwyr, rheolwyr a Phenaethiaid Adrannau yn y diwydiant y sgiliau sydd eu hangen arnynt i redeg busnes creadigol llwyddiannus a rheoli a chefnogi eu gweithlu'n effeithiol drwy ddarparu hyfforddiant rheoli busnes a hyfforddiant arweinyddiaeth sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob sector â blaenoriaeth' a 'c[h]efnogi hyfforddiant masnacheiddio er mwyn helpu cwmnïau i dyfu, sicrhau arian, cynllunio olyniaeth.'<sup>22</sup>
- 3.29 Nod Blaenoriaeth 5 – Cyfleoedd a Lleoliadau Uwchsgilio yw helpu'r gweithlu presennol i ddatblygu yn eu gyrfa. Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys 'helpu unigolion i ddatblygu yn eu gyrfa ym mhob sector â blaenoriaeth' (sgrin, cerddoriaeth a chynnwys digidol) a 'nodi prinder a bylchau penodol o ran sgiliau ar gyfer rhoi cymorth' a 'chefnogi hyfforddiant DPP ym mhob sector creadigol'<sup>23</sup>. Nod Blaenoriaeth 8 – Arloesi yw sicrhau bod gan weithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer y dyfodol ac mae'n ceisio sicrhau dyfodol y gweithlu yng Nghymru o ran sgiliau mewn technolegau newydd.

---

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru (2022), [Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol](#), tud.4

<sup>22</sup> Ibid., tud.5

<sup>23</sup> Ibid., tud.8

## **Sgiliau digidol**

### *Strategaeth Ddigidol i Gymru (2022)*

- 3.30 Mae'r strategaeth ddigidol i Gymru yn nodi cyfres o feysydd blaenoriaeth o dan chwe chenhadaeth sy'n anelu at gyflymu manteision arloesi digidol i bawb, gan gynnwys y gymuned fusnes.
- 3.31 Nod Cenhadaeth 3: sgiliau digidol yw 'creu gweithle sydd â'r sgiliau digidol, y galluogrwydd a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd pob dydd'.<sup>24</sup> Mae'r strategaeth yn ymrwymo i gysoni'r ddarpariaeth sgiliau ag anghenion yr economi ddigidol er mwyn i gyflogwyr gydnabod gwerth sgiliau digidol a buddsoddi yn anghenion eu gweithlu, a bod busnesau yng Nghymru'n gallu cael y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i arloesi, gwella a thyfu<sup>25</sup>.
- 3.32 Mae Cenhadaeth 4: yr economi ddigidol, sef 'sbarduno ffyniant a chydnerthedd economaidd drwy groesawu a manteisio ar arloesedd digidol' yn cysylltu â'r sylfaen sgiliau a amlinellir yng Nghenhadaeth 3, fel y gellir cyflenwi'r galluoedd sydd eu hangen ar fusnesau. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i 'ymateb i ofynion cyflogwyr yn y dyfodol o ran eu helpu i ddatblygu sgiliau digidol', fel bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi yn y dyfodol a bod gan gyflogwyr weithlu amrywiol a thalentog i fanteisio arno.<sup>26</sup>

## **Sgiliau twristiaeth a lletygarwch**

### *Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025 (llyw.cymru)*

- 3.33 Mae'r strategaeth hon yn cydnabod yr angen am rôl amlycach i Croeso Cymru wrth ddatblygu sgiliau ar draws y sector er mwyn galluogi Cymru i fod yn y sefyllfa orau bosibl i gynnig profiad o ansawdd i ymwelwyr yn y dyfodol. Mae'n ymrwymo i sefydlu Partneriaeth Sgiliau Twristiaeth ffurfiol i ddod â'r sector, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Addysg Bellach (AB), Addysg Uwch (AU), ac eraill ynghyd i gydlynu camau gweithredu ar sgiliau a nodi'r dulliau sydd ar gael yn y sector

---

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru (2022), [Strategaeth Ddigidol i Gymru](#), tud.8

<sup>25</sup> Ibid., tud.15

<sup>26</sup> Ibid., tud.17

cyhoeddus i ddatblygu'r agenda sgiliau. Mae datblygu sgiliau digidol yn flaenoriaeth gydnabyddedig arall yn y strategaeth.

### **Sgiliau Sero Net**

#### *Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net (2023)*

- 3.34 Gan gydnabod y bydd sgiliau yn ffordd allweddol o bontio i economi sero net, mae'r cynllun gweithredu Sgiliau Sero Net yn nodi saith maes gweithredu sy'n flaenoriaeth, gan gynnwys: datblygu gweithlu medrus i gyflawni ymrwymadau sero net – drwy gefnogi cyflogwyr a phartneriaid a darparu dulliau newydd o ddatblygu gweithlu medrus a defnyddio dull trawslywodraethol a dull partneriaeth i gyflawni'r ymrwymiad sgiliau<sup>27</sup>.
- 3.35 Mae'r cynllun gweithredu yn trafod y camau rhagweithiol y mae llawer o fusnesau eisoes yn eu cymryd i wella eu cynaliadwyedd ac awydd Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau i dyfu eu sylfaen sgiliau er mwyn eu galluogi i gyrraedd marchnadoedd y dyfodol ac ymateb i economi sy'n newid yn gyflym.<sup>28</sup>
- 3.36 Yn y tymor byr i'r tymor canolig mae'n ymrwymo i weithio gyda chyflogwyr a chyrrff cynrychioliadol i ddeall manteision ac effaith sgiliau sero net drwy '[d]darparu gwybodaeth glir am ein pecyn sgiliau ac opsiynau cymorth i uwchsgilio neu ailsgilio unigolion' ac i ddeall y 'rhwystrau y mae cyflogwyr yn eu hwyneb a'r camau y gellid eu datblygu ar y cyd er mwyn eu galluogi i ryddhau eu staff i ymgymryd â'r hyfforddiant.'<sup>29</sup>

### **Canfyddiadau allweddol o raglenni a ragflaenodd yr FSP**

#### *Sgiliau Twf Cymru*

- 3.37 Roedd Sgiliau Twf Cymru yn rhaglen a ariannwyd gan yr UE a gynhaliwyd rhwng 2010-2016 gyda'r nod o ddarparu cymorth i helpu cwmnïau yng Nghymru i dyfu, drwy ddarparu cyfraniad ar ffurf cyllid o rhwng 60 ac 80 y cant (yn dibynnu ar faint y cwmni) hyd at uchafswm o £3,000 fesul cyflogai ar gyfer 'hyfforddiant sgiliau lefel

---

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru (2023), [Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net](#), tud.2

<sup>28</sup> Ibid., tud.19

<sup>29</sup> Ibid., tud.20

uchel neu sgiliau technoleg newydd<sup>30</sup>. Cafodd y rhaglen ei hymestyn yn 2012 ac esblygodd Twf Swyddi Cymru yn rhaglen a oedd â'r nod o '[g]ynorthwyo cwmnïau sy'n bwriadu ehangu eu gweithlu ac sydd angen cymorth ariannol i ymgymryd â hyfforddiant i wireddu hyn<sup>31</sup>. Roedd yr estyniad i Twf Swyddi Cymru yn darparu hyfforddiant hyd at gost gyfartalog o £2,500 fesul gweithiwr. Er mwyn cael gafael ar y cyllid hwn, roedd yn ofynnol i gyflogwyr ddangos ymrwymiad i darged twf y byddai'r hyfforddiant yn eu helpu i'w gyrraedd; cynyddu neu gyflwyno hyfforddiant, darparu hyfforddiant achrededig neu hyfforddiant a gydnabyddir gan ddiwydiant; a darparu hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth a rheolaeth, effeithlonrwydd busnes ac uwchsgilio'r gweithlu. Er bod y rhaglen yn agored i gyflogwyr o bob maint a sector, roedd yn canolbwyntio mwy ar BBaChau na'i rhagflaenydd.

3.38 Mae canfyddiadau allweddol o werthusiad terfynol Twf Swyddi Cymru yn cynnwys y canlynol:

- roedd heriau o ran beichiau gweinyddol a allai fod wedi lleihau'r gallu i gyflawni canlyniadau
- roedd rhai problemau ynghylch ychwanegedd, lle y gallai cyflogwyr fod wedi defnyddio cymorthdaliadau hyfforddiant i ddarparu'r hyn yr oeddent wedi bwriad ei ddarparu beth bynnag
- efallai nad oedd y rhaglen wedi darparu ar gyfer anghenion penodol busnesau bach nac ychwaith ar gyfer y cyflogwyr hynny nad ydynt yn rhan o rwydweithiau hysbys neu nad oedd ganddynt berthynas eisoes â Llywodraeth Cymru
- dangosodd y rhaglen ganlyniadau cymaradwy â rhaglenni cymorth twf uchel eraill o ran yr effeithiau yr adroddwyd amdanynt ar drosiant a buddion i fusnesau, ac ychwanegedd is o ran canlyniadau cyflogaeth
- roedd yn cynnig cymorth llai dwys nad oedd wedi'i dargedu i'r un graddau â'r rhaglenni mwyaf effeithiol.

---

<sup>30</sup> Llywodraeth Cymru (2016), [Sgiliau Twf Cymru: Gwerthusiad Terfynol: Crynodeb Gweithredol](#) tud.2

<sup>31</sup> Ibid., tud.2

3.39 Mae'r gwerthusiad terfynol hefyd yn cynnig gwersi ar gyfer cyflwyno rhaglenni hyfforddiant sgiliau yn y dyfodol gan gynnwys:

- dylai cynllun a rhesymeg y rhaglen fynd i'r afael â thanfuddsoddi gan gyflogwyr mewn hyfforddiant a dileu bylchau sgiliau
- felly, dylai canlyniadau'r rhaglen ymwneud â chyflawni buddion i fusnes yn gysylltiedig â hynny (gwerthiannau, elw, cynhyrchiant) yn hytrach na thyfu cyflogaeth
- dylai cynllun y rhaglen adlewyrchu gwahanol anghenion ac atebion grwpiau penodol o fusnesau, yn benodol y ffaith bod BBaChau yn fwy tebygol o chwilio am hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar greu swyddi tra bod busnesau mawr yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar gynyddu cynhyrchiant a pharhad swyddi
- mae angen elfennau ychwanegol i hyfforddiant ar fusnesau bach er mwyn cefnogi twf uchel (gan gynnwys cyngor busnes, anogaeth, mentora a chyfluoedd rhwydweithio) felly dylid sefydlu a chynnal cysylltiadau â rhaglenni eraill a all eu cefnogi<sup>32</sup>.

#### *Rhaglen Datblygu'r Gweithlu (RhDG)*

3.40 Roedd y RhDG yn rhaglen hyfforddi a ariannwyd ac a reolwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 2005 a 2015. Cafodd rhwydwaith o Gyngorwyr Datblygu'r Gweithlu eu contractio gan Lywodraeth Cymru i helpu busnesau yng Nghymru i adolygu eu gweithgareddau datblygu staff a nodi eu hanghenion hyfforddi. Roedd y RhDG hefyd yn cynnwys cronfa ddewisol a allai ddarparu cymorth i gwmnïau gyda'r gost o hyfforddi eu gweithwyr, ar gyfradd ymyrraeth o 50 y cant.<sup>33</sup>

3.41 Canfu'r gwerthusiad y canlynol:

- roedd y broses o wneud cais am gyllid a'r amser a gymerwyd i asesu ac ymateb i geisiadau am gyllid yn gadarnhaol ar y cyfan

---

<sup>32</sup> Ibid., tud.7-8

<sup>33</sup> Llywodraeth Cymru (2016), [Gwerthusiad o Raglen Datblygu'r Gweithlu: Crynodeb Gweithredol](#), tud.1

- defnyddiwyd y cyllid i gyd-ariannu ystod briodol o gyrsiau hyfforddi o ansawdd uchel
- roedd rhai busnesau, yn enwedig tua diwedd y rhaglen, yn teimlo bod diffyg hyblygrwydd wrth ymateb i geisiadau am newidiadau i gynlluniau hyfforddi
- roedd gan yr hyfforddiant a ariannwyd lefelau uchel o ychwaneged
- roedd hyfforddiant wedi'i ariannu wedi arwain at effeithiau cymedrol ond cadarnhaol ar drosiant ac elw
- roedd tystiolaeth o barodrwydd ar ran busnesau a gynorthwywyd i gyd-fuddsoddi ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru
- heb gyd-fuddsoddi roedd hyfforddiant yn debygol o ddigwydd, ond yn arafach.

#### 3.42 Roedd y gwerthusiad terfynol yn argymhell:

- y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori pwyntiau dysgu allweddol o'r RhDG mewn dylunio rhaglenni hyfforddi yn y dyfodol, yn enwedig yr hyblygrwydd a ddarparwyd gan y rhaglen i gefnogi ystod o gyrsiau hyfforddi ymarferol a pherthnasol wrth ddefnyddio dull marchnad agored i ddewis darparwyr hyfforddiant
- dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyfuno elfennau o wybodaeth, cyngor a chymorth ariannol i fusnesau
- dylid nodi amserlen glir i gwmnïau ddefnyddio cyllid cyd-fuddsoddi ar sail 'ei ddefnyddio neu ei gollu' a'i ymgorffori yn nyluniad rhaglenni'r dyfodol. Dylid neilltuo digon o amser i gwmnïau gynllunio, comisiynu a chwblhau hyfforddiant ond dylent osgoi bod yn rhy hir nes colli ffocws a momentwm.
- dylai unrhyw wasanaeth cynghori ar sgiliau a roddir ar waith yn y dyfodol annog busnesau i gyflwyno cynlluniau hyfforddi realistig a chyraeddadwy.<sup>34</sup>

---

<sup>34</sup> Ibid., tud.5-6

## **4. Trosolwg o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg**

4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP) ac yn rhoi amlinelliad o ddatblygiadau allweddol y rhaglen. Mae hefyd yn cynnwys model rhesymeg drafft ar gyfer yr FSP y gellid ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddylunio, darparu a gwerthuso'r rhaglen yn y dyfodol.

### **Cyflwyniad**

4.2 Wedi'i sefydlu yn 2016, mae'r FSP yn ymyrraeth sydd â'r nod o gefnogi busnesau yng Nghymru drwy uwchsgilio eu gweithlu drwy ddatblygu busnesau. Nod yr FSP yw bod o fudd i gyflogwyr drwy eu helpu i ddatblygu sgiliau mwy technegol a throsglwyddadwy. Mae hyn yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i leihau tlodi mewn gwaith drwy wella sgiliau'r gweithlu presennol yng Nghymru. Yn ogystal â chanolbwyntio ar elw economaidd uniongyrchol ar fuddsoddiad, mae'r FSP hefyd yn canolbwyntio ar fanteision cymunedol ehangach ac ymgysylltu â'r rhwydweithiau addysg a datblygu sgiliau.

4.3 Y gost bresennol o ddarparu'r FSP yw £1.5 miliwn ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2022-2025 ac mae'r gyfradd ymyrraeth ariannol wedi'i chapio ar 50 y cant. Gallai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gyfradd ymyrraeth mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, pe bai angen cymorth ychwanegol ar gyfer sgiliau o ganlyniad i Brexit neu Covid. Ar hyn o bryd, mae'r FSP hanner ffordd drwy gyfnod tair blynedd y rhaglen.

4.4 Mae'r FSP yn seiliedig ar y llwyddiant a'r gwersi a ddysgwyd o raglenni blaenorol drwy dargedu'r cymorth at brosiectau strategol a arweinir gan gyflogwyr sy'n gallu sicrhau'r manteision economaidd mwyaf i Gymru. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu at Gwmnïau Angori, Cwmnïau o Bwys Rhanbarthol, prosiectau mawr Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor, busnesau twf cynhenid a chlystyrau o gyflogwyr y mae twf mawr neu fethiant y farchnad yn effeithio arnynt.

4.5 Mae'r FSP yn cynnwys dwy ffrwd wahanol:

- Datblygu Busnes yr FSP – i gefnogi prosiectau datblygu busnes sylweddol a arweinir gan gyflogwyr, y disgwylir iddynt arwain at ehangu busnesau a buddsoddiad mawr a fydd yn arwain at greu swyddi o ansawdd uchel

- Prosiectau Partneriaeth yr FSP - wedi'i gynllunio i sbarduno economi sgiliau ehangach Cymru, gan ganolbwyntio ar anghenion sgiliau sy'n flaenoriaeth i gyflogwyr Cymru a chyrrff sy'n cynrychioli diwydiant a chynnig proses ymgeisio symlach. Ar hyn o bryd mae chwe elfen wahanol o brosiectau partneriaeth:
  - Digidol Uwch
  - Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch
  - Creadigol
  - Allforio
  - Twristiaeth a Lletygarwch a
  - Sero Net.

4.6 Mae'n ofynnol i gyflogwyr sy'n gwneud cais am yr FSP ddangos tystiolaeth o'u hymrwymiad i'w gweithwyr a'u cymuned, yn ogystal â pharodrwydd i ymgysylltu'n gynhyrchiol â darparwyr addysg a sgiliau Cymru i helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfatebiaeth rhwng darpariaeth ac anghenion yr economi. Nid yw'n nodi bod yn rhaid i ddarparwyr hyfforddiant fod wedi'u lleoli yng Nghymru.

## **Cymhwystra**

### *Ffrwd Datblygu Busnes yr FSP*

- 4.7 Mae'r ffrwd datblygu busnes ar gael i gefnogi prosiectau datblygu busnes sylweddol drwy gefnogi darparu hyfforddiant a fydd yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni prosiect penodol.
- 4.8 Yn ystod y broses ymgeisio, mae'n ofynnol i gyflogwyr ddangos bod ganddynt Brosiect Datblygu Busnes credadwy a chlr. I fod yn gymwys am gyllid, rhaid i'r cyflogwr ddangos:
- y bydd yr hyfforddiant yn darparu digono elw ar fuddsoddiad, er enghraifft o ran creu neu ddiogelu swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel



- bod eu gofynion hyfforddi yn cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol a nodir yng nghynlluniau strategol Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- eu hymrwymiad i ddatblygu'r gweithlu
- cynlluniau buddsoddi cyfalaf sylweddol
- cyfleoedd allforio posibl
- eu hymrwymiad i gyfle cyfartal.

#### *Ffrwd prosiectau partneriaeth yr FSP*

- 4.9 Mae'r ffrwd hon o'r FSP yn galluogi clwstwr o gyflogwyr neu gyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr i gyflwyno cais ar ran grŵp o gyflogwyr yn yr un sector, yn yr un lleoliad neu sydd ag anghenion hyfforddi tebyg. Y nod yw galluogi cyflogwyr llai i ddarparu'r sgiliau gweithredol sydd eu hangen i gefnogi datblygiad economaidd a/neu'r sgiliau sydd eu hangen ar sector/clwstwr o fusnesau.
- 4.10 Nod y ffrwd hon yw cynorthwyo cyflogwyr llai i gael mynediad i gymorth hyfforddi os nad oes ganddynt, yn unigol, brosiect datblygu busnes addas i fodloni gofynion cymhwystra y ffrwd datblygu busnes. Y disgwyliad yw, drwy weithio mewn partneriaeth ar lefel leol neu ranbarthol, y gallai cyflogwyr fod mewn sefyllfa well i helpu Cymru i oresgyn her sgiliau, manteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a gwneud cynnydd economaidd. Disgwylir i geisiadau am brosiectau partneriaeth allu dangos yr effaith y byddai'r cymorth yn ei chael ar eu hardal, eu sector neu glwstwr o gyflogwyr.
- 4.11 Mae'r prosiectau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar sector neu ardal benodol lle y nodwyd yr angen am sgiliau. Mae'r ffrwd hon hefyd yn ceisio rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru lywio a dylanwadu'n uniongyrchol ar y nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant a ddilynnir gan unigolion sydd mewn gwaith mewn meysydd o angen a nodwyd (fel her sgiliau neu angen economaidd).

#### **Mynediad i hyfforddiant cymwys**

- 4.12 Mae enghreifftiau o gostau hyfforddi cymwys posibl yn cynnwys:
- costau darparwyr hyfforddiant allanol

- hyfforddiant corfforaethol lle y gellir darparu tystiolaeth o daliad
- costau cyflog hyfforddwr mewnol lle mae tystiolaeth o angen a chymhwysedd i'w ddarparu yn unol â safonau diwydiant
- mewn achosion eithriadol, cyflogau hyfforddeion<sup>35</sup>.

- 4.13 Yn gyffredinol ni fydd yr FSP yn ariannu hyfforddiant statudol neu reoleiddiol; cynadleddau, gweithgaredd rhwydweithio a gweithgareddau sy'n seiliedig ar brofiad; hyfforddiant sylfaenol neu lefel isel; neu weithgareddau ymgynghori neu hyfforddi.
- 4.14 Anogir hyfforddiant achrededig lle bo modd. Lle mae angen hyfforddiant heb ei achredu, rhaid iddo gyd-fynd â safon diwydiant a gydnabyddir yn eang.
- 4.15 Ni fydd yr FSP yn ariannu gweithgareddau hyfforddi y gellir cael gafael arnynt ar gyfradd â chymhorthdal drwy raglenni, prosiectau neu lwybrau eraill. Fodd bynnag, gall yr FSP weithredu fel dull i sianelu cymorth sgiliau uniongyrchol a ariennir o ffynonellau eraill. Er enghraifft, nodwyd yr FSP fel y dull llywodraethu y byddai cyllid pontio'r UE yn cael ei sianelu drwyddo, i gefnogi anghenion sgiliau cyflogwyr Cymru yn ystod yr ansicrwydd a achoswyd gan Brexit.

### **Trefniadau gweinyddol yr FSP**

- 4.16 Darperir cyngor, arweiniad a gwybodaeth i gyflogwyr gan Gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr Llywodraeth Cymru. Mae rôl yr Uwch-reolwr Cysylltiadau penodedig<sup>36</sup>, sy'n rhan o'r Gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr, yn cynnwys:
- sicrhau bod cwmnïau'n manteisio ar gymorth hyfforddi arall, mwy prif ffrwd pan fo ar gael
  - sicrhau bod cyflogwyr yn cael y cyfle i ymgysylltu'n weithredol â sefydliadau addysg drydyddol lleol

---

<sup>35</sup> Hyd yma ni ofynnwyd am hyn.

<sup>36</sup> Mae'r Uwch-reolwr Cysylltiadau'n gyfrifol am ddatblygu perthnasoedd cryf gyda chwmnïau o bwysigrwydd strategol, cwmnïau twf a chwmnïau mewnfuddsoddi sy'n 'newydd' i Gymru. Maent yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu pecynnau cymorth arloesol a hyblyg i fusnesau strategol a busnesau twf, gan gynnwys cyllid.

- ymchwilio i botensial cyflogi prentisiaid, os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes
- hysbysu ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer yr FSP cyn iddynt gyflwyno unrhyw gais.

4.17 Mae trefniadau gweithio trawslywodraethol / adrannol ar waith i sicrhau bod timau cysylltiedig (timau mewnfuddsoddi, datblygu busnes rhanbarthol, arloesi ac ati) yn ymwybodol o'u rôl o ran hysbysu'r gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr am brosiectau addas.

### **Y broses ymgeisio ac adolygu**

#### *Y ffrwd Datblygu Busnes*

- 4.18 Mae cyflogwyr sy'n gwneud cais am y ffrwd hon yn cyflwyno ffurflen gais sy'n seiliedig ar brosiect, ochr yn ochr â Chynllun Datblygu Sgiliau sy'n manylu ar yr hyfforddiant angenrheidiol i gefnogi'r prosiect datblygu busnes. Rhaid i bob cais, pan gaiff ei gyflwyno i'r panel buddsoddi, gael ei gymeradwyo gan Uwch-reolwr Cysylltiadau neu Bennaeth Cangen Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad MERIT sy'n gwerthuso'r cyflogwr yn erbyn meini prawf penodol (yn ymwneud â Rheoli, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Tâl, Cysylltiadau Diwydiannol a Chymunedol a Hyfforddiant).
- 4.19 Mae hunanasesiad MERIT yn galluogi'r cyflogwr i ddangos prosesau ac arferion rheoli busnes cyfredol ac arfaethedig. Mae hunanasesiad MERIT yn rhan o ffocws Llywodraeth Cymru ar annog a herio safonau cyflogaeth yng Nghymru a gweithio'n agos gyda chyflogwyr sy'n esiampl i eraill. Yn ogystal â hynny, mae'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru adolygu ymrwymiad y cyflogwr i ymgysylltu â'r gweithlu a sicrhau cyfatebiaeth â blaenoriaethau cenedlaethol.
- 4.20 Mae Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cymorth ac arweiniad (e.e. cysylltu â rhaglenni ehangach neu gyflwyno enghreifftiau o arfer gorau) i gyflogwyr pan nodir gwendidau drwy broses hunanasesu MERIT.
- 4.21 Y lefel uchaf ddisgwyliedig o gyllid ar gyfer y ffrwd datblygu busnes yw £500,000 fesul cwmni y flwyddyn. Mae angen i uwch swyddogion sy'n uwch-reolwyr yn adran

Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw geisiadau am gyllid uwchlaw'r trothwy blynyddol o £500,000 ac mae'n rhaid cael ymrwymiad a/neu gymeradwyaeth ffurfiol gan y Gweinidog perthnasol<sup>37</sup>.

#### *Y ffrwd prosiectau partneriaeth*

- 4.22 Yn yr un modd â'r ffrwd datblygu busnes, rhaid i gynigwyr (cwmni) prosiectau partneriaeth gyflwyno ffurflen gais yn seiliedig ar brosiect ynghyd â'r Cynllun Datblygu Sgiliau a'r cynllun MERIT. Rhaid iddynt hefyd nodi rhestr o feysydd hyfforddi a fydd yn mynd i'r afael â heriau sgiliau yn eu hardal neu sector. Bydd pob cais yn cael ei asesu gan aelod o'r Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr, a fydd yn gweithredu fel y swyddog noddi i gymeradwyo'r cais i'w ystyried gan y panel.
- 4.23 Yna, bydd cyflogwyr unigol sydd â diddordeb mewn ymuno â phrosiect partneriaeth yn cael eu cefnogi gan gynigydd y prosiect a'r Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr i wneud hynny. Dim ond cais cryno y mae angen iddynt ei gyflwyno, a hynny i gadarnhau manylion eu cwmni, rhoi trosolwg o'r rheswm dros wella eu gweithlu, yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt (o restr o feysydd hyfforddi a gymeradwywyd ymlaen llaw) ac effaith Brexit a/neu Covid ar eu busnes.
- 4.24 Caiff y grant a'r cyllid eu sianelu'n uniongyrchol drwy'r cyflogwr unigol, nid cynigydd prosiect. Gallant benderfynu pa ddarparwr hyfforddiant i'w ddefnyddio.
- 4.25 Y lefel uchaf ddisgwyliedig o gyllid ar gyfer y ffrwd prosiectau partneriaeth yw £25,000 ar gyfer pob cyflogwr mewn un flwyddyn ariannol. Byddai anghenion sgiliau y tu hwnt i hyn yn cael eu hystyried o fewn y ffrwd datblygu busnes.

#### *Y broses adolygu*

- 4.26 Bydd pob cais llawn yn cael ei asesu'n gyntaf gan aelod o'r Gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr, a fydd yn gweithredu fel y swyddog noddi i gadarnhau bod y cais yn addas i'w ystyried gan y panel. Yna caiff ei gyflwyno i'r panel buddsoddi am argymhellion.
- 4.27 Mae panel buddsoddi'r FSP (a reolir gan y Gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr) yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu ceisiadau a gwneud argymhellion cyllido. Mae'r

---

<sup>37</sup> Ni fu'n ofynnol i'r FSP fynd dros y trothwy o £500,000 hyd yma.

panel yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys Busnes Cymru, timau rhanbarthol a Diwydiant Cymru. Wrth wneud ei benderfyniadau, mae'r panel yn ystyried cyllideb yr FSP a'r elw posibl o fuddsoddiad. Yna bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn cael Llythyr Dyfarnu Grant i'w lofnodi, yn nodi telerau ac amodau llawn y grant.

### **Datblygiadau allweddol**

- 4.28 Mae mân newidiadau i weithrediad a/neu feini prawf yr FSP wedi'u gwneud i sicrhau bod y rhaglen yn addas at y diben ac yn parhau i fod yn gyson â blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, yn dilyn ymarfer i gael adborth gan gwsmeriaid a gynhaliwyd yn ystod 2016 (lle roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan), aethpwyd i'r afael â gwendidau yn y prosesau hawliadau<sup>38</sup>. Mae hyn yn cynnwys ymateb yn gyflym i geisiadau.
- 4.29 Cyflwynwyd hunanasesiad MERIT hefyd yn 2017-18. Gwnaed gwaith mireinio pellach i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac anghenion y rhaglen<sup>39</sup>. Roedd y gwelliannau hyn yn cynnwys cryfhau'r disgwyliadau mewn rhai o feysydd MERIT, megis y cyflog byw go iawn, contractau dim oriau a chynlluniau prentisiaeth. Mae proses MERIT wedi'i mireinio i ofyn am esboniad manwl am unrhyw wendidau a nodir.
- 4.30 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithredu'r rhaglen gyda chostau is o £1.3 miliwn yn 2024/2025 yn sgil toriadau yn y gyllideb ar draws yr is-adran. Yn hynny o beth, efallai y bydd yn ceisio mireinio'r FSP drwy:
- ganolbwyntio'r cymorth ariannol ar brosiectau partneriaeth i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau o fewn sectorau blaenoriaeth penodol
  - gostwng y cap ar geisiadau datblygu busnes i £50,000 a gostwng y cap ar brosiectau partneriaeth i £20,000

---

<sup>38</sup> Cynhaliwyd y broses hawlio yn flaenorol gan dîm arall yn Llywodraeth Cymru. Ymarfer papur oedd hwn a gymerodd amser i'w brosesu. Ers hynny mae'r broses wedi'i chanoli o fewn y gangen Ymgysylltu â Chyflogwyr sydd wedi'i gwneud yn haws i'w rheoli ac yn fwy effeithlon.


<sup>39</sup> Er enghraifft, cyflwynwyd y dull atgyfeirio i hyrwyddwyr anabled Llywodraeth Cymru yn 2022 ac i'r tîm Gwaith Teg yn 2023.

- herio ceisiadau am hyfforddiant sylfaenol lefel-isel
- ystyried cefnogi cyrsiau Arweinyddiaeth a Rheoli dim ond os byddant yn gwella'r cymwysterau sgiliau sector y gwnaed cais amdanynt hefyd.

### **Model Rhesymeg**

4.31 Mae Ffigur 4.1 isod yn cyflwyno model rhesymeg y gellid ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddylunio, darparu a gwerthuso'r FSP yn y dyfodol. Mae'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennaeth gefndirol yr FSP a chanfyddiadau'r gwaith maes. Mae'n nodi mewnbynnau'r FSP (megis lefel y cyllid grant blynyddol), gweithgareddau (megis prosesau hyrwyddo a gwneud cais), allbynnau (megis nifer y cyflogwyr sy'n derbyn cyllid) a chanlyniadau (megis canlyniad i'r busnes ac i weithwyr cyflogedig). Mae hefyd yn nodi'r rhagdybiaethau a wnaed ynghylch y ffordd y byddai'r FSP yn cael ei dylunio a'i darparu, yn ogystal â ffactorau allanol a allai effeithio ar yr FSP.

Ffigur 4.1: Model Rhesymeg y Rhaglen<sup>40</sup>



<sup>40</sup> Mae'r gyllideb flynyddol o £1.5 miliwn yn parhau tan 2023/24. Ceir cyllideb lai ar gyfer 2024/25.

## 5. Canfyddiadau: Sail resymegol a dyluniad yr FSP

- 5.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu barn staff Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd ac aelodau panel yr FSP<sup>41</sup> mewn perthynas â rhesymeg, nodau ac amcanion yr FSP. Mae'n trafod y canfyddiadau o gyfraniad y rhaglen at bolisïau Llywodraeth Cymru, ei chydweddiad â darpariaeth arall ar gyfer busnesau, a'r canfyddiad o'r angen am yr FSP. Mae'r bennod hon yn cynnwys barn ar briodoldeb dyluniad yr FSP gan gynnwys ei ffrydiau a'i helfennau prosiect a'r gyfradd ymyrraeth ariannol gyfredol.

### Nodau ac Amcanion

- 5.2 Disgrifiwyd yr FSP gan y rhai sydd agosaf ati, y staff ac aelodau'r panel a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad hwn, fel rhaglen i gefnogi cwmnïau i uwchsgilio eu staff a mynd i'r afael â phrinder sgiliau.
- 5.3 Yn fwy penodol, amlinellwyd bod y rhaglen yn llenwi bwlch drwy ariannu'n rhannol hyfforddiant arbenigol, technegol neu hyfforddiant i reolwyr na fyddai cwmnïau'n gallu cael mynediad iddynt yn rhywle arall drwy unrhyw ddarpariaeth arall a ariennir yn gyhoeddus neu sy'n cael cymorth cyhoeddus.
- 5.4 Yn rhaglen a oedd yn olynu'r Rhaglen Datblygu'r Gweithlu (RhDG), ystyriwyd i ddechrau bod yr FSP yn rhan hollbwysig o'r pecyn cymhellion ar gyfer mewnfuddsoddiad posibl neu i gefnogi cwmnïau strategol bwysig a sefydlwyd yng Nghymru yr oedd angen iddynt uwchsgilio eu gweithlu presennol ar gyfer prosiect datblygu busnes.

'Roedd yn un offeryn yn yr arfogaeth sydd ar gael yn y maes cyllid cyhoeddus i helpu busnesau i ddatblygu eu sgiliau.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 5.5 Awgrymodd staff Llywodraeth Cymru ac aelodau'r panel fod y rhaglen wedi datblygu, neu 'newid yn dawel' dros y blynyddoedd a mabwysiadu mwy o ffocws, drwy'r ffrwd prosiectau partneriaeth, i gefnogi BBaChau a chyflogwyr mawr yng Nghymru mewn ymdrech i gau bylchau penodol mewn sgiliau sector mewn meysydd fel deallusrwydd artiffisial, sero net a thechnoleg ddigidol.

---

<sup>41</sup> Gweler paragraff 4.27 am esboniad o rôl aelodau panel yr FSP.



'Mae'r rhaglen yn aros yr un fath ac mae gan gwmnïau'r un llwybr at y cyllid o hyd, ond gwneir newidiadau bach, ac mae prosiectau partneriaeth newydd yn ymddangos mewn meysydd sy'n flaenoriaeth. Mae'n eithaf hyblyg yn hynny o beth.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

### **Cyfraniad at flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru**

- 5.6 Teimlai staff Llywodraeth Cymru ac aelodau'r panel fod yr FSP wedi'i seilio'n gadarn ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth sgiliau. Mae buddsoddi mewn sgiliau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae'r FSP yn galluogi cyflogwyr i fanteisio ar hynny. Er na chrybwyllir yr FSP yn benodol yn y Rhaglen Lywodraethu<sup>42</sup>, mae'n ymwneud yn bennaf â gwneud Cymru yn economi ffyniannus, a gwelwyd hefyd ei bod yn cyd-fynd yn dda â'r Genhadaeth Economaidd<sup>43</sup> gan ei bod yn rhaglen y mae gwella cynhyrchiant, cystadleurwydd a thwf busnes yn greiddiol iddi.
- 5.7 Ystyriwyd hefyd bod y rhaglen yn ddull effeithiol o gyflawni yn erbyn blaenoriaethau mwy penodol yn seiliedig ar sectorau. Ystyriwyd ei bod yn rhan annatod o amcanion cyffredinol y Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu. Disgrifiodd y staff hefyd ymdrech ymwybodol a phendant i ddefnyddio'r rhaglen i lywio blaenoriaethau yn y Cynllun Sgiliau Sero Net, ac amlygwyd Airbus fel enghraifft o gwmni a oedd yn hyrwyddo datgarboneiddio o fewn y sector hwnnw. Yn yr un modd, bu ymdrechion i gysoni'r cynnig â pholisïau allweddol perthnasol megis y Cynllun Sgiliau Digidol. Cafodd y dull hwn ei lywio gan arbenigwyr yn y sector a weithiodd gyda'r tîm Sgiliau i nodi bylchau mewn sgiliau er mwyn caniatáu i'r FSP gael ei haddasu a'i mireinio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ymatebol i fylchau mewn sgiliau sectorau.

### **Ychwanegu gwerth at ddarpariaeth arall Llywodraeth Cymru**

- 5.8 Er y disgrifiwyd yr FSP gan staff Llywodraeth Cymru fel ymyrraeth bach o'i gymharu â chyllid arall ar gyfer sgiliau, roedd yr FSP serch hynny yn cael ei hystyried yn ymyrraeth bwysig a oedd yn hyblyg ac wedi'i theilwra i anghenion busnesau.

---

<sup>42</sup> Llywodraeth Cymru (2021), [Rhaglen Lywodraethu - diweddariad](#)

<sup>43</sup> Llywodraeth Cymru (2023), [Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach](#)

Ystyriwyd mai dyma'r unig ddarpariaeth cymorth sgiliau gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei harwain gan y galw sy'n cynnig rhywbeth pendant i gwmnïau a oedd angen elfennau penodol, arbenigol a phwrpasol arnynt o ran eu gofynion hyfforddiant. Roedd hyn yn arbennig o wir am rai sectorau lle y gallai hyfforddiant fod yn arbenigol iawn ac yn ddrud i fusnesau bach, er enghraifft yn y sector awyrofod.

5.9 Ystyriwyd bod yr FSP yn ategu'n dda gynnig ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sgiliau. Roedd cyfres o ddarpariaethau cymorth megis Twf Swyddi Cymru+, Cymunedau am Waith+ a ReAct+ i gyd ar gael, ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ond ni chredwyd bod yr FSP yn darparu'r un cymorth ag a oedd ar gael drwy'r rhaglenni hyn.

5.10 Nid ystyriwyd bod unrhyw orgyffwrdd ychwaith rhwng yr FSP a'r Cyfrifon Dysgu Personol na'r rhaglen Brentisiaethau, ond gallai weithio ochr yn ochr â hynny lle bo angen:

'Mae'r FSP yn ategu rhaglenni eraill, nid oes unrhyw orgyffwrdd. Mae'n annibynnol, mae'n hyblyg, a gall cyflogwyr ddewis eu darparwyr. Mae gan y lleill ddarparwyr penodedig felly maen nhw'n cael cynnig yr un cyrsiau dro ar ôl tro.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

5.11 Tan yn ddiweddar roedd darpariaeth a ariennir gan Ewrop hefyd ar gael drwy sefydliadau AB, ond roedd tîm Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o hyn ac wedi ceisio sicrhau bod y rhaglen yn ategu hynny. Yn hynny o beth, roedd yr FSP yn dod yn fwyfwy pwysig wrth iddi geisio, gyda chyllideb fach, ddarparu pecyn o gymorth hyfforddi i gwmnïau mewn hinsawdd ble mae cymorth yn lleihau mewn mannau eraill.

5.12 Roedd yr FSP hefyd yn cael ei gweld fel mwy na rhaglen gyllido ar gyfer sgiliau yn unig, gan i'r tîm egluro eu bod yn ymgysylltu'n rheolaidd â llawer o'r busnesau a ariannwyd ac yn ymgymryd â rôl rheoli perthnasoedd ehangach. Disgrifiwyd hon fel proses werthfawr, gydag Uwch-reolwyr Cysylltiadau hefyd yn dwyn ynghyd ystod o gymorth ehangach i gwmnïau.

'Mae'n ychwanegu llawer o werth - mae'n eisin ar y gacen gan ei fod yn galluogi busnesau i symud pethau ymlaen ar raddfa fwy ac yn gyflymach nag

y byddent yn ei wneud fel arall. Mae'n llenwi'r bylchau na all darpariaeth safonol, prif ffrwd eu llenwi. Mae'n galluogi busnesau i gomisiynu hyfforddiant wedi'i deilwra. Mae'n gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud ar y tun – mae'n ymwneud â hyblygrwydd.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 5.13 Tynnodd y cyfranwyr sylw hefyd at werth ychwanegol yr FSP i arlwy mewnfuddsoddi a chymorth busnes Llywodraeth Cymru. Lle y cynigiwyd cymorth busnes i gwmnïau drwy grantiau ar gyfer cyfarpar newydd, gallai'r FSP ategu hynny gyda chyllid ar gyfer yr hyfforddiant cysylltiedig. Mae hefyd yn caniatáu i'r adran Sgiliau fod yn rhan o ddull 'Tîm Cymru' lle mae cyllid yr FSP yn cael ei ddefnyddio fel rhan o becyn cymorth ehangach a gynigir i gwmnïau sy'n ystyried mewnfuddsoddi yng Nghymru. Fe'i disgrifiwyd fel rhan unigryw o'r cynnig o Gymru a oedd yn 'bwynt gwerthu da' ac roedd hefyd yn dangos awydd y llywodraeth i ddenu cwmnïau i Gymru a oedd yn gyflogwyr cyfrifol sy'n buddsoddi yn eu gweithlu. Disgrifiodd y tîm Sgiliau sut y mae'n gweithio'n agos gyda thîm mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru. Fel rhan o becyn ehangach ochr yn ochr â chyllid Prentisiaethau, fe'i hystyriwyd yn 'drysor' a oedd yn dangos pwysigrwydd sgiliau a rhoi rhywbeth yn ôl drwy gyd-fuddsoddi:

'Mae'n ddefnyddiol - gallwch chi farnu'n eithaf da p'un a oes gan gwmni weledigaeth tymor byr os nad yw'n malio bod y cynnig hwn ar gael. Nid ydynt yn gwmnïau arbennig o werthfawr i'w cael' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 5.14 Soniodd un neu ddau o'r cyfranwyr nad yw'r 'foronen' hon bob amser yn cael ei defnyddio gan y cwmnïau mewnfuddsoddi ar ôl iddynt symud i Gymru, felly gall fod yn gymhelliant arbennig o ddefnyddiol nad oes baich mawr o ran cost yn gysylltiedig ag ef. Mae hyn yn dangos bod negeseuon ynghylch y cymorth yr un mor bwysig â'r cynnig ariannol sydd ynghlwm wrtho

'I rai cwmnïau mewnfuddsoddi, mae'r FSP wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn eu denu i Gymru hyd yn oed os nad ydynt yn defnyddio'r rhaglen yn y pen draw. Mae'n rhaglen bwysig i Gymru yn yr ystyr hwnnw. Cafwyd rhai contractau ar y sail honno.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

5.15 Disgrifiodd un cyfrannwr sut y mae'r FSP hefyd wedi cael ei defnyddio yn y gorffennol pan mae nifer o gwmnïau e.e. y clwstwr lled-ddargludyddion, wedi gwneud cais am gyllid o raglenni'r DU. Gall yr FSP fod yn ddefnyddiol i ysgogi cwmnïau i fanteisio ar gyllid ymchwil. Soniodd cyfrannwr arall am weithgarwch cydweithredol peilot gyda grŵp o fusnesau peirianeg â gweithlu sy'n heneiddio, lle yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ar gynllun cydweithredol posibl ar hyfforddiant ac olyniaeth. Y bwriad oedd defnyddio'r coleg lleol i fynd i'r afael â rhai o'r gofynion, er enghraifft drwy brentisiaethau, ond i ddefnyddio'r FSP i fynd i'r afael â bylchau eraill.

### **Yr angen am yr FSP**

- 5.16 Canfuwyd bod holl gyfranwyr Llywodraeth Cymru yn gweld yr angen am yr FSP. Cynhelir adolygiad blynyddol o'r math o hyfforddiant a gefnogir i benderfynu a yw'r pynciau a gwmpesir yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas at y diben, a chaiff y cynnig ei ddiwygio yn unol â hynny. Er enghraifft, yn y blynyddoedd diwethaf, roedd cwmnïau'n gofyn fwyfwy am hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli i gefnogi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio neu dechnoleg newydd, a chyflwynwyd hynny o ganlyniad.
- 5.17 Disgrifiodd sawl aelod o'r tîm Sgiliau yr FSP fel pecyn cymorth 'wrth gefn', gydag awydd i sicrhau ei fod yn cefnogi'n bennaf y rhai nad oedd ganddynt yr adnoddau, neu'r rhai a allai wneud mwy o'r hyn yr oeddent ei eisiau gyda hwb ariannol gan yr FSP.
- 5.18 Amlygodd rhai cyfranwyr hefyd sut yr oedd yr FSP yn ymateb i anghenion busnesau heddiw ac awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi'r gorau i'r cymorth buddsoddi cyfalaf traddodiadol a ddarperir yn nodweddiadol i fusnesau wrth i'r economi symud fwyfwy tuag at y sectorau gwasanaeth a phroffesiynol.
- 5.19 Dadleuodd un cyfrannwr y dylai Llywodraeth Cymru newid ei ffocws, gan fuddsoddi mwy o arian mewn sgiliau ac addysg i alluogi cwmnïau i fuddsoddi yn eu gweithlu yn hytrach na'r ffocws traddodiadol ar fuddsoddiad cyfalaf. Awgrymwyd y gallai cyllid ychwanegol ar gyfer cymorth FSP fod ar gael wedyn drwy newid polisi ar flaenoriaethau:

'Mae angen symud arian cyhoeddus o gymorth cyfalaf i gymorth refeniw er mwyn diwallu anghenion. Mae'n ymwneud â meddwl mwy am helpu busnesau i fuddsoddi yn eu pobl – a'u prif ased nawr yw pobl nid pethau.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

5.20 Tynnodd rhai cyfranwyr sylw at anghenion rhai sectorau a gefnogir gan yr FSP:

- mae'r angen yn y sector **Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianneg** bob amser wedi bod yn gryf ac roedd yn cynyddu. Mae'n sector craidd yng Nghymru sydd wedi cael ei gefnogi ers blynyddoedd. Roedd uwchsgilio a chamu ymlaen mewn swydd yn bwysig iawn yn y sector hwn, a oedd yn aml â gweithlu a oedd yn heneiddio
- Ystyriwyd bod y maes **Digidol** yn bwysig ac yn esblygu. Er syndod, roedd yr angen am sgiliau Digidol wedi arafu ychydig, ac roedd hyn o bosibl oherwydd bod y pynciau a gwmpesir gan yr FSP yn canolbwyntio ar ddatblygu meddalwedd, ond gallai fod angen ystyried dull mwy trawsbynciol yn y dyfodol neu ganolbwyntio mwy ar ddeallusrwydd artiffisial a seiberddiogelwch. Roedd yn bwysig bod y ffocws hwn yn parhau, er mwyn uwchsgilio unigolion sy'n cael eu recriwtio yng Nghymru yn hytrach na gweld cwmnïau'n chwilio am sgiliau o'r tu allan
- roedd yr agenda sgiliau **Sero Net** yn ffocws mawr ym mholisiau Llywodraeth Cymru a byddai hyn yn sicr o gynyddu dros y blynyddoedd i ddod
- nodwyd yr angen am gymorth **Allforio** fel ymateb pwysig ar ôl Brexit, ond roedd y nifer a oedd yn manteisio arno yn lleihau ac roedd yn werth ystyried a oedd angen parhau ag ef fel sector penodol
- mae'r **Sector creadigol** yn bwysig yng Nghymru ac er bod nifer y busnesau a gefnogwyd o fewn y maes hwn yn fach, ystyriwyd ei fod yn gymorth hanfodol i'r rhai a oedd yn ymgeisio am fuddsoddiad drwy'r FSP
- bu galw mawr am yr FSP er mwyn darparu cymorth i'r sector **Twristiaeth a Lletygarwch** ar ôl y pandemig Covid, ond eto roedd angen ailystyried anghenion y sector yn y dyfodol, o ystyried y ffocws cynyddol ar hyfforddiant ar gyfer twf y sector.

- 5.21 Ailbwysleisiodd cyfranwyr Llywodraeth Cymru bwysigrwydd cefnogi busnesau sy'n strategol bwysig (gan gynnwys cwmnïau angori a chwmnïau o bwys rhanbarthol) ledled Cymru a defnyddio'r FSP fel dull i alluogi Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth â nhw ac ysgogi twf a datblygiad economaidd. Credwyd bod yr angen gan y cwmnïau mwy hyn 'wedi bod yno ers y cychwyn cyntaf'. Mewn rhai achosion, awgrymodd ambell gyfranwyr fod rhai o'r cwmnïau hyn yn teimlo bod ganddynt 'hawl' i gael cymorth, ond i eraill roedd cymorth yr FSP wedi eu galluogi i ehangu.
- 5.22 Tra'n cydnabod yr angen i barhau i gefnogi busnesau strategol, byddai'r cyfranwyr yn croesawu gwell cydbwysedd o ran y dyraniad cyllidebol ar gyfer busnesau mawr a bach, er y gallai hyn gynyddu'r baich gweinyddol ar y rhaglen. Roedd nodi'r sgiliau sy'n flaenoriaeth i fuddsoddi ynddynt wedi bod yn ffordd effeithiol o reoli'r galw fel bod modd i'r tîm bach o fewn Llywodraeth Cymru reoli'r ffrwd prosiectau partneriaeth.

'Wrth i'r rhaglen esblygu, rhoddodd yr FSP gynnig pendant i bob cwmni. Mae wedi helpu busnesau ar ddau ben y sbectrwm – nid dim ond cwmnïau mawr . Rhoddodd inni ddull mwy moesol a chyflawn o ddenu pobl i Gymru yn lle cynnig moronen. Mae'n ymwneud â bod yn synhwyrol.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

### **Dyluniad yr FSP**

- 5.23 Dywedodd y cyfranwyr fod yr FSP yn rhaglen sefydledig sydd wedi'i dylunio'n dda. Roedd y prif gryfderau a nodwyd fel a ganlyn:
- mae'n cael ei darparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru felly mae gan y tîm FSP, o ganlyniad i'w hymgysylltiad uniongyrchol â chyflogwyr, well dealltwriaeth o'u gofynion hyfforddi na phan ddyrennir cyllid i ddarparwyr allanol megis sefydliadau addysg bellach
  - mabwysiadwyd blaenoriaethau priodol ar gyfer sectorau sy'n rhoi eglurder ynghylch yr hyn y gellir ei ariannu ond sydd eto'n ddigon eang i ddiwallu anghenion y mwyafrif helaeth o fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o awgrym bod blaenoriaethau'r sector yn rhy eang:

'y pwynt allweddol yma yw bod sectorau'r FSP yn nodweddiadol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n ddigon eang fel y gallech chi gyflwyno'r achos dros gynnwys unrhyw fusnes mewn gwirionedd. Mae sectorau'n eithaf pragmataidd, ond yn rhy eang o bosibl' [Aelod o'r panel/staff Llywodraeth Cymru]

- mae blaenoriaethau'r sectorau yn cyd-fynd yn dda â ffocws sectoraidd gwaith rheolwyr cysylltiadau rhanbarthol
- mae cael dwy ffrwd ariannu wahanol yn galluogi'r rhaglen i gefnogi ystod ehangach o fusnesau. Mae'r ffrwd Prosiectau Partneriaeth wedi dod yn fwyfwy poblogaidd dros amser, gyda chwmnïau llai yn gwneud defnydd cynyddol o'r cymorth, yn aml am symiau bach o gyllid
- caiff y rhaglen ei harwain gan gyflogwyr ac mae'n esblygu'n gyson drwy adolygiadau a chyfathrebu rheolaidd â chynrychiolwyr diwydiant:

'caiff esblygiad yr FSP ei reoli'n llwyr gan y diwydiant yn dweud wrthym beth sydd ei angen arno. Rydym yn mynd i'r afael â'r sgiliau sydd eu hangen y funud yma' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- ceir cyfathrebu cynnar da gyda darpar ymgeiswyr sy'n golygu bod gan gwmnïau ddealltwriaeth dda o'r FSP o'r cychwyn cyntaf ac mae ffurflenni cais yn gofyn am gyllid ar gyfer hyfforddiant cymwys yn bennaf
- mae'n ymddangos bod y cap o £25,000 ar gyfer prosiectau partneriaeth yn briodol ac yn ddigonol ar y cyfan i ddiwallu anghenion pob cwmni, gan gynnwys cyflogwyr mwy
- gwneir pob ymdrech i sicrhau mai dim ond fel ffynhonnell olaf o gyllid y caiff cyllid yr FSP ei ddefnyddio ar ôl i ffynonellau cyllido posibl eraill gael eu disbyddu
- y cyflogwyr sy'n gyfrifol am ddod o hyd i'w darparwr hyfforddiant ac mae hynny'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ddewis y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt ac (oherwydd bod angen darparu arian cyfatebol) y byddant yn dod o hyd i ddarpariaeth am bris cystadleuol

- mae'n ddefnyddiol bod meini prawf cymhwysra yr FSP yn caniatáu ar gyfer cyllido hyfforddiant sydd ond ar gael yn uniongyrchol gan weithgynhyrchwyr .

### *Arweinyddiaeth a rheoli*

- 5.24 Yr unig agwedd ar ddyluniad y rhaglen ble y mynegodd staff Llywodraeth Cymru ac aelodau o banel yr FSP wahaniaeth barn oedd ariannu cyrsiau arweinyddiaeth a rheoli.
- 5.25 Roedd rhai o staff Llywodraeth Cymru ac aelodau o'r panel o'r farn bod rôl yr FSP yn y maes hwn yn bwysig iawn, yn enwedig ers y pandemig COVID-19. Dywedodd rhai swyddogion tîm FSP eu bod wedi gweld gweithwyr yn cael dyrchafiad, yn aml oherwydd bod staff hŷn, uwch wedi rhoi'r gorau i'r swydd, ond nad oedd ganddynt yr hyfforddiant i reoli timau'n effeithiol.
- 5.26 Awgrymodd cyfranwyr eraill mai colegau AB a sefydliadau AU, yn hytrach na'r FSP, a ddylai fod yn arwain y gwaith o gyflwyno hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli, yn anad dim oherwydd y gallent gynnig darpariaeth ehangach. Yn y cyfamser, fodd bynnag, roedd yr FSP yn llenwi bwlch ar gyfer hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli wedi'i deilwra na allai busnesau ddod o hyd iddo yn unman arall. Er enghraifft, nododd rhai cyfranwyr fod yr FSP, mewn rhai achosion, wedi cefnogi cyrsiau arweinyddiaeth a rheoli mwy cyffredinol megis y rhai ar sgiliau cyflwyno neu iechyd meddwl, y dylai cyflogwyr fod wedi'u hariannu eu hunain efallai. Awgrymodd eraill y dylai unrhyw gyrsiau datblygu arweinwyr a rheolwyr a ariennir drwy'r FSP gael eu cysylltu â datblygiadau technegol penodol megis cyflwyno meddalwedd newydd o fewn cwmni:

‘Dylai fod rhywfaint o gysylltiad rhwng yr hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli a'r cynnig sgiliau – os bydd yn rhy agored, byddwn yn dod yn rhaglen cyllido hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli’ [Staff/aelod o banel Llywodraeth Cymru]

### *Cyfradd ymyrraeth o 50 y cant*

- 5.27 Roedd yr holl staff ac aelodau'r panel a gyfwelwyd o'r farn bod y gyfradd ymyrraeth o 50 y cant yn briodol ac ystyriwyd bod hynny'n un o gryfderau eraill yr FSP. Dywedwyd bod y gyfradd ymyrraeth hon wedi galluogi tîm yr FSP i wneud y gorau o gyllideb gyfyngedig a darparu gwell gwerth am arian.



5.28 Roedd barn gref hefyd y dylai cyflogwyr wneud cyfraniad ariannol cyfartal a hynny'n bennaf oherwydd y byddai gormod o geisiadau am y gronfa fel arall yn ogystal â'r ffaith bod hynny'n cyd-fynd â'r fframwaith a osodwyd gan y Gweinidog ar gyfer cymorth datblygu economaidd yng Nghymru. Roedd awydd hefyd i weld cyflogwyr yn ymrwmo i flaenoriaethau gwaith teg a buddsoddi yn eu staff, felly credwyd bod dull buddsoddi ar y cyd yr FSP yn creu mwy o berchnogaeth gan gyflogwyr.

'Roedd y rhan fwyaf ohonom yn teimlo na fyddai'n cael ei werthfawrogi cymaint pe bai'n rhad ac am ddim. Mae 50 y cant yn fargen dda oherwydd nid oes gan yr FSP gronfa enfawr, felly mae'r arian yn mynd ddwywaith mor bell... Mae'n rhaid i gyflogwyr roi eu dwylo yn eu pocedi... Mae'n bwysig cadw hynny fel y mae' [Staff Llywodraeth Cymru /aelod o'r panel]

*Cyfradd gorglustnodi o 20 y cant*

5.29 Mae'r FSP yn gweithredu ar y sail bod 20 y cant o'r cyllid yn cael ei orglustnodi. Roedd y staff ac aelodau'r panel a gyfwelwyd o'r farn bod hon yn nodwedd unigryw o unrhyw raglen gyllido gan Lywodraeth Cymru.

5.30 Cyflwynwyd y cysyniad o orglustnodi gan fod busnesau a gefnogwyd drwy raglenni blaenorol, megis y RhDG, yn tueddu i beidio â gwario'r symiau a ddyrannwyd iddynt. Mae gorglustnodi'r gyllideb yn flynyddol yn lleihau'r tanwariant ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac yn galluogi'r tîm i barhau i dderbyn ceisiadau yn hwyr yn y flwyddyn.

'Mae'n gweithio'n dda. Mae'n effeithiol yn fy marn i. Rydym yn gwybod nad oes unrhyw sicrwydd y bydd cyflogwyr yn defnyddio'r arian ac mae'n debyg y gallem orglustnodi 30-40 y cant ond mae 20 y cant yn ddiogel.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

## 6. Canfyddiadau: Gweinyddu a gweithredu'r FSP

6.1 Mae'r bennod hon yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd drwy'r gwaith maes a gasglwyd o arolygon o gyflogwyr a gweithwyr, ymweliadau astudiaeth achos â chwmnïau a ariennir gan yr FSP a chyfweliadau â staff Llywodraeth Cymru, aelodau'r panel a darparwyr hyfforddiant. Mae'n ymdrin â hyrwyddo a marchnata'r rhaglen, y prosesau gweinyddol, cymeradwyo a hawliadau sy'n gysylltiedig â cheisiadau i'r FSP a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### Hyrwyddo'r FSP

6.2 Dywedodd tua dwy ran o dair o'r cyflogwyr (18 o blith 26) a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi clywed am yr FSP am y tro cyntaf drwy berthynas a oedd yn bodoli eisoes â pherson cyswllt yn Llywodraeth Cymru.<sup>44</sup> Roedd ychydig yn llai na chwarter (chwech) wedi clywed am y rhaglen gan gydweithwyr neu staff yn eu busnes a dim ond ambell gyflogwr a oedd wedi clywed amdani gan fusnesau eraill (tri) neu drwy rwydweithio neu mewn digwyddiadau eraill (dau).

**Tabl 6.1: Sut y daeth cyflogwyr i glywed am yr FSP am y tro cyntaf**

Ymateb	Nifer
Drwy berthynas sy'n bodoli eisoes â chyswllt yn Llywodraeth Cymru	18
Gan gydweithwyr neu staff o fewn eich busnes	6
Gan fusnesau eraill	3
Rhwydweithio neu ddigwyddiadau eraill	2
O chwiliadau ar y rhyngrwyd	1
O ddogfennau hyrwyddo	0
Arall	0
Ddim yn gwybod	0

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 26 o ymatebwyr. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

6.3 Er nad oedd ychydig dros hanner (14) yr ymatebwyr wedi ymchwilio i unrhyw opsiynau eraill ar wahân i'r FSP i gefnogi cost yr hyfforddiant, roedd dros draean (naw) wedi ystyried opsiynau eraill megis Cyfrifon Dysgu Personol, hunangyllido, y Rhaglen Cyflymu Twf, a chyrtsiau a ariennir drwy gyrff diwydiant. Eglurodd y

<sup>44</sup> Er enghraifft, uwch-reolwr cysylltiadau Ymgysylltu â Chyflogwyr neu drwy gysylltiadau eraill o fewn Llywodraeth Cymru o'r tîm Busnes a Rhanbarthau, tîm Arloesi neu dimau sector penodol fel Cymru Greadigol.

cyflogwyr hyn eu bod wedi dewis yr FSP yn bennaf oherwydd mai dyma'r model cyllido gorau i ddiwallu eu hanghenion; ystyriwyd bod y model yn hyblyg ac yn eu galluogi i ddarparu mwy o hyfforddiant a oedd yn ymwneud yn benodol â diwydiant a hyfforddiant mwy cynhwysfawr neu amserol.

- 6.4 Rhoddodd staff Llywodraeth Cymru ac aelodau'r panel eu barn ar y ffordd y cafodd yr FSP ei hyrwyddo a'i marchnata hefyd. Disgrifiwyd sut yr oedd yr FSP wedi datblygu o raglenni blaenorol megis Rhaglen Datblygu'r Gweithlu (RhDG) a Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli (ELMS) a hysbysebwyd yn helaeth gan fod ganddynt gyllidebau mwy oherwydd cyllid yr UE. Pan gyflwynwyd yr FSP, fe'i hystyriwyd yn 'rhaglen pan fetho popeth arall' gyda chyllideb fach. Disgrifiodd staff Llywodraeth Cymru sut yr oedd elfen o gyfrinachedd iddi, gan nad oeddent am i ormod o bobl ddod i wybod bod y cyllid ar gael neu byddai'r galw yn llawer mwy na chapasiti'r gronfa.
- 6.5 Mae'r FSP wedi'i marchnata'n well ers cyflwyno'r ffrwd Prosiectau Partneriaeth a lleihau'r ffocws ar y ffrwd Datblygu Busnes ers 2017/18. Mae gwybodaeth am yr FSP ar gael yn rhwydd ar dudalennau Busnes Cymru a Cymru'n Gweithio ar wefan Llywodraeth Cymru ac mewn llyfryn a gynhyrchwyd gan yr Is-adran Sgiliau sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael i fusnesau. O ganlyniad, mae'r tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr wedi derbyn mwy o Ddatganiadau o Ddiddordeb dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan fusnesau nad ydynt wedi gweithio gyda nhw o'r blaen. Er nad yw'r FSP yn cael ei hysbysebu mor eang â rhaglenni eraill fel Twf Swyddi Cymru +, roedd y cyfranwyr yn fodlon ei bod yn hawdd dod o hyd iddi o roi'r enw mewn peiriant chwilio.
- 6.6 Dywedodd staff Llywodraeth Cymru ac aelodau'r panel hefyd fod fforymau diwydiant amrywiol yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r gronfa i'w haelodau – yn enwedig fforymau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannu modurol, awyrofod a thechnoleg. Awgrymodd rhai aelodau o staff efallai nad oedd yr FSP yn cael ei hyrwyddo mor eang i'r sectorau Creadigol, Allforio a Thwristiaeth a Lletygarwch.
- 6.7 Disgrifiodd y cyfranwyr sut y mae rheolwyr cysylltiadau Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r FSP i fusnesau y maent yn rheolwyr cyfrifon arnynt. Mae rheolwyr cysylltiadau yn delio â busnesau strategol rhanbarthol

sy'n dangos potensial ar gyfer twf. Mae eu rôl yn cynnwys cynnal asesiad diagnostig o'r busnes yn ystod cyfarfod cychwynnol i ddeall uchelgeisiau'r busnes yn well a'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt i gyflawni'r rhain. Mae trafodaeth am ddatblygiad a hyfforddiant staff yn rhan o'r asesiad diagnostig cychwynnol hwn a phe bai'r FSP yn cael ei nodi fel ymyriad posibl, bydd Rheolwyr Cysylltiadau yn cyfeirio'r busnes hwnnw at dîm yr FSP.

'Mae rheolwyr rhanbarthol yn gwneud eu gorau i drosglwyddo busnesau gyda gofal i dîm yr FSP – yr hyn yr ydym yn ei alw'n atgyfeiriad cymwys, fel bod ganddynt syniad da o gefndir ac anghenion y busnes.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

6.8 Er nad yw Llywodraeth Cymru yn annog darparwyr hyfforddiant i hyrwyddo'r FSP, roedd y gwaith maes gyda darparwyr hyfforddiant yn awgrymu bod rhai ohonynt yn gwybod am y rhaglen a'u bod yn cyfeirio cwmnïau fwyfwy ati. Dywedodd dau o'r darparwyr hyfforddiant sydd â dealltwriaeth a gwerthfawrogiad da o'r FSP hefyd eu bod wedi cyfeirio rhai cwmnïau y maent yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer yn rheolaidd at gyfle ariannu'r FSP. Roedd y darparwyr hyfforddiant hyn wedi synnu cyn lleied o'u cleientiaid sy'n defnyddio'r FSP er y gwerthfawrogiad y gallai hyn fod oherwydd nad oedd cyflogwyr wedi rhoi gwybod iddynt am y rhaglen. Yn y sector creadigol, awgrymwyd oherwydd bod y rhan fwyaf o gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru yn gwmnïau annibynnol cymharol fach gyda dim ond dau neu dri aelod o staff craidd a'u bod yn defnyddio gweithwyr llawrydd, efallai na fyddai'r FSP yn addas ar eu cyfer.

6.9 Mae'r FSP yn derbyn nifer o geisiadau ailadroddus neu olynol am gyllid gan rai busnesau i'w cefnogi i ddarparu hyfforddiant. Mae'r angen am y cyllid yn sylweddol ar y cyfan, ac roedd cyfuniad o gynnydd mewn diddordeb a busnes ailadroddus yn golygu bod yr FSP yn cyrraedd ei chapasiti erbyn hyn.

'Ni allwn ymdopi â marchnata'r rhaglen yn fwy neu byddai'r gyllideb wedi diflannu. Mae'n well ei bod yn eistedd yno'n dawel. Rydym yn gweld llawer o gwmnïau mwy newydd yn cyflwyno ceisiadau ac rydym wedi cael yr un cwmnïau yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

6.10 Cynigiwyd nifer o awgrymiadau gan staff Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd er mwyn ceisio atal y galw am y gronfa yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys mabwysiadu:

- meini prawf cyllido llymach
- naratif mewnol cliriach i sicrhau nad yw Rheolwyr cysylltiadau o'r timau Busnes a Rhanbarthau yn gorgyfeirio busnesau i'r gronfa
- mwy o eglurder o ran y wybodaeth a ddarperir am yr FSP ar dudalennau'r wefan fel bod llai o Ddatganiadau o Ddiddordeb anaddas yn cael eu cyflwyno.

### Y broses ymgeisio a hawlio

6.11 Roedd y cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg yn gadarnhaol ynghylch eu hymgysylltiad cyffredinol â'r FSP, gyda dros dri chwarter (20) yn dweud ei bod yn hawdd iawn (11) neu'n weddol hawdd (naw) cymryd rhan yn yr FSP.

**Tabl 6.2: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i gyflogwyr gymryd rhan yn yr FSP**

Ymateb	Nifer
Hawdd iawn	11
Yn weddol hawdd	9
Ddim yn hawdd nac yn anodd	3
Yn weddol anodd	2
Anodd iawn	0
Ddim yn gwybod	1
Cyfanswm	26

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 26 o ymatebwyr


6.12 Yr hyn yr oedd cyflogwyr yn fwyaf cadarnhaol yn ei gylch oedd y cyngor a'r arweiniad a gafwyd yn ystod y broses ymgeisio, gyda phawb ond un cyflogwr yn fodlon iawn (16) neu'n weddol fodlon (naw), fel y dangosir yn Ffigur 6.1. Roedd y mwyafrif hefyd yn fodlon â'r broses ymgeisio (13 yn fodlon iawn, naw yn weddol fodlon); y gofynion gweinyddol a gwaith papur (12 yn fodlon iawn, wyth yn weddol fodlon); amseroldeb (13 yn fodlon iawn, wyth yn weddol fodlon); a'r broses hawliadau/adrodd (11 yn fodlon iawn, naw yn weddol fodlon). Esboniodd y cyflogwyr eu bod wedi canfod bod eu prif gyswllt a gyfer yr FSP yn Llywodraeth Cymru yn barod iawn ei gymorth ac yn ymatebol iawn.

6.13 Roedd ambell gyflogwr, (dim mwy na dau ym mhob achos), yn anfodlon â'r trefniadau gweinyddol, amseroldeb, a'r prosesau hawliadau/adrodd yn gysylltiedig â'r FSP. Esboniodd ambell gyflogwr pam yr oeddent yn anfodlon ar elfennau o'r broses:

'Mae llawer o waith papur i'w gwblhau. A nifer o gamau. Roedd yn rhaid i mi fynd ar ôl y cais cyn iddo gael ei gymeradwyo.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

'Nid yw'r ffurflen hawlio yn hawdd ei defnyddio, mae'n ddryslyd iawn i'w chwblhau oherwydd y y fformat. Mae angen gwella hyn.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

**Ffigur 6.1: Boddhad cyflogwyr gydag agweddau gweinyddol ar yr FSP**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 26 o ymatebwyr

6.14 Mynegwyd barn debyg gan gyflogwyr a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos. Ystyriwyd bod y broses ymgeisio yn syml, yn hunanesboniadol, yn glir ac yn dderbyniol, a bod yr arweiniad yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol. Teimlai un neu ddau o'r cyflogwyr a gyfwelwyd fod y dogfennau Word ac Excel a ddefnyddiwyd ar gyfer y ceisiadau ychydig yn 'drwsgwl' a'u bod wedi disgwyl system

fwy awtomataidd a rhyngweithiol. Dywedodd y rhan fwyaf o gyflogwyr yr astudiaethau achos a gyfwelwyd nad oedd angen llawer o gymorth arnynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses ymgeisio ond eu bod yn gwybod at bwy i droi pe bai angen. Yn gyffredinol, disgrifiwyd y meini prawf cymhwysra a'r gyfradd ymyrraeth o 50 y cant hefyd gan gyflogwyr a gyfwelwyd fel rhai priodol.

- 6.15 Teimlai'r rhan fwyaf o gyflogwyr yr astudiaethau achos fod hunanasesiad MERIT a'r Cynllun Datblygu Sgiliau, er eu bod yn ymddangos yn heriol i ddechrau, yn hawdd eu cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf yn teimlo bod cynlluniau MERIT wedi arwain at unrhyw newid gwirioneddol yn eu dull gweithredu. Dywedodd un y gallai fod ychydig yn anneniadol i ymgeiswyr newydd i'r FSP a dywedodd un arall ei fod yn teimlo fel pe baent yn 'ei wneud er mwyn ei wneud'.
- 6.16 O ran y broses hawliadau, unwaith eto dywedodd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr a gyfwelwyd ei bod yn syml ac roeddent yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a ganiatawyd gan Lywodraeth Cymru wrth ymateb i newidiadau. Roedd ambell gwmni a gyfwelwyd a oedd yn newydd i'r FSP o'r farn bod y broses hawliadau yn dipyn o straen ac yn rhwystredig i ddechrau, yn enwedig y gofyniad i ddangos prawf o bresenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ond ers hynny roeddent wedi rhoi prosesau mewnol ar waith i ymdrin â hyn.
- 6.17 Teimlai tri o gyflogwyr yr astudiaethau achos y byddai amserlen hwy i gwblhau'r hyfforddiant arfaethedig yn cael ei chroesawu, yn enwedig pe bai'n ystyried blynyddoedd cyfrifyddu cwmnïau yn hytrach na blwyddyn ariannol Ebrill-Mawrth Llywodraeth Cymru. Awgrymodd tri chwmni arall y byddai cyfnod cyflawni hwy er mwyn trefnu a chynnal hyfforddiant a oedd yn pontio blynyddoedd ariannol neu'n gweithio ar sail cyfnod amser tair blynedd i ganiatáu ar gyfer llithriant ac i adlewyrchu realiti'r pwysau o ddydd i ddydd yn welliant i'w groesawu. Cododd darparwyr hyfforddiant faterion tebyg hefyd ac awgrymwyd, oherwydd bod yr FSP yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth, nad oedd y cyllid ar gael yn aml tan fis Mehefin neu'n hwyrach a oedd yn golygu ei bod yn rhy hwyr i rai cwmnïau gael gafael ar eu dyraniad a'i wario o fewn y flwyddyn.
- 6.18 Rhoddodd staff Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eu barn ar brosesau gweinyddu'r FSP hefyd. Disgrifiodd rhai o'r unigolion hyn, a fu'n gweithio ar yr FSP

ers ei sefydlu, sut yr oedd y rhaglen wedi mabwysiadu'r un broses weinyddol ganolog â'i rhagflaenwyr i ddechrau a'i bod wedi mabwysiadu protocolau manwl iawn a gefnogwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Dros amser, daeth y tîm Sgiliau yn ymwybodol bod y prosesau gweinyddol yn rhy araf ar gyfer cronfa mor fach. Aethpwyd ati i adolygu'r dull gweithredu, symleiddio'r ffurflen gais a throsglwyddo'r trefniadau gweinyddol i'r tîm Sgiliau. Cyflwynwyd y ffurflenni MERIT a Chynllun Datblygu Sgiliau hefyd ar yr adeg hon i atgyfnerthu'r amcan polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o weithio gyda chyflogwyr cyfrifol. Roedd y sylwadau am y ffurflen gais a'r broses gyfredol bob amser yn gadarnhaol gan staff a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru:

'Mae'n ddarbodus, mae'n gofyn y cwestiynau cywir, sy'n wych'

'Nid yw'r broses ymgeisio yn feichus i gyflogwyr. Nid yw'n debyg i Lyfr Du yr ESF!'

'Mae'r ffurflen gais yn syml iawn. Dylai cyflogwr allu ei chwblhau mewn awr'  
[Pob cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

- 6.19 Dywedodd y cyfranwyr o Lywodraeth Cymru fod y dull gweithredu ar gyfer ceisiadau Datblygu Busnes, er efallai'n yn 'hen ffasiwn' yn yr ystyr bod cyswllt personol rhwng y cwmni a'r Rheolwr Cysylltiadau, yn golygu bod trafodaeth ymlaen llaw i sicrhau bod y busnes yn deall y rhaglen a bod cyfrifoldeb ar y Rheolwr Cysylltiadau i sicrhau bod y cais yn cael ei gyflwyno.

'Pe bawn i'n cyflwyno un, roeddwn i'n gwybod bod yr hyfforddiant o ansawdd da, roedden nhw'n cefnogi amcanion MERIT ac yn gwneud synnwyr. Fy nghyfrifoldeb i oedd ei werthu a'i amddiffyn wrth symud ymlaen.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 6.20 Nid yw hyn yn wir o reidrwydd gyda cheisiadau prosiectau partneriaeth yn ôl staff Llywodraeth Cymru. Er bod rhai o'r ymgeiswyr hyn yn deillio o berthynas sy'n bodoli eisoes sydd wedi datblygu rhwng y cwmni a'r rheolwr cysylltiadau sgiliau neu bartner rhanddeiliaid, mae llawer yn deillio'n uniongyrchol o'r wefan lle mae 'dolen i Ddatganiad o Ddiddordeb ac maen nhw'n ticio ychydig o flychau. Mae hwn wedyn yn mynd i'n blwch negeseuon e-bost a rennir'. O ganlyniad i hynny, dywedodd un o



gyfranwyr Llywodraeth Cymru nad yw bob amser yn glir pa elfen y mae'r cais yn berthnasol iddo, neu bydd cwmni'n ticio'r holl flychau, sy'n golygu bod angen sgwrs gyflym i egluro sut y mae'r FSP yn gweithio.

'Mae'n fodel da ond mae'r rhan fwyaf o geisiadau'n dod drwy'r ddolen

Datganiadau o Ddiddordeb o'r wefan nawr ac nid ydynt bob amser yn glir.

Maent yn gwmnïau llai sy'n gwneud ceisiadau am lai o arian. Nid oes gennym berthynas gyda'r cwmni felly rydym yn delio â nhw o bell.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 6.21 Un ateb posibl a awgrymwyd gan staff Llywodraeth Cymru fyddai i'r tîm Sgiliau newid i ddull mwy rhanbarthol o ymdrin â cheisiadau yn hytrach na'r un sy'n seiliedig ar sectorau sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y byddai hyn yn galluogi staff i ddatblygu partneriaethau cryfach yn eu rhanbarth. Fodd bynnag, er mwyn newid i fodel gweithio rhanbarthol byddai angen ystyried bod yr FSP yn derbyn dros hanner ei geisiadau o'r de-ddwyrain.
- 6.22 Roedd staff Llywodraeth Cymru o'r farn bod y llwyth gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r FSP yn rhesymol. Mae staff Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn ddefnyddiol cael cam Datgan Diddordeb gan fod hyn yn hidlo unrhyw ymgeiswyr anghymwys. Ystyriwyd hefyd ei bod yn ddefnyddiol bod y ffurflen gais ond ar gael i ymgeiswyr y bu eu Datganiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu na chaiff fawr ddim ceisiadau eu gwrthod.

### **Y broses dyfarnu cyllid**

- 6.23 O ganlyniad i'r broses ymgeisio symlach, teimlai aelodau'r panel dyfarnu nad oedd eu gwaith craffu ar geisiadau a dyfarnu cyllid yn feichus a bod hynny'n eu galluogi i wneud penderfyniadau'n gyflym. Mae gan y tîm Sgiliau awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ceisiadau hyd at £0.5 miliwn sy'n helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym, ac yna mae'r Gweinidog perthnasol yn cymeradwyo symiau mwy.
- 6.24 Mae'r panel yn cyfarfod yn rhithwir, gyda cheisiadau'n cael eu rhannu drwy e-bost ymlaen llaw er mwyn i aelodau'r panel allu rhoi sylwadau neu godi cwestiynau. Disgrifiodd aelodau'r panel eu bod bob amser yn adolygu pob cais ac yn gwirio a

oes unrhyw gyllid arall ar gael sy'n fwy addas a phriodol. Disgrifiwyd y broses gymeradwyo fel un sefydledig ac effeithlon.

'Mae tîm yr FSP yn gwneud eu gwaith yn dda iawn sy'n golygu bod y Panel yn derbyn ceisiadau priodol sydd o ansawdd da i'w hystyried. Mae'r FSP yn gwneud gwaith da o wrthod unrhyw achosion amhriodol yn gynnar. Pan ddarllenwch y cais gallwch weld yn gyffredinol pam mae angen y buddsoddiad arnynt' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

- 6.25 Barnwyd bod yr aelodau sydd ar y panel hefyd yn addas a bod cynrychiolaeth o'r tîm ymgysylltu â chyflogwyr, Busnes Cymru a chynrychiolwyr diwydiant. Pan fo angen, yn enwedig ar gyfer y prosiectau partneriaeth, bydd arbenigwr Llywodraeth Cymru o'r sector twristiaeth neu greadigol yn cael ei gynnwys yn y broses.

#### **Cael gafael ar hyfforddiant**

- 6.26 Roedd mwyafrif y cyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi defnyddio darparwyr hyfforddiant yr oedd ganddynt berthynas â hwy eisoes, a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru (17) a/neu y tu allan i Gymru (14). Fodd bynnag, nododd rhai cyflogwyr hefyd eu bod wedi defnyddio darparwyr hyfforddiant newydd, wedi'u lleoli yng Nghymru (10) a/neu y tu allan i Gymru (naw).

**Tabl 6.3: Sut y dewisodd y cyflogwyr ddarparwyr hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP**

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>
Defnyddio darparwyr hyfforddiant yr oedd ganddynt berthynas bresennol â nhw, wedi'u lleoli yng Nghymru	17
Defnyddio darparwyr hyfforddiant yr oedd ganddynt berthynas bresennol â nhw, wedi'u lleoli y tu allan i Gymru	14
Dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant newydd i ddiwallu'r angen, wedi'i leoli yng Nghymru	10
Dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant newydd i ddiwallu'r angen, wedi'i leoli y tu allan i Gymru	9
Ddim yn cofio / gwybod	0

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 26 o ymatebwyr. Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn

- 6.27 Byddai'n well gan gyflogwyr ddefnyddio eu darparwr hyfforddiant eu hunain yn hytrach na defnyddio un ar restr gymeradwyo Llywodraeth Cymru. Dywedodd tua dwy ran o dair o'r rhai a holwyd na fyddai'n well ganddynt gael rhestr o ddarparwyr

hyfforddiant cymeradwy gan Lywodraeth Cymru (16), dywedodd bron i chwarter (chwech) nad oeddent yn gwybod, a dim ond ambell un (pedwar) a ddywedodd y byddai'n well ganddo gael rhestr o'r fath.

- 6.28 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r arolwg gan gyflogwyr yn dangos eu bod yn fodlon ar ansawdd yr hyfforddiant a dderbyniwyd; roedd tri chwarter (19) yn fodlon iawn, a chwarter (saith) yn eithaf bodlon.

*Y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*

- 6.29 Prin iawn yw'r dystiolaeth ynghylch y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ar y cyfan, mae'r arolwg a'r ymweliadau astudiaethau achos yn awgrymu mai bach yw'r galw ar y cyfan, ac eithrio rhai cwmnïau yn y sector creadigol. Roedd cyflogwyr a gweithwyr ar draws pob cwmni a sector yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar sicrhau hyfforddwr profiadol a hyfforddiant o ansawdd uchel nag ar iaith yr hyfforddiant.
- 6.30 Dim ond dau gyflogwr (y ddau o'r sector creadigol) a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd fod eu staff yn dymuno cael yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn y ddau achos, roedd y cyflogwr wedi gallu dod o hyd i hyfforddiant priodol.
- 6.31 Nid oedd mwyafrif y gweithwyr (21 o blith 26) yn dymuno cael hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid oedd tri yn gwybod. Roedd dros chwarter (saith) y gweithwyr<sup>45</sup> eisiau derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn pedwar o'r achosion hyn, darparwyd yr hyfforddiant yn Gymraeg. Roedd adborth gan dîm Sgiliau Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oedd llawer o alw yn ond nodwyd bod yr FSP yn rhoi hyblygrwydd llawn i gwmnïau gael mynediad i hyfforddiant yn eu dewis iaith, yn ôl yr angen.

'Ni sy'n ariannu'r hyfforddiant ond maen nhw'n gallu ei ddewis' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 6.32 Yn y sector creadigol roedd cwmnïau a gefnogwyd wedi llwyddo i ddod o hyd i ryw faint o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg wedi'i deilwra, er enghraifft ar gyfer technegau cyfweld neu ysgrifennu sgrïptiau pan oedd galw am hyn. Roedd adborth gan gwmnïau a gefnogwyd gan yr FSP yn y sector hwn hefyd yn awgrymu bod y

---

<sup>45</sup> Roedd pob un o'r saith gweithiwr a gymerodd ran yn yr arolwg yn gweithio i ddau gyflogwr yn y sector creadigol a oedd hefyd yn fusnesau'r astudiaeth achos.

gallu i gynnal eu trafodaethau tîm yn Gymraeg yn fwy gwerthfawr iddynt yn y rhan fwyaf o achosion na'r iaith a ddefnyddiwyd gan yr hyfforddwr i ddarparu'r hyfforddiant. Soniodd darparwyr hyfforddiant ar gyfer y sector hwn hefyd eu bod yn bwriadu datblygu mwy o hyfforddiant Cymraeg yn y dyfodol oherwydd bod rhywfaint o alw amdano yng Nghymru, er mai eu hystyriaeth gyntaf bob amser oedd safon y tiwtor.

## **7. Canfyddiadau: Canlyniadau ac Effeithiau'r FSP**

7.1 Mae'r bennod hon yn seiliedig ar dystiolaeth o gronfa ddata'r FSP ar gyfer 2022/23 a 2023/24, arolygon o gyflogwyr a gweithwyr, ymweliadau astudiaethau achos a barn staff Llywodraeth Cymru ac aelodau o'r panel. Mae'n ystyried i ba raddau y mae'r FSP yn bodloni anghenion cyflogwyr, a thystiolaeth o ganlyniadau ac effaith ar gyflogwyr a ariennir gan yr FSP a'u gweithwyr. Mae'r bennod hefyd yn amlinellu'r gwahaniaeth a wnaed i ddarparwyr hyfforddiant a'r broses o atgyfeirio i ddarpariaeth sgiliau neu gymorth busnes arall Llywodraeth Cymru.

### **Allbynnau**

7.2 Yn ystod 2022/23 a 2023/24 roedd cyfanswm o 194 o geisiadau i'r FSP gan 144 o gwmnïau yn llwyddiannus. Mae'r ffigur hwn hefyd yn dangos bod tua 50 o gwmnïau wedi ailymgeisio'n llwyddiannus. Gwnaed bron i dri chwarter yr holl geisiadau llwyddiannus (140 neu 72 y cant) gan BBaChau a 54 (28 y cant) gan gwmnïau mawr.

7.3 O blith y ceisiadau llwyddiannus, roedd eu hanner (97 neu 50 y cant) yn geisiadau gan fusnesau wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Cymru a'u chwarter (46 neu 24 y cant) gan fusnesau yn ne-orllewin Cymru. Roedd 29 (15 y cant) o geisiadau gan fusnesau yn y gogledd a 22 (11 y cant) o ganolbarth Cymru. Roedd cwmnïau a ariennir wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru gan gwmpasu'r holl awdurdodau lleol ac eithrio Merthyr Tudful fel y dangosir yn Nhabl 7.1. Yr awdurdodau lleol gyda'r nifer mwyaf o ymgeiswyr llwyddiannus oedd Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Powys, Sir y Fflint a Sir Gaerfyrddin.

**Tabl 7.1: Dosbarthiad daearyddol ymgeiswyr llwyddiannus yr FSP, 2022-24**

<b>Awdurdodau lleol</b>	<b>Nifer</b>	<b>Canran (%)</b>
Caerdydd	34	18%
Pen-y-bont ar Ogwr	21	11%
Powys	19	10%
Sir Gaerfyrddin	13	7%
Sir y Fflint	13	7%
Casnewydd	10	5%
Sir Benfro	10	5%
Sir Fynwy	9	5%
Caerffili	8	4%
RhCT	8	4%
Abertawe	8	4%
Ceredigion	8	4%
Sir Ddinbych	5	3%
Bro Morgannwg	5	3%
Gwynedd	4	2%
Blaenau Gwent	4	2%
Castell-nedd Port Talbot	4	2%
Wrecsam	4	2%
Torfaen	3	2%
Ynys Môn	2	1%
Conwy	2	1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>194</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Cronfeydd Data 2022/23 a 2023/24 yr FSP

- 7.4 Roedd nifer y ceisiadau fesul ffrwd/elfen yn amrywio o ddau ar gyfer Sero Net i 104 ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg fel y dangosir yn Nhabl 7.2 isod.

**Tabl 7.2: Ceisiadau llwyddiannus fesul ffrwd/elfen yr FSP, 2022-24**

<b>Ffrwd</b>	<b>Elfen</b>	<b>Nifer</b>	<b>Canran (%)</b>
Datblygu Busnes	Ddim ar gael	16	8%
Prosiectau Partneriaeth	Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg	104	54%
	Digidol	36	19%
	Twristiaeth a Lletygarwch	25	13%
	Creadigol	7	4%
	Allforio	4	2%
	Sero Net	2	1%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>194</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Cronfeydd Data 2022/23 a 2023/24 yr FSP

- 7.5 Y rhagamcan oedd y byddai cyfanswm cyllid yr FSP a ddyrannwyd yn ystod 2022-23 a 2023-24 yn cyllido 8,199 o ymyriadau hyfforddiant gwahanol. Y cyfartaledd cymedrig yw 42 ymyriad hyfforddiant fesul cais llwyddiannus a'r canolrif yw 21 ar draws y ceisiadau llwyddiannus. Cyfanswm yr ymyriadau hyfforddiant i'w cyllido o fewn yr elfen Datblygu Busnes oedd 2,737, sef 171 fesul cais llwyddiannus ar gyfartaledd. Nifer cyfartalog yr ymyriadau hyfforddiant fesul Prosiect Partneriaeth oedd 31.
- 7.6 Swm cyfartalog y cyllid y gofynnodd yr ymgeiswyr llwyddiannus amdano gan yr FSP oedd £16,625 ar draws yr holl geisiadau. Y cais cyfartalog o'r ffrwd Datblygu Busnes oedd £106,692 a'r cyfartaledd ar gyfer ceisiadau Prosiect Partneriaeth oedd £9,090. Roedd y ceisiadau ar gyfer prosiectau partneriaeth yn amrywio o ran y swm y gwnaed cais amdano o lai na £200 i'r uchafswm llawn o £25,000. Roedd y ceisiadau o ffrwd Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg yr elfen Prosiectau Partneriaeth yn tueddu i fod o werth uwch, tra bod ceisiadau o'r ffrydiau Sero Net, Twristiaeth a Lletygarwch ac Allforio yn tueddu i fod am symiau llai o gyllid (llai na £5,000 fel arfer). Y gost gyfartalog ar draws yr FSP fesul ymyriad hyfforddiant a ariannwyd oedd £384.

### **Diwallu anghenion cyffredinol cyflogwyr**

- 7.7 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o gyflogwyr a ymatebodd i'r arolwg (18) yn meddwl bod cyllid yr FSP wedi diwallu eu hanghenion, tra bod rhai (pedwar) yn

meddwl bod y cyllid wedi diwallu eu hanghenion yn rhannol. Teimlai rhai (pedwar) ei fod wedi rhagori ar eu hanghenion.

**Tabl 7.3: I ba raddau y gwnaeth cyllid yr FSP ddiwallu anghenion cyflogwyr**

<b>Ymateb</b>	<b>Nifer</b>
Bodloni ein hanghenion	18
Rhagori ar ein hanghenion	4
Bodloni ein hanghenion yn rhannol	4
Ddim wedi diwallu ein hanghenion	0
Ddim yn gwybod	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>26</b>

Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 26 o ymatebwyr

7.8 Amlygodd y cyflogwyr a gymerodd ran yn yr arolygon a'r astudiaethau achos dri phrif gryfder i'r FSP, sef:

- ei hyblygrwydd gan ei bod yn caniatáu iddynt gael mynediad i hyfforddiant pwrpasol, arbenigol a chyson:

'mae gennym ni anghenion pwrpasol iawn, felly mae wedi bod yn wych cael yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyflenwyr arbenigol sydd eu hangen arnom.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

- rhwyddineb y broses gyllido, a nododd rhai sut y mae cymorth ariannol wedi galluogi'r busnes i ddatblygu a thyfu:

'mae'r cymorth parhaus drwy'r FSP wedi ein helpu i adfer ar ôl COVID, gan alluogi [ein cwmni] i barhau i uwchsgilio ei weithlu yn ystod cyfnod heriol.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

'mae'r hyfforddiant y mae'r FSP wedi'i ariannu'n rhannol wedi cefnogi ein cynnydd parhaus gyda ffocws allweddol ar ddatblygu anghenion sgiliau'r dyfodol [un o'n safleoedd].' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

- bod y cymorth ariannol yn caniatáu iddynt gefnogi datblygiad staff yn fwy effeithiol nag o'r blaen:

'cefnogi datblygiad staff na fyddent wedi gallu cael mynediad i'r hyfforddiant hwn yn allanol.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]



'wedi ein helpu ni fel sefydliad i ddatblygu staff yn fewnol yn lle chwilio am staff newydd i lenwi'r bylchau sgiliau o fewn ein sefydliad.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

7.9 Dim ond ambell gyflogwr a awgrymodd welliannau i'r FSP, a oedd yn cynnwys:

- ehangu cwrpas yr hyfforddiant a ganiateir
- egluro a symleiddio'r gofynion gweinyddol a gwaith papur
- caniatáu opsiwn i amcangyfrif costau a darparu manylion cyrsiau arfaethedig yr oeddent yn dymuno eu comisiynu ond sydd â'r hyblygrwydd i gael eu diwygio yn ddiweddarach.

7.10 Dywedodd staff Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes ei bod bob amser yn heriol dangos y canlyniadau a gyflawnwyd gan gyflogwyr o ganlyniad uniongyrchol i ymyrraeth yr FSP ond roeddent yn credu bod yr FSP wedi helpu i greu a chadw swyddi, ac yn cefnogi busnesau i fuddsoddi'r sgiliau cywir yn y bobl gywir er mwyn parhau i fod yn gystadleuol a thyfu.

'Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd gennym yn anecdotaidd ond rydym yn cael adborth gan gyflogwyr ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ac rydym yn cadw mewn cysylltiad i weld beth sy'n digwydd gyda'r busnes' [staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

'Gyda buddsoddiad Datblygu Busnes, os ydyn nhw'n creu llinell gynhyrchu a'n bod ni'n uwchsgilio yna mae'n cael effaith. Gyda phrosiectau partneriaeth llai, mae'n fwy cynnil.' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

7.11 Fodd bynnag, nid oes gan y rhaglen ddata monitro ar ôl i'r cyllid gael ei ddyrannu oherwydd y diffyg capasiti i wneud gwaith monitro dilynol ar y buddsoddiadau a wnaed. Byddai aelodau'r tîm sgiliau yn barod i fabwysiadu prosesau ysgafn i gasglu tystiolaeth am fanteision y rhaglen ar yr amod nad yw'n rhy feichus i'r tîm a'r cyflogwyr.

7.12 Cynigiodd Llywodraeth Cymru a chyfranwyr sy'n aelodau o'r panel fod dangos hanes o uwchsgilio staff yn gwneud Cymru'n rhanbarth mwy deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi a bod yr FSP felly'n chwarae rhan bwysig o ran creu darlun

cadarnhaol o Gymru. Cyfeiriodd rhai cyfranwyr at enghreifftiau yn y gorffennol lle y bu hyn yn wir gyda chwmnïau'n ymgartrefu yng Nghymru o ganlyniad i ddull 'Tîm Cymru'<sup>46</sup> a oedd yn cynnwys cymorth yr FSP drwy'r ffrwd Datblygu Busnes.

7.13 Darparodd staff Llywodraeth Cymru, aelodau'r panel a darparwyr hyfforddiant enghreifftiau o sut yr oedd yr FSP wedi helpu i greu canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol:

- roedd cwmni gwasanaethau ariannol mawr wedi cael ei ddenu i Gymru a dyfarnwyd cyllid FSP iddo dros bum mlynedd fel rhan o becyn mewnfuddsoddi. Yn yr achos hwn, nid oedd y cynnig FSP wedi'i ddefnyddio'n llawn gan fod y cwmni'n tueddu i gyflogi graddedigion â lefel uchel o gymwysterau. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w hymwneud â'r tîm Sgiliau, datblygodd y cwmni berthynas â'u coleg AB lleol a cheisio gwario rhywfaint o'i gyllideb hyfforddi ar brentisiaethau mewn meysydd cysylltiedig. Datblygodd y coleg lleol gynllun prentisiaeth pwrpasol a oedd yn cynnwys cyfweiliad gwarantedig yn y cwmni gwasanaethau ariannol ar ôl cwblhau'r brentisiaeth. Roedd hwn yn ddull hynod lwyddiannus sydd bellach wedi'i ymestyn i gwmnïau angori eraill yn y rhanbarth

'Mae'r cwmni nawr yn buddsoddi mwy mewn prentisiaethau nag mewn graddedigion y maen nhw wedi'u recriwtio. Mae'n gwario llawer o arian y llywodraeth ar greu llwybrau nad oeddent erioed yno o'r blaen. Nid oedd y cwmni erioed wedi edrych ar gymwysterau galwedigaethol.

Dyna beth yw llwyddiant' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- roedd cwmni gweithgynhyrchu mawr yn y de-ddwyrain yn ad-drefnu un o'i linellau cynhyrchu ac yn defnyddio llinell gynhyrchu o'r Almaen. Byddai galluogi'r defnydd o'r llinell gynhyrchu newydd yn gofyn am uwchsgilio'r staff presennol yn sylweddol. Roedd rheolwr cysylltiadau yn trafod gyda'r cwmni ar y pryd gan ei gyfeirio at yr FSP a oedd yn ariannu hanner cost yr hyfforddiant. Gwthiodd hyn y prosiect yn ei flaen chwe mis a oedd yn golygu

---

<sup>46</sup> Lle y cynigir pecyn cymorth i gwmnïau mewnfuddsoddi i'w denu i Gymru.

bod y safle'n gallu cynnig am contractau mewnol a oedd yn cael eu comisiynu gan ei riant-gwmni

- roedd cwmni modurol yn gallu dangos ei effeithlonrwydd a chystadlu'n llwyddiannus yn erbyn ffatrioedd eraill o fewn y rhiant-gwmni i gael buddsoddiad pellach

'Mae'r FSP yn golygu bod pobl yn gwella eu prosesau. Ac maen nhw'n arloesi. Os na fyddwn yn arloesi, byddwn yn aros yn ein hunfan' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- bydd cwmni angori pwysig yng Nghymru yn defnyddio'r ffaith eu bod yn derbyn cyllid yr FSP gan Lywodraeth Cymru i gefnogi eu trafodaethau gyda'r rhiant-gwmni i leoli llinell gynhyrchu ar y safle
- cafodd cwmni peirianeg gydag offer hen ffasiwn ei drosglwyddo i berchennog newydd a aeth ati i fuddsoddi mewn cyfarpar cyfalaf newydd a oedd yn golygu bod angen i'r staff ddysgu sgiliau newydd. Heb fuddsoddiad gan yr FSP ni fyddai'r cyfarpar cyfalaf wedi cael ei ddefnyddio'n llawn mor gyflym:

'Mae'n mynd law yn llaw. Heb hyfforddiant ac uwchsgilio, ni fyddai'r buddsoddiad cyfalaf yn creu elw i fusnesau' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

7.14 Mae dogfennau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn priodoli peth o'r mewnfuddsoddiad diweddaraf a thwf llwyddiannus cwmnïau yng Nghymru i gymorth gan yr FSP:

'roedd cymorth yr FSP yn ffactor allweddol o ran denu Aston Martin i dde Cymru, cynlluniau ehangu diweddaraf Deloitte ar ei safle yng Nghaerdydd, cynorthwyo Admiral i uwchsgilio ei staff yng Nghymru i sicrhau amrywiaeth o gynhyrchion newydd a helpu i sefydlu a datblygu Zip World ac NU Instruments yng Ngogledd Cymru. Mae hefyd wedi bod ar gael i gynorthwyo yn ystod argyfyngau yn y farchnad megis rhoi cymorth i Murco, Tata a Ford.<sup>47</sup>

---

<sup>47</sup> Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig FSP, tudalen 8 [heb ei gyhoeddi]

## **Y diwydiant lled-ddargludyddion yn ne-ddwyrain Cymru**

Mae'r diwydiant lled-ddargludyddion yn ne ddwyrain Cymru yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac mae'r FSP wedi buddsoddi yn y sector hwn. Mae'r sector yn tyfu ac er bod llawer o ffactorau wedi cyfrannu at y twf hwn, mae'r FSP wedi bod yn elfen allweddol o'r pecyn cymorth sydd ar gael i sector sy'n cyflogi pobl mewn gyrfaedd gwerth uchel a throsglwyddadwy.


Ceir ymgysylltiad da rhwng yr FSP a busnesau lled-ddargludyddion yn y de-ddwyrain, ac mae gan Lywodraeth Cymru fwrdd rhaglen lled-ddargludyddion. Mae un o uwch-reolwyr cysylltiadau yr FSP yn siarad yn rheolaidd â busnesau lled-ddargludyddion am eu cynlluniau twf a'u hanghenion hyfforddi y gellir eu cefnogi drwy'r FSP.

'Y sector lled-ddargludyddion yw'r sector â'r flaenoriaeth uchaf yn y de ddwyrain. Mae'r buddsoddiad yn gysylltiedig â phobl yma yn bennaf. Bydd unrhyw ranbarth sy'n gallu dangos cyflenwad o bobl â sgiliau yn y maes hwn yn helpu i gryfhau safle Cymru yn y farchnad fyd-eang o ran mewnfuddsoddi.'

### **Yr effaith ar gyflogwyr**

- 7.15 Dengys yr ymatebion i'r arolwg o gyflogwyr effaith eithaf cymysg ar y busnes at ei gilydd. Nododd bron yr holl gyflogwyr (25) fod eu gweithlu wedi uwchsgilio ers ymgymryd â'r hyfforddiant ac roedd o leiaf eu hanner wedi gweld gwell cyfraddau cadw staff (14), gwell cynhyrchiant busnes (13), gwell rheolaeth ac arweinyddiaeth (18), gwell perthnasoedd gyda darparwyr hyfforddiant lleol (14) a dyfodol mwy cadarn i'w cwmni yn y rhanbarth/Cymru (17). Gwelwyd lefelau is o newid ar gyfer dangosyddion perfformiad busnes allweddol, gyda llai o gyflogwyr yn nodi cynnydd yn y swyddi a gadwyd neu a grëwyd (wyth), gwell proffidoldeb/trosiant busnes (chwech) neu'r busnes yn ehangu (pump).


**Ffigur 7.1: Manteision a welwyd gan gyflogwyr ers ymgymryd â hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr

7.16 Lle roedd y cyflogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi dweud y bu newidiadau ers ymgymryd â'r hyfforddiant, yn y rhan fwyaf o achosion roedd y rhain wedi'u priodoli'n rhannol o leiaf i'r hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol drwy'r FSP gyda rhai cyflogwyr yn priodoli newidiadau'n uniongyrchol i'r cyllid. Er enghraifft, priodolodd rhai cyflogwyr (11) y ffaith bod y gweithlu wedi uwchsgilio yn uniongyrchol i'r hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol gan yr FSP a dywedodd eraill (13) fod yr hyfforddiant wedi helpu. Er bod rhai (chwech) cyflogwyr yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau o ran rheoli ac arweinyddiaeth, roedd nifer mawr (12) yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi helpu. Roedd rhai cyflogwyr (chwech) yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi arwain yn uniongyrchol at gynhyrchiant busnes gwell, ac roedd ambell un yn teimlo ei fod wedi helpu (pump).

**Ffigur 7.2: I ba raddau y mae'r manteision a welwyd i'w priodoli i hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol gan yr FSP**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyd a nododd newid cadarnhaol

7.17 Rhoddodd rhai cyflogwyr a holwyd fwy o fanylion ynghylch sut yr oedd yr FSP wedi cefnogi anghenion hyfforddi eu busnes. Pwysleisiodd rhai fod y cyllid wedi caniatáu iddynt gael mynediad i lawer mwy o hyfforddiant nag y byddent wedi ei gael fel arall, sydd wedi cael effaith gadarnhaol amlwg ar dwf y busnes ac ar gadw gweithwyr. Mae'r hyfforddiant wedi galluogi cyflogwyr i gael mynediad i hyfforddiant arbenigol sy'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant ac i ddarparu hyfforddiant i staff sy'n gwerthfawrogi'r ffocws ychwanegol ar eu datblygiad. Ailbwysleisiodd y cyflogwyr eu hadborth cadarnhaol am y cymorth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses, gan nodi bod y broses yn hyblyg, a bod Llywodraeth Cymru yn deall eu hanghenion.

'Diolch am y cyllid hwn. Hebdo, fydden ni byth wedi gallu hyfforddi cynifer o staff mewn ystod mor eang o'r sgiliau technegol sydd eu hangen ar ein busnes. Mae hwn wedi bod yn fuddsoddiad enfawr i ni, ond mae'r cyllid wedi caniatáu i ni ymestyn y gyllideb ymhellach. Mae ein staff a'n tîm rheoli i gyd yn werthfawrogol iawn ac rwyf wedi argymhell yr FSP i'n cwsmeriaid sawl gwaith.'

'Mae wedi cynyddu hyder peiriannydd ifanc, gan wella ei hyder, ehangu ei alluoedd, sydd yn ei dro yn helpu ein cwmni.'

'Bu'r cyllid o gymorth i'n busnesau bach i ddarparu adnoddau ar gyfer hyfforddiant y mae mawr ei angen ar ein rheolwyr na fyddem wedi gallu fforddio eu darparu heb gymorth y gronfa.'

'Fe wnaeth sicrhau bod ein staff yn uwchsgilio, felly rydym wedi gallu tyfu ein busnes a chadw staff presennol a gyflogir o'r ardal leol. Nid yw llawer o'n staff yn gyrru ac felly nid oes ganddynt lawer o gyfleoedd ar garreg eu drws. Hefyd, roedd llawer o'r staff a ddilynodd yr hyfforddiant yn weithwyr heb sgiliau yn wreiddiol.'

[Pob cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

7.18 Amlygodd y cyflogwyr a gyfwelwyd yn ystod ymweliadau'r astudiaethau achos nifer o wahaniaethau cadarnhaol o ganlyniad i gyllid yr FSP gan gynnwys:

- roedd cyllid yr FSP wedi eu galluogi i gynyddu faint o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu ac i hyfforddi mwy o staff nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. O ganlyniad, soniodd pedwar cyflogwr fod cymorth yr FSP wedi eu galluogi i gomisiynu hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar dwf a'u hanghenion yn y dyfodol yn hytrach na dim ond hyfforddiant statudol a oedd yn ymateb i angen mwy uniongyrchol. Soniodd un cyflogwr fod cymorth yr FSP wedi cynyddu ei bŵer prynu gan ei alluogi i dreblu nifer y gweithwyr a allai fynychu'r hyfforddiant. Roedd eraill wedi gallu gofyn am hyfforddiant wedi'i deilwra, yn nes at adref. Roedd y cwmnïau hyn yn aml yn cysylltu'r dull 'pellach, cyflymach' hwn o ddarparu hyfforddiant â gwelliant yn nhwf busnes
- amlygodd tri chwmni (gan gynnwys y ddwy enghraifft o'r ffrwd Datblygu Busnes) fod derbyn grant gweladwy gan Lywodraeth Cymru yn rhywbeth

sy'n dod â chlod ychwanegol i'w safle yng Nghymru a oedd yn ei helpu i barhau i fod yn gystadleuol a chreu'r argraff o sefydlogrwydd a'i fod yn cael ei werthfawrogi. Arweiniodd y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru at gryfhau cynaliadwyedd hirdymor cwmnïau yn y rhanbarth. Roedd y gwelliannau i effeithlonrwydd cynhyrchu a ddeilliodd o'r hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP hefyd yn golygu bod eu canolfannau gweithgynhyrchu yng Nghymru yn gryfach ac yn fwy diogel oherwydd iddynt fabwysiadu offer a thechnolegau mwy effeithlon

- amlygwyd sgiliau arweinyddiaeth a rheoli gwell gan dri chwmni fel rhywbeth arbennig o bwysig, yn enwedig ar ôl Covid. Mewn un enghraifft, roedd y gwelliant hwn wedi arwain at ostyngiad mewn absenoldeb salwch ymhlith y staff
- roedd buddsoddiad mewn hyfforddiant a gefnogwyd gan yr FSP hefyd wedi helpu i gadw staff yn ystod cyfnod anodd mewn tair enghraifft, ac mewn enghraifft arall ystyriwyd bod y ffocws ar hyfforddiant yn ddefnyddiol wrth recriwtio staff newydd.

7.19 Roedd dau o gyflogwyr yr astudiaethau achos yn gallu darparu ffigur ariannol ar gyfer effaith hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP:

- mewn un enghraifft, cynhyrchwyd £350,000 o arbedion mewn un flwyddyn yn unig o ganlyniad i'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd ac a weithredwyd gan hyfforddeion a oedd wedi mynychu cyrsiau methodoleg ddarbodus Six Sigma y flwyddyn honno, a ariannwyd gan yr FSP ar gyfanswm cost o £18,000. Gwelwyd arbedion blynyddol tebyg hefyd yn flaenorol
- awgrymodd cwmni arall fod y ffaith i ddeg o weithwyr fynychu cwrs hyfforddi ar gyfanswm cost o £7,400 wedi arwain at arbedion o tua £50,000 i'r busnes a gwelliant o 30 y cant mewn cynhyrchiant ym mhob maes gwaith ochr yn ochr â llai o gwynion gan gwsmeriaid a llai o wastraff o ganlyniad i hyfforddiant a gefnogwyd mewn un flwyddyn

7.20 Roedd un neu ddau o gyflogwyr yr astudiaethau achos a oedd yn BBaChau ac a oedd wedi gwneud cais am symiau llai o gyllid yr FSP i gefnogi hyfforddiant ar




raddfa lai, a oedd fel arfer yn gyrsiau undydd byr, yn teimlo bod angen i effeithiau posibl buddsoddiad o'r fath fod yn realistig. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, amlygwyd nifer o fanteision 'meddalach' gan gynnwys staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy a gwell morâl ymysg y staff yn hytrach nag unrhyw effaith sylweddol ar yrfaeodd, enillion neu ddyrchafiad.

### Barn y cyflogwyr ar yr effaith ar weithwyr

- 7.21 Yn ôl y cyflogwyr, mae'r staff a fynychodd hyfforddiant wedi gallu defnyddio'r hyn y gwnaethant ei ddysgu yn y gweithle; dywedodd mwyafrif y rhai a holwyd (23) fod y staff wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt i raddau helaeth yn y gweithle.
- 7.22 Roedd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr hefyd yn credu, ers iddynt gael yr hyfforddiant, fod y rhan fwyaf o'r gweithwyr neu'r holl weithwyr yn perfformio'n well yn eu swyddi (26) a/neu wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn y gwaith (25). Dywedodd tri chwarter y cyflogwyr (20) hefyd fod o leiaf rhai aelodau o staff wedi cael codiad cyflog, er i leiafrif nodi na welwyd unrhyw effaith ar gyflog y staff (chwech). Dywedodd dros eu hanner fod o leiaf rai aelodau o staff wedi cael dyrchafiad yn y gwaith (17), ond eto dywedodd lleiafrif nad oedd unrhyw effaith ar ddyrchafiadau staff (wyth) a phrin iawn oedd y rhai a ddywedodd fod yr holl staff neu'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael dyrchafiad (tri).


**Ffigur 7.3: Newidiadau a welwyd gan gyflogwyr ers i'r staff gael hyfforddiant**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 26 o ymatebwyr

7.23 Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd y cyflogwyr fod cyllid yr FSP wedi cyfrannu at y newidiadau cadarnhaol hyn i staff, er bod llai o gyflogwyr yn priodoli'r newidiadau yn uniongyrchol i'r FSP yn unig. Adroddodd y mwyafrif o'r cyflogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg fod yr FSP wedi cyfrannu at staff yn perfformio'n well yn eu swyddi (17), ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn y gwaith (20), cynnydd yn y gyfradd gyflog neu gyflog blynyddol (16) a dyrchafiad yn y gwaith (14).

**Ffigur 7.4: I ba raddau y digwyddodd newidiadau oherwydd hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol gan yr FSP**




Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i gyflogwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr a nododd newid cadarnhaol

### **Barn gweithwyr ar yr effaith a gafwyd**

7.24 Yn bennaf, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg o weithwyr yn gobeithio datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy ddilyn hyfforddiant. Roedd y mwyafrif yn gobeithio meithrin sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â gwaith (27) a/neu wneud eu gwaith yn well / gwella eu sgiliau presennol (25). Roedd tua thri chwarter (23) hefyd yn awyddus i gael gwybodaeth newydd sy'n gysylltiedig â gwaith tra bod ychydig llai na'u hanner (15) eisiau ennill cymwysterau neu achrediadau sy'n gysylltiedig â gwaith.

7.25 Nid oedd gwella eu rhagolygon yn y gwaith (pump), sicrwydd swydd (dau) a thâl yn y gwaith (un) yn brif ystyriaethau i'r rhan fwyaf o'r gweithwyr a ymatebydd i'r arolwg.

**Ffigur 7.5: Yr hyn yr oedd gweithwyr yn gobeithio ei gyflawni o'r hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i weithwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 31 o ymatebwyr. Gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.


7.26 Roedd bron pob un o'r gweithwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi cwblhau'r hyfforddiant y gwnaethant gofrestru ar ei gyfer, ond dywedodd un nad oedd yn gwybod. Roedd ychydig yn llai na dwy ran o dair (19) o'r gweithwyr wedi cyflawni'r cymhwyster neu achrediad disgwylidig ond i draean o'r gweithwyr (10), ni wnaeth y cwrs arwain at unrhyw gymhwyster nac achrediad.

7.27 Roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn (26), tra bod ychydig yn fwy (pedwar) yn ei weld yn eithaf defnyddiol. Dim ond un gweithiwr a oedd yn teimlo nad oedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn. Dywedodd bron pawb (30) eu bod wedi gallu defnyddio'r hyn y gwnaethant ei ddysgu o'r hyfforddiant yn eu gwaith.

- 7.28 Roedd y gweithwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch gwelliannau i berfformiad eu swydd, cyfrifoldeb yn y gwaith a boddhad swydd/llesiant ers cwblhau'r hyfforddiant. Dywedodd y rhan fwyaf (27) eu bod wedi perfformio'n well yn eu swydd, nododd tri chwarter (21) welliant yn eu boddhad swydd/llesiant a dywedodd dwy ran o dair (17) eu bod wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn y gwaith. Ni fu llawer o welliannau i sicrwydd swyddi gweithwyr (pedwar), cyfradd tâl fesul awr neu gyflog blynyddol (pedwar) nac oriau gwaith (dau) ers cwblhau'r hyfforddiant. Dim ond un gweithiwr a oedd wedi cael dyrchafiad yn y gwaith ers cwblhau'r hyfforddiant.
- 7.29 Fodd bynnag, tynnodd saith gweithiwr sylw at newidiadau eraill yr oeddent wedi'u gwneud ers cwblhau'r hyfforddiant. Dywedodd tri eu bod wedi meithrin gwybodaeth ychwanegol ac wedi gallu cynnig gwasanaeth ychwanegol i'r busnes. Nododd dau fod ganddynt fwy o hyder yn y gwaith tra bod un wedi dod yn 'ddarparwr gwybodaeth i aelodau eraill o staff'.

'Meithrin mwy o wybodaeth mewn maes y mae mawr ei angen, ennill cymhwyster ychwanegol a gwella'r gwasanaeth a gynigir gan y cwmni.'  
 [Gweithiwr a gefnogwyd gan yr FSP]


**Ffigur 7.6: Newidiadau a welwyd gan weithwyr ers cwblhau hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i weithwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr

7.30 Roedd yr holl weithwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi perfformio'n well yn eu swydd ers cwblhau'r hyfforddiant yn priodoli'r newidiadau yn uniongyrchol (13) neu'n rhannol (14) i'r hyfforddiant a ariannwyd yn rhannol gan yr FSP. Roedd bron pawb a oedd wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb hefyd yn priodoli'r newidiadau'n uniongyrchol (saith) neu'n rhannol (naw) i'r hyfforddiant. Roedd bron pawb a oedd wedi gweld gwelliant mewn boddhad swydd/llesiant hefyd yn priodoli'r newidiadau'n uniongyrchol (wyth) neu'n rhannol (13) i'r hyfforddiant. Mewn achosion eraill lle roedd rhai gweithwyr wedi gweld newidiadau mewn sicrwydd swydd, cyfradd tâl fesul awr neu gyflog blynyddol neu oriau gwaith, roedd y rhain hefyd yn cael eu priodoli'n bennaf, naill ai'n uniongyrchol neu'n rhannol, i'r hyfforddiant.

**Ffigur 7.7: I ba raddau y digwyddodd newidiadau oherwydd hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i weithwyr, Mawrth 2024. Yr holl ymatebwyr a nododd newid cadarnhaol

7.31 Darparodd mwyafrif y gweithwyr a ymatebodd i'r arolwg neu a fu'n rhan o ymweliadau astudiaethau achos hefyd sylwadau ychwanegol ar sut y bu'r hyfforddiant o fudd iddyn nhw'n bersonol. Soniodd rhai am gynnydd yn eu hyder, o

ran eu gallu i wneud eu gwaith ac o ganlyniad i gael eu herio i ddysgu rhywbeth newydd. Roedd yr hyfforddiant wedi helpu llawer o weithwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwr gan fod yr hyfforddiant yn dangos parodrwydd i fuddsoddi yn y staff. Yn yr un modd, roedd un gweithiwr yn teimlo bod dilyn hyfforddiant hefyd yn dangos ei ymrwymiad i'r cyflogwr. Soniodd rhai am welliant mewn sgiliau diwydiant-benodol sydd wedi eu galluogi i gyflawni eu swydd yn gyflymach a/neu'n well, tra bod eraill wedi gweld gwelliant mewn sgiliau cyflogadwyedd cyffredinol (fel datrys problemau). Er bod rhai wedi gallu ysgwyddo cyfrifoldebau a phrosiectau ychwanegol o ganlyniad i'r hyfforddiant, dywedodd eraill eu bod yn deall anghenion eu cwsmeriaid a'u cydweithwyr yn well.

'Mae cael hyfforddiant wedi'i ariannu yn golygu y gallaf wella fy sgiliau gwaith a gwasanaethu ein cwsmeriaid yn well. Hefyd roedd y cwrs yn dipyn o her i mi, felly roeddwn i'n teimlo'n fedrus iawn ar ôl llwyddo i'w gwblhau. Rwy'n hoff o gael fy annog i wneud hyfforddiant rheolaidd ac mae'r cyllid yn golygu bod ein busnes yn gallu gwneud hynny.'

'Mae'r cwrs y gwnes i ei ddilyn wedi bod yn amhrisiadwy i fy rôl fel cynhyrchydd datblygu. Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus yn fy ngallu i ddadansoddi sgrïptiau a strwythur stori. Ac yn fwy hyderus yn rhoi nodiadau i awduron ar sut i wella eu gwaith. Mae gallu cymryd rhan yn y cwrs hwn wedi bod yn wych o ran datblygu fy sgiliau ar gyfer y dyfodol ac mae'n dangos ymrwymiad i mi gan fy nghyflogwr i ymdrechu i fagu mwy o brofiad a chael mwy o hyfforddiant.'

'Doedd gen i ddim sgiliau busnes penodol, ar ôl trosglwyddo rôl academaidd i rôl fasnachol. Roedd y cyrsiau a ariannwyd gan yr FSP yn help mawr i mi ddeall prosesau busnes yn llawer cliriach ac maent wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran rhoi hyder i mi yn y sector hwn.'

'Cafwyd nifer o sesiynau hyfforddi a oedd yn canolbwyntio ar bynciau penodol, e.e. Diogelwch, Cyfarwyddyd ac ati... sy'n rhoi pecyn cymorth cynhwysfawr i fod yn rheolwr effeithiol. Cynhaliwyd nifer o sesiynau dilynol yn myfyrio ar sut y mae'r sgiliau newydd yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn golygu bod y dulliau a addysgwyd yn dod yn rhan reolaidd o'm swydd.'

[Pob gweithiwr a gefnogwyd gan yr FSP]


7.32 Manteisiodd rhai gweithwyr ar y cyfle hefyd i nodi bod yr hyfforddiant yn cynnig manteision i'r holl weithwyr a'r busnes yn gyffredinol. Nodwyd bod hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod busnesau'n cael eu hachredu'n briodol ac yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol ac yn cefnogi mewnfuddsoddiad a chyfraddau cadw.

'Mae'n hollbwysig wrth ddatblygu'r gweithlu. Mae hyfforddiant yn rhan hanfodol o ddatblygiad gweithwyr. Mae hyfforddiant o safon yn ddruod. Bydd parhau i hyfforddi unigolion yn allweddol. Mae'r cyllid hwn yn gwneud gwahaniaeth i gwmnïau a'r gweithlu.' [Gweithiwr a gefnogwyd gan yr FSP]

7.33 Ar y cyfan, roedd y gweithwyr yn gadarnhaol ynghylch pa mor ddefnyddiol fyddai'r hyfforddiant a ariennir yn rhannol gan yr FSP iddynt yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf yn credu y bydd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol o ran eu gallu i gyflawni eu swydd yn well (21 wedi nodi defnyddiol iawn, wyth wedi nodi eithaf defnyddiol), ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn y gwaith (14 wedi nodi defnyddiol iawn, 14 wedi nodi eithaf defnyddiol) a'u boddhad swydd/llesiant (13 wedi nodi defnyddiol iawn, 14 wedi nodi eithaf defnyddiol).

7.34 Roedd tua thri chwarter hefyd yn credu y byddai'r hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol o ran eu gallu i ennill mwy o arian yn y dyfodol (saith yn nodi defnyddiol iawn, 14 yn nodi eithaf defnyddiol) a'u gallu i gael dyrchafiad (saith yn nodi defnyddiol iawn, 16 yn nodi eithaf defnyddiol). Roedd dros eu hanner hefyd yn teimlo y byddai'r hyfforddiant yn ddefnyddiol o ran sicrwydd swydd (saith yn nodi defnyddiol iawn, 10 yn nodi eithaf defnyddiol).

**Ffigur 7.8: Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP i weithwyr yn y dyfodol**



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein OB3 i weithwyr, Mawrth 2024. Pob un o'r 31 o ymatebwyr

7.35 Soniodd y gweithwyr a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos hefyd sut yr oedd yr hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP wedi eu helpu i weld cyfleoedd i ddatblygu a chamu ymlaen yn eu gyrfa ymhellach yn y dyfodol gyda'r cyflogwr a bod eu cynnydd mewn sgiliau a hyder yn trosi'n ddatblygiad cyfleoedd newydd iddynt hwy eu hunain ac i'r cwmni, megis comisiynau gwaith newydd.

**Yr effaith ar ddarparwyr hyfforddiant**

7.36 Credai staff Llywodraeth Cymru fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr yng Nghymru a bod rhai busnesau a gynorthwyr yn dewis eu darparwr AB neu hyfforddiant lleol, yn enwedig yn y gogledd. Er bod data'r ymatebwyr i'r arolwg yn awgrymu mai dim ond hanner yr holl hyfforddiant sy'n cael ei gynnal gan ddarparwyr hyfforddiant wedi'u lleoli yng Nghymru, mae dadansoddiad o gynlluniau datblygu sgiliau busnesau'r astudiaethau achos yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r gwariant ar hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio ar ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ac mai dim ond darpariaeth fwy arbenigol sy'n debygol o ddod o ffynonellau y tu hwnt i Gymru. Yn ôl cynlluniau datblygu sgiliau naw o fusnesau'r astudiaethau achos a ddarparodd



fanylion cyfeiriadau y darparwyr hyfforddiant a ddefnyddiwyd, darparwyd cyfartaledd o 77 y cant o'r hyfforddiant gan ddarparwyr o Gymru. Er nad yw staff Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau cyflogwyr, maent serch hynny yn croesawu'r ffaith bod cyfran fawr o wariant yr FSP yn cael ei gadw o fewn economi Cymru.

- 7.37 Dros amser, dywedodd aelodau o staff Llywodraeth Cymru fod cwmnïau o'r fath yn tueddu i gael hyfforddiant yn uniongyrchol gan y coleg AB yn hytrach na cheisio cymorth gan yr FSP sy'n awgrymu nad yw busnesau'n dod yn ddibynnol ar FSP i ariannu eu darpariaeth hyfforddiant. Roedd staff Llywodraeth Cymru hefyd yn credu bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr hyfforddiant o Gymru, a chafwyd rhywfaint o hyfforddiant technegol, yn enwedig ar gyfer y sector gweithgynhyrchu uwch a pheirianeg, drwy'r elusen ddielw, Canolfan Ansawdd Cymru. Awgryma hyn y gall yr FSP chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu perthnasoedd newydd rhwng cyflogwyr a'u darparwyr lleol.

'Ar ôl i berthnasoedd gael eu sefydlu, mae hynny'n dda. Ond nid ydym yn argymhell cwmnïau' [Staff Llywodraeth Cymru/aelod o'r panel]

- 7.38 Roedd adborth gan ddarparwyr hyfforddiant yn awgrymu bod yr FSP wedi arwain at rai canlyniadau cadarnhaol anfwriadol iddynt hwythau hefyd. Soniodd yr holl ddarparwyr hyfforddiant a gyfwelwyd am sut yr oedd yr FSP wedi helpu i sefydlu perthnasoedd cryfach rhyngddynt a'r cwmnïau y maent yn darparu hyfforddiant iddynt, gyda'r tebygolrwydd y byddai perthnasoedd yn parhau i gryfhau yng ngoleuni trafodaethau am weithgareddau hyfforddi yn y dyfodol.
- 7.39 Amlygodd dau ddarparwr hyfforddiant sut yr oedd cyrsiau pwrpasol a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer cwmnïau a ariannwyd gan yr FSP bellach yn cael eu cyflwyno a'u cynnig yn ehangach i gyflogwyr eraill yn y sector.

'Maen nhw'n flaengar. Maen nhw'n ymchwilio i'r hyn sydd ei angen ar eu staff, ac mae hynny'n ein helpu ni i ddatblygu hefyd. Rydym yn gweld ble mae'r bylchau o ran sgiliau yn y sector ar hyn o bryd' [Darparwr hyfforddiant]

## **Cymryd rhan mewn rhaglenni sgiliau eraill Llywodraeth Cymru**

- 7.40 Roedd staff a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yr FSP yn helpu busnesau i fanteisio ar ddarpariaeth sgiliau arall a ariennir. Credwyd mai prentisiaethau a oedd yn cyd-fynd orau â'r FSP, tra bod Twf Swyddi Cymru wedi'i anelu at y rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur, felly nid oedd cyfatebiaeth mor amlwg â'r rhaglen honno. Y Cyfrifon Dysgu Personol oedd y cynnig y cyfeiriwyd ato amlaf o ran rhaglen arall a allai gydweddu'n well ag anghenion cyflogwr pan gysylltwyd â thîm Sgiliau Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf. Roedd y Rheolwyr Cysylltiadau yn ystyried eu bod yn ymwybodol iawn ac yn wybodus am y rhaglenni eraill hyn ac yn hysbysu cyflogwyr yn rheolaidd amdanynt.
- 7.41 Gan mai dim ond cronfa fach o gyllid sydd gan yr FSP, roedd yr Uwch-reolwyr Cysylltiadau yn ystyried ei bod yn rhan sylfaenol o'u rôl i sicrhau, os gellid ariannu unrhyw agwedd ar hyfforddiant gofynnol busnes drwy unrhyw fecanwaith arall, y dylid ymchwilio i hynny yn gyntaf. Roedd cyfranwyr o Lywodraeth Cymru yn hyderus bod hyn yn cael ei reoli'n dda gan yr Uwch-reolwyr Cysylltiadau.
- 'rhan o'n cylch gwaith fel staff ymgysylltu â chyflogwyr yw llunio'r pecyn gorau - felly byddwn yn eu cynghori yn unol â hynny. Nid ydym yn cael cyfle i eistedd i lawr gyda'r mwyafrif o brosiectau partneriaeth ond rydym yn eu hatgyfeirio fel y bo'n briodol at y cynllun prentisiaethau a'r rhaglenni sgiliau ehangach sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. O ran cwmnïau bach, byddwn hefyd yn eu hatgyfeirio i'r Rhaglen Cyflymu Twf ac Arloesedd SMART. Rydym yn gwneud i rannu'r wybodaeth'

### **Talu am hyfforddiant**

- 7.42 Mae'n bosibl y byddai hanner y cyflogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg (13) wedi talu, yn llawn neu'n rhannol, am yr hyfforddiant a gefnogwyd gan yr FSP, ond dywedodd rhai (10) y byddai hynny'n annhebygol. Dywedodd bron pob cyflogwr (23) y byddent yn barod i dalu'n rhannol am hyfforddiant tebyg yn y dyfodol.
- 7.43 Roedd rhai o staff Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai llawer o'r hyfforddiant wedi mynd rhagddo fwy na thebyg er gwaethaf cymorth yr FSP ond ychwanegodd fod yr FSP wedi bod yn gymhelliant mawr i fusnesau ddarparu mwy o hyfforddiant

a'i ddarparu'n gynt nag y byddent wedi'i wneud fel arall. Darparodd hefyd gyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol i Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad bach i ddangos eu cefnogaeth i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

## 8. Yr anghenion yn y dyfodol a gwelliannau posibl i'r FSP

- 8.1 Yn y bennod hon trafodir barn staff, rhanddeiliaid, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr am ddyfodol yr FSP. Mae'n cynnwys y sylwadau a wnaed ynghylch a ddylai'r FSP barhau ai peidio ac yn cyflwyno awgrymiadau a wnaed ynghylch newidiadau posibl i ddyluniad, gweithrediad a chwmpas y rhaglen yn y dyfodol.
- 8.2 Roedd y mwyafrif llethol o staff a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru yn credu bod yr FSP yn rhaglen ddilys y dylid parhau i'w hariannu. Fe'i disgrifiwyd fel cronfa sydd wedi'i hen sefydlu sy'n ychwanegu gwerth ac yn gwneud gwahaniaeth. Fel y ddarpariaeth sy'n canolbwyntio fwyaf ar gyflogwyr o blith yr holl ddarpariaeth sgiliau a hyfforddiant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, barnwyd ei bod yn bwysig ei chadw. Gyda chyllideb fach iawn mae'n rhoi neges gref i gyflogwyr ac i ddarpar fewnfuddsoddwyr. Mae hefyd yn gweithredu gyda digon o hyblygrwydd i addasu a rhoi pethau ar waith yn gyflym yn ôl yr angen – er enghraifft os daw ffocws polisi newydd i'r amlwg neu os oes gwir angen math penodol o hyfforddiant ar gwmni.
- 8.3 Heb yr FSP, dadleuodd staff Llywodraeth Cymru y byddai cwmnïau llai yn colli cyfle, ac i gwmnïau mewnfuddsoddi, roedd y gallu i gynnwys FSP fel rhan o ystod o gymorth ehangach (fel prentisiaethau) yn eu galluogi i gynnig pecyn swmpus iawn, gyda'r FSP yn rhan annatod o hynny. Roedd darparwyr hyfforddiant yn cytuno bod busnesau mwy newydd, a rhai llai a oedd yn tyfu'n gyflym yn ystyried bod cyllid yr FSP yn hollbwysig. Fel y dywedodd un cyfrannwr o'r fath:
- 'At ei gilydd, mae wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae'n gweithio. Os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio' [Darparwr hyfforddiant]
- 8.4 Er na chafodd unrhyw newidiadau gweithredol mawr eu hawgrymu gan y cyfranwyr, mae dwy agwedd ar yr FSP yn haeddu ystyriaeth bellach.
- 8.5 Yn gyntaf, awgrymodd nifer o gyfranwyr y gallai fod angen tynhau'r cymhwysra a mabwysiadu mwy o gysondeb o ran yr hyn a ddylai ac na ddylai fod yn gymwys i gael cyllid yr FSP yn y dyfodol. Teimlai rhai y byddai'r rhaglen yn elwa o gael mwy o eglurder a chadw at feini prawf cymhwysra mewn meysydd penodol o hyfforddiant megis:
- hyfforddiant statudol

- cymwysterau proffesiynol
- cymwysterau lefel isel.

8.6 Yn ail, roedd gwahaniaeth barn ymhlith staff a rhanddeiliaid mewn perthynas ag ariannu hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli a byddai arweiniad clir yn ddefnyddiol ar gyfer y dyfodol. Roedd rhai cyfranwyr o'r farn bod hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli yn angen cryf o fewn cwmnïau prosiectau partneriaeth a ariannwyd, yn ychwanegol at y ddarpariaeth a oedd yn cael ei hariannu ar hyn o bryd os oedd yn gysylltiedig â hyfforddiant technegol. Soniodd darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr fod datblygu arweinwyr a rheolwyr yn ffocws gwirioneddol ers Covid – yn enwedig mewn sectorau fel Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg lle mae gweithlu sy'n heneiddio a chynnydd yn nifer y bobl nad ydynt yn dychwelyd i'r gweithlu yn debygol o gael effaith eithaf mawr dros y pum mlynedd nesaf. Disgrifiwyd sut y mae pobl yn cael dyrchafiad yn gynt nag y byddent fel arfer, ond nid oes ganddynt y profiad rheoli na'r mentoriaid wrth law yn y busnes i'w helpu. Disgrifiwyd rhai o'r unigolion hyn fel rhai a oedd yn ymgymryd â rolau 'hollbwysig i'r busnes' a byddai hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli priodol yn hanfodol mewn sefyllfaoedd o'r fath.

'Mae'n ymddangos ei fod yn rhywbeth y mae galw mawr amdano ymysg cwmnïau, ac yn rhywbeth y maent yn barod i fuddsoddi ynddo. Mae'n fwy o fater mewnol i ni o ran sut yr ydym yn cefnogi hyn' [Staff Llywodraeth Cymru / aelod o'r panel]

8.7 Awgrymwyd y gellid troi hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli yn thema drawsbynciol neu ei wneud yn faes prosiect partneriaeth annibynnol. Teimlai eraill y byddai agor yr FSP yn rhy eang i'r math yma o ddarpariaeth yn creu gormod o alw.

8.8 Yn ogystal â'r materion uchod, gwnaed yr awgrymiadau canlynol gan staff a rhanddeiliaid ynghylch sut y gellid darparu'r FSP yn y dyfodol:

- parhau i newid paramedrau'r FSP o leiaf unwaith y flwyddyn
- parhau i beidio â gorhwyddo'r FSP drwy Busnes Cymru er mwyn peidio ag ysgogi gormod o alw
- parhau i gyfuddsoddi ar y gyfradd ymyrraeth bresennol

- ystyried ehangu'r rhaglen gan fod achos cryf dros wneud hynny, er bod cydnabyddiaeth hefyd y gallai hyn fod yn heriol yn ystod y cyfnod hwn o gynni ariannol parhaus
- ystyried dull ac iddo fwy o ffocws gan fod y chwe philer presennol yn rhy eang ac wedi'u disgrifio mor eang fel y gall bron unrhyw beth gyd-fynd â nhw, neu ystyried a oes cyfle i ganolbwyntio ar lai o sectorau neu feysydd prosiect partneriaeth yn y dyfodol
- gostwng y terfyn £25,000 os oes angen
- ystyried sut y gallai'r FSP gefnogi cwmnïau llai, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt adrannau adnoddau dynol a chynlluniau hyfforddi ar waith
- ystyried a ellid dyfarnu cyllid dros gyfnod hwy o amser i atal busnesau rhag gorfod gwario eu dyraniad o fewn blwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru. 'Mae'n rhaglen gymharol fach. Mae'n bosibl...'

8.9 Yn olaf, gofynnodd nifer o staff, rhanddeiliaid a busnesau'r astudiaethau achos i arfer da yr FSP gael ei rannu'n ehangach o fewn Llywodraeth Cymru. Gwelodd y rhanddeiliaid yn arbennig yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cydweithwyr sgiliau ac addysg Llywodraeth Cymru â'r rhai sy'n gweithio ym maes datblygiad economaidd yn ehangach, gan ystyried symudiad polisi cryfach tuag at fuddsoddi mewn pobl yn lle buddsoddi mewn cyfalaf ar gyfer busnes.

'Gallwn ddysgu llawer o ddull yr FSP fel hyn - mae'n gweithio'n dda o ran sicrhau cyfatebiaeth rhwng sgiliau a'r galw gan gyflogwyr.' [Cyflogwr a ariannwyd gan yr FSP]

8.10 Awgrymodd darparwyr hyfforddiant hefyd y byddai'n ddefnyddiol gweld manteision ac effeithiau'r FSP o ran cadw staff, dilyniant a pherfformiad cwmnïau, ac y byddai creu astudiaethau achos ar yr effaith yn ddefnyddiol i ledaenu'r neges.

8.11 Teimlai'r rhanddeiliaid a'r staff hefyd y dylai'r elfen orglustnodi gael ei hefelychu'n ehangach o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gyllid ac yn ei ddosbarthu. Cydnabuwyd y byddai hwn yn gam dewr a beiddgar yn ystod cyfnod o gyllidebau tynn, ond bod tanwariant eithaf mawr yn parhau bob blwyddyn gyda'r dull presennol.

## 9. Casgliadau ac Argymhellion

- 9.1 Mae'r bennod olaf hon yn amlinellu ein casgliadau a'n hargymhellion.
- 9.2 Mae'r FSP wedi parhau i sicrhau cyfatebiaeth gref â blaenoriaethau polisi sgiliau Llywodraeth Cymru ers ei sefydlu, er na roddir fawr o sylw i'r rhaglen ac na chaiff ei chrybwyll yn benodol mewn dogfennau polisi cenedlaethol troswaol cyfredol. Mae'n cael cryn sylw mewn nifer o ddogfennau polisi sectoraidd allweddol, yn enwedig y ffrwd Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianeg a'r ffrwd Greadigol, ac mae'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir mewn nifer o ddogfennau polisi eraill yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r ffrydiau Digidol a Sero Net.
- 9.3 Mae cynllun a strwythur yr FSP yn galluogi'r rhaglen i gefnogi prosiectau datblygu busnes mewn cwmnïau strategol bwysig yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo'r ffocws ar sgiliau sy'n flaenoriaeth i gyflogwyr allweddol yn fwy cyffredinol. Mae dyluniad y rhaglen yn caniatáu iddi wrando ar gynrychiolwyr diwydiant ac addasu ac esblygu'n barhaus. Yn hynny o beth, mae'n ymateb yn dda i anghenion diwydiannau a sectorau allweddol. Nid yw'r FSP yn rhaglen sy'n aros yn ei hunfan, ac mae tystiolaeth glir bod y tîm yn gwneud gwelliannau parhaus i'w chynllun a'i strwythur gan gadw'r baich gweinyddol mor fach ac ysgafn â phosibl.
- 9.4 Mae'r FSP yn ategu'n dda raglenni sgiliau ehangach a gynigir gan Lywodraeth Cymru ac ni nodwyd unrhyw ddyblygu o bwys. Os rhywbeth, mae busnesau yn aml yn gwerthfawrogi hyblygrwydd a gallu'r FSP i ariannu cymorth pwrpasol ar gyfer hyfforddiant (gyda'r gyfradd ymyrraeth o 50 y cant) yn fwy felly na'r cyfraniad 100 y cant a ddarperir gan gynlluniau eraill, megis y Cyfrifon Dysgu Personol, sy'n awgrymu bod y dull gweithredu hwn yn ymateb yn dda i anghenion busnesau.
- 9.5 Mae cwmnïau sy'n strategol bwysig yn gwerthfawrogi'r berthynas gref sy'n bodoli rhyngddynt a thîm yr FSP ac roeddent yn teimlo bod y ffordd y dyluniwyd yr FSP yn caniatáu iddynt gomisiynu hyfforddiant sydd wedi'i deilwra i lenwi bylchau a symud y busnes yn ei flaen yn gyflymach ac ar raddfa fwy. Mae argaeledd posibl cyllid yr FSP hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nghynnig Llywodraeth Cymru i gwmnïau sy'n awyddus i fuddsoddi yng Nghymru.

- 9.6 Hyd yn hyn, mae'r FSP wedi cael ei hyrwyddo'n bennaf ar dafod leferydd neu drwy berthynas sy'n bodoli eisoes â pherson cyswllt yn Llywodraeth Cymru, ond mae tystiolaeth bod niferoedd cynyddol o gyflogwyr yn dod i wybod am y rhaglen drwy wybodaeth ar-lein a llenyddiaeth hyrwyddo. Dros y blynyddoedd nesaf, mae perygl y bydd gormod o alw am yr FSP, sydd â chyllideb fach, gan olygu y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailddylunio'r rhaglen, er enghraifft drwy flaenoriaethu'r cymorth, tynhau'r meini prawf cymhwysra neu ostwng y cap ar y cyllid sydd ar gael fesul cyflogwr.
- 9.7 Mae adborth gan gyflogwyr ar y broses ymgeisio a'r broses hawliadau ddilynol yn hynod gadarnhaol ac mae'r FSP yn enghraifft ragorol o sut y dylid rheoli rhaglen. Codwyd mân broblemau o ran eglurder a dehongli rhai o'r meini prawf cymhwysra neu gamddealltwriaeth o'r ffordd y mae'r rhaglen yn gweithredu – yn bennaf gan y cwmnïau hynny nad ydynt wedi cael cyswllt cychwynnol uniongyrchol â thîm yr FSP.
- 9.8 Mae'r awdurdod a ddirprwywyd i'r tîm i wneud penderfyniadau cyllido, a'r gallu i orglustnodi cyllid yn flynyddol yn cyfrannu at sicrhau bod y rhaglen yn rhedeg yn ddidrafferth. Yn gyffredinol, mae'r gofynion ar ymgeiswyr yn gymesur â'r swm o arian sy'n cael ei hawlio, ac mae'r FSP wedi symleiddio'r broses yn fwiadol ac yn bwrpasol gan sicrhau diwydrwydd dyladwy. Fodd bynnag, o ran y cyflogwyr sy'n tueddu i wneud hawliadau o flwyddyn i flwyddyn byddai'n ddefnyddiol casglu adborth a thystiolaeth o ganlyniadau ac effeithiau ymrwymadau cyllido blaenorol.
- 9.9 Mae gan yr FSP gwmpas daearyddol da ar hyd a lled Cymru, ac mae'r galw o ddeddwyrain Cymru yn arbennig o uchel, yn unol â dosbarthiad rhanbarthol busnesau yng Nghymru. Mae galw arbennig o uchel gan gwmnïau am y cymorth sydd ar gael drwy'r ffrwd Datblygu Busnes, yr elfen gweithgynhyrchu uwch a pheirianeg a'r elfen ddigidol. Ymddengys fod gwerth ariannol is i'r cyllid ar gyfer cwmnïau twristiaeth a lletygarwch ac mai cymharol isel yw'r galw am y cyllid a gellid ei ddadflaenoriaethu nawr bod effaith uniongyrchol Covid wedi lleihau. Mae galw am gymorth hyfforddiant drwy'r elfen Allforio yn isel hefyd. Mae'r data o'r wybodaeth fonitro, a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein gwerthusiad yn awgrymu y bydd y



galw am gyllid yn y ffrydiau Creadigol a Sero Net yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod.

- 9.10 Ychydig iawn o brosiectau partneriaeth sy'n gofyn am y swm llawn o gyllid hyfforddiant sydd ar gael, sy'n awgrymu y gellid gostwng y cap i £20,000 yn y dyfodol.
- 9.11 Mae'r FSP wedi cefnogi bron i 200 o geisiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae 25 y cant o'r rheini'n ailgeisiadau gan fusnesau. Nid oes gan yr FSP ddata wedi'u holrhain ar wariant gwirioneddol (a darpariaeth) i'n galluogi i ddod i unrhyw gasgliadau penodol ynghylch gwerth am arian, ond ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y ceisiadau llwyddiannus, cynlluniwyd dros 8,000 o ymyriadau hyfforddiant, sef cost gyfartalog o £384 fesul ymyriad i Lywodraeth Cymru.
- 9.12 Casglwyd tystiolaeth gref yn ystod y gwerthusiad sy'n dangos bod yr FSP yn cyfrannu at uwchsgilio'r gweithlu ac yn helpu cwmnïau gweithgynhyrchu uwch a pheirianeg yn arbennig i wella effeithlonrwydd a chystadleurwydd a sicrhau dyfodol cryfach yn eu rhanbarth.
- 9.13 Nid yw'n bosibl adrodd ar ganlyniadau ac effeithiau ar lefel y rhaglen, gan nad yw tîm yr FSP yn casglu unrhyw ddata monitro gan gyflogwyr a gefnogir ar hyn o bryd i gynnal dadansoddiad o'r swyddi a grëwyd neu welliannau i drosiant neu broffidioldeb, ond mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd gan fusnesau bod hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP yn cyfrannu at y gwelliannau hyn mewn rhai achosion.
- 9.14 Mae tystiolaeth bod yr FSP yn galluogi cyflogwyr i ddarparu mwy o hyfforddiant nag y byddent yn ei wneud fel arall. Mae cwmnïau'n defnyddio'r cyllid i ddyblu'r hyfforddiant a ddarperir yn hytrach na defnyddio'r FSP i haneru cost yr hyfforddiant y byddent wedi'i ddarparu beth bynnag. Ymddengys hefyd fod yr FSP yn galluogi cyflogwyr i gyllido hyfforddiant sy'n cyd-fynd â chynlluniau strategol tymor hwy ac anghenion y cwmnïau. Heb yr FSP, byddai cyllidebau hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllido hyfforddiant statudol a hyfforddiant sydd ei angen i ddarparu busnes fel arfer. Felly, mae'n ymddangos bod ychwanegu cyllid yr FSP yn cael effaith gadarnhaol ar ba mor gyflym y gall busnesau wella eu cynhyrchiant a'u proffidioldeb. Ceir tystiolaeth hefyd bod yr FSP yn gwneud cyfraniad pwysig at wella

sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth mewn cwmnïau sydd wedi nodi hyn fel blaenoriaeth yn eu hamgylchiadau presennol.

- 9.15 Mae gweithwyr yn gwerthfawrogi'r buddsoddiad a wneir ynddynt o ganlyniad i'r hyfforddiant ychwanegol sydd ar gael yn sgil cymorth yr FSP. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar forâl y staff ac mewn rhai achosion mae tystiolaeth bod hyfforddiant a ariannwyd gan yr FSP wedi cyfrannu at gadw staff. Dengys y dystiolaeth hefyd fod gweithwyr yn perfformio'n well ac yn cymryd mwy o gyfrifoldeb yn y gwaith o ganlyniad i ddilyn cyrsiau hyfforddi a ariennir gan yr FSP, ond mae llai o dystiolaeth o unrhyw effaith uniongyrchol ar gyflogau a dyrchafiad.
- 9.16 Amlygodd sawl un o fusnesau'r astudiaethau achos effaith hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli nid yn unig o ran eu galluogi i wneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd a phrosesau cynhyrchu, ond hefyd o ran ymateb i faterion yn ymwneud â chynllunio olyniaeth sy'n codi o weithlu sy'n heneiddio neu ymateb i bwysau ar weithluoedd presennol.
- 9.17 Er bod yr FSP yn rhoi'r hyblygrwydd i gyflogwyr ddewis eu darparwyr hyfforddiant eu hunain, mae tystiolaeth bod hyn wedi galluogi cyflogwyr i fynnu hyfforddiant sydd wedi'i deilwra'n fwy i'w hanghenion, neu a ddarperir ar y safle, sydd yn ei dro yn galluogi niferoedd mwy o staff i gymryd rhan. Er na fu'n bosibl cynnal dadansoddiad manwl o leoliad daearyddol yr holl ddarparwyr hyfforddiant, mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r arolygon a'r archwiliadau manwl o gyflogwyr mewn astudiaethau achos yn awgrymu bod canran uchel o'r ddarpariaeth hyfforddiant yn dod o Gymru. Mae'r FSP hefyd yn helpu i ddatblygu neu wella perthnasoedd presennol rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru, gan gynnig cyfleoedd newydd anfwriadol i gyflwyno hyfforddiant a ddatblygwyd yn wreiddiol i ymateb i anghenion penodol cyflogwyr a ariennir gan yr FSP.
- 9.18 Mae'r FSP yn rhaglen uchel ei pharch sy'n cael ei rheoli'n eithriadol o dda ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar fusnesau Cymru. Mae arfer da a gwersi i'w dysgu o weithredu'r rhaglen a'i heffaith y dylid eu cyfleu a'u hefelychu'n ehangach ar draws Llywodraeth Cymru.
- 9.19 Yn hynny o beth, rydym yn gwneud rhai argymhellion ar lefel strategol isod, ochr yn ochr ag argymhellion gweithredol ar gyfer darparu'r FSP yn y dyfodol:

## *Argymhellion Gweithredol*

### **Argymhelliad 1**

Dylai tîm yr FSP barhau i drafod anghenion y sector gyda chynrychiolwyr diwydiant priodol ac addasu'r meini prawf yn unol â hynny bob blwyddyn. Nid oes unrhyw fylchau amlwg yn y ddarpariaeth bresennol, ond awgrymwn y gellid dirwyn yr elfennau Allforio a Thwristiaeth/Lletygarwch i ben yn raddol dros y blynyddoedd nesaf.

### **Argymhelliad 2**

Rydym yn argymhell bod yr FSP yn gostwng ei chap ar gyllid prosiectau partneriaeth i £20,000. Dylai hefyd ystyried pennu isafswm o £1,000 ar gyfer pob cais er mwyn osgoi denu gormod o geisiadau bach nad ydynt yn gosteffeithiol i'r tîm eu gweinyddu.

### **Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod meini prawf cymhwysra yr FSP yn cael eu hesbonio'n glir yn y canllawiau a'r deunyddiau hyrwyddo. Dylai'r ohebiaeth ag ymgeiswyr llwyddiannus hefyd amlygu bod modd diwygio ac addasu'r hyfforddiant yn ôl yr angen (e.e. os bydd darparwr yr hyfforddiant neu ddyddiad yr hyfforddiant yn newid).

### **Argymhelliad 4**

Un o brif gryfderau'r FSP yw mai ychydig o wybodaeth y mae'n gofyn i ymgeiswyr ei darparu. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol gofyn am rywfaint o dystiolaeth sylfaenol o allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a gyflawnwyd gan yr holl ymgeiswyr llwyddiannus (drwy arolwg diwedd blwyddyn er enghraifft) neu o leiaf gan y rhai sy'n ymgeisio eto am gyllid (drwy gynnwys gwestiwn penodol ar eu ffurflenni cais) er mwyn casglu dystiolaeth o effaith yr FSP yn barhaus.

### **Argymhelliad 5**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a all unrhyw gyllid y cytunir arno fod ar gael i gwmnïau am 12 mis o'r dyddiad cymeradwyo yn hytrach na phennu gofyniad iddo gael ei wario erbyn diwedd blynyddoedd ariannol Llywodraeth Cymru, a hynny er

mwyn cefnogi eu gwaith cynllunio ac ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i drefnu ac amserlennu hyfforddiant o amgylch y galwadau dyddiol mewn rhai sectorau.

### **Argymhelliad 6**

Dylai'r FSP barhau â'r hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli fel thema drawsbynciol lle mae'n cefnogi buddsoddiad technegol cysylltiedig (e.e. mewn meddalwedd neu brosesau newydd) a hefyd lle y ceir achos clir dros ymateb i anghenion cynllunio/olyniaeth yn y dyfodol.

*Argymhellion strategol*

### **Argymhelliad 7**

O ystyried natur ysgafn y gwaith o weinyddu'r rhaglen FSP gan dîm bach o bobl, addasrwydd a hyblygrwydd ei dull gweithredu, y llwyddiant yn sgil cyfradd ymyrraeth 50 y cant a'r effeithiau cadarnhaol y dywedir eu bod yn cael eu cyflawni gan gyflogwyr, byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ystyried hyrwyddo'r rhaglen FSP yn ehangach a chynyddu'r gyllideb ar gyfer ei chyflawni. Drwy wneud hynny, gellid ystyried capasiti ychwanegol i ymgysylltu â BBaChau hefyd yn y model gweithredu.

### **Argymhelliad 8**

Mae'r FSP yn rhaglen sy'n esiampl i eraill, yn enwedig o ran y ffordd y mae wedi ceisio ymateb i'r galw a'r angen ac mae wedi symleiddio ei threfniadau gweinyddol yn unol â hynny ac mewn ffordd briodol. Dylid chwilio am gyfleoedd i dîm yr FSP rannu ei ddull gweithredu yn ehangach (gan gynnwys yr elfen gorglustnodi cyllid) a dylai Llywodraeth Cymru geisio efelychu'r math hwn o ddull yn ehangach ar draws ei rhaglenni cyllido eraill sydd wedi'u cynllunio i gefnogi anghenion busnesau Cymru.

## Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2014), [\*Datganiad Polisi ar Sgiliau\*](#)

Llywodraeth Cymru (2016), [\*Gwerthusiad o Raglen Datblygu'r Gweithlu: Crynodeb Gweithredol\*](#)

Llywodraeth Cymru (2016), [\*Ffyniant i Bawb: Symud Cymru Ymlaen 2016-21\*](#)

Llywodraeth Cymru (2016), [\*Sgiliau Twf Cymru: Gwerthusiad Terfynol\*](#)

Llywodraeth Cymru (2020), [\*Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio\*](#)

Llywodraeth Cymru (2021), [\*Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu\*](#)

Llywodraeth Cymru (2021), [\*Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad\*](#)

Llywodraeth Cymru (2022), [\*Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol\*](#)

Llywodraeth Cymru (2022), [\*Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau\*](#)

Llywodraeth Cymru (2022), [\*Strategaeth Ddigidol i Gymru\*](#)

Llywodraeth Cymru (2023), [\*Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach\*](#)

Llywodraeth Cymru (2023), [\*Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net\*](#)

Llywodraeth Cymru (2023), [\*Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Ein Taith tuag at 'Gymru 4.0'\*](#)

## Atodiad A: Canllaw Trafod – Cyfweiliadau â staff a rhanddeiliaid allweddol Llywodraeth Cymru

### Cyflwyniad

1. Dywedwch wrthyf am eich ymwneud â'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg.
  - a. Pa agweddau ydych chi'n fwyaf cyfarwydd â nhw?

### Rhesymeg dros a dyluniad yr FSP

2. Beth ydych chi'n ei ddeall yw nodau ac amcanion yr FSP?
  - a. Sut, os o gwbl, y mae'r amcanion hyn wedi newid ers ei sefydlu yn 2015 i'r cyfnod cyflawni cyfredol hwn (2022-25)?
3. Sut mae disgwyl i'r FSP gyfrannu at bolisi a strategaeth Llywodraeth Cymru?
  - a. Pa bolisiau a strategaethau allweddol y mae'n cyfrannu tuag atynt?
  - b. Pa mor dda mae'r FSP wedi alinio gyda
    - i. Y Rhaglen Lywodraethu gyfredol ar gyfer 2021-26?
    - ii. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
    - iii. Cymru gryfach, tecach a gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau?
    - iv. Y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu?
    - v. Y Cynllun Gweithredu Allforio?
    - vi. Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol?
    - vii. Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr?
    - viii. Y Cynllun Gweithredu Sero Net?
    - ix. Strategaeth Ddigidol Cymru?
4. Sut mae'r FSP yn ategu neu'n ychwanegu gwerth at
  - a. ddarpariaeth arall sy'n cael ei hariannu gan sgiliau presennol gan Lywodraeth Cymru?
  - b. prosiectau mewnfuddsoddi eraill Llywodraeth Cymru?
  - c. prosiectau cyfalaf eraill a gefnogir gan Lywodraeth Cymru?
5. I ba raddau mae angen yr FSP?
  - a. Pam ydych chi'n dweud hyn?
  - b. Sut mae'r angen am yr FSP wedi esblygu dros amser?
  - c. I ba raddau mae rhwystrau ariannol i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau mewn cwmnïau yng Nghymru?
  - d. Os felly, pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?
  - e. Pa gefnogaeth ychwanegol allai fod yn ddefnyddiol?

6. Beth yw eich barn am ddyluniad yr FSP?
- Pa mor addas yw'r ffrydiau Prosiectau Datblygu Busnes a Phartneriaeth ar gyfer targedu cymorth mewn meysydd sy'n helpu i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru?
  - Pa mor addas yw'r chwe llinyn prosiect partneriaeth<sup>48</sup> ar gyfer targedu cymorth mewn meysydd sy'n helpu i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru?
  - Pam cafodd y chwe ffrwd yma eu blaenoriaethu fel rhan o'r FSP?
  - A oes unrhyw fylchau yn y cynnig cymorth presennol?
  - Pa mor briodol yw'r gyfradd ymyriad o 50%? Pam felly?

## Gweinyddu'r FSP

7. Sut mae'r FSP yn cael ei hyrwyddo i fusnesau?
- Pa mor eang yw'r cynnig FSP?
  - Sut mae'r cynnig ym mhob ffrwd prosiect partneriaeth yn cael ei hyrwyddo i fusnesau perthnasol yn y sector hwnnw?
  - Beth sy'n gweithio'n dda o ran hyrwyddo'r FSP i fusnesau cymwys?
  - Sut y gellid gwella'r rhaglen?
8. Pa gymorth sy'n cael ei ddarparu i ymgeiswyr wrth iddynt fynd drwy'r broses ymgeisio am FSP?
- Pwy sy'n darparu'r gefnogaeth hon? (*Ymchwilio i: cefnogaeth a ddarperir gan y tîm Sgiliau a/neu gan Reolwyr Perthynas neu eraill wrth baratoi'r ffurflen gais gan gynnwys cynlluniau MERIT a chynlluniau datblygu sgiliau*)
  - Pa mor addas yw'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd?
  - Pa mor addas yw'r broses ymgeisio ar gyfer ymgeiswyr (*archwilio eglurder gwaith papur, gofynion tystiolaeth*)?
  - Pa mor glir a dealladwy yw'r gwaith papur ar gyfer ymgeiswyr?
  - Pa mor ddefnyddiol yw'r hunanasesiadau MERIT i
    - Y cyflogwr?
    - Llywodraeth Cymru
  - Sut mae'r cynlluniau MERIT a datblygu sgiliau yn cael eu monitro a chan bwy?
9. Pa mor effeithiol yw'r Panel FSP wrth wneud penderfyniadau i ddyfarnu cyllid FSP?
- A yw Panel yr FSP yn cynnwys ystod briodol o gynrychiolwyr/arbenigedd i'w alluogi i wneud penderfyniadau ar wariant? (*Ymchwilio i: cynrychiolaeth o dimau rhanbarthol, Busnes Cymru, Cyflogadwyedd a Sgiliau, cynrychiolaeth allanol, cynrychiolaeth o'r sector*) Os na, beth yw'r bylchau?

---

<sup>48</sup> Uwch Beirianeg a Gweithgynhyrchu; Allforio; Digidol Uwch; Creadigol; Twristiaeth a Lletygarwch; Sero Net

10. (*Tim Cyflenwi FSP yn unig*) Pa mor effeithiol yw'r elfen orraglennu 20% o'r FSP wrth gefnogi cynllunio gwariant?
11. Sut, os o gwbl, y mae'r rhaglen wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant i
  - a. Ddatblygu neu wella'r broses ymgeisio?
  - b. Ddatblygu neu wella'r broses honiadau?
  - c. Wella perthnasoedd rhwng cyflogwyr yr FSP a darparwyr hyfforddiant lleol?
12. Sut mae'r cyfle i astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hyrwyddo i gyflogwyr?
  - a. Faint o alw sydd yna am gyrsiau cyfrwng Cymraeg? Pam felly?
  - b. Oes digon o gyrsiau cyfrwng Cymraeg i ateb y galw?

### Canlyniadau ac Effaith FSP

13. Pa dystiolaeth sydd gennych chi fod yr FSP yn cynhyrchu canlyniadau economaidd, yn benodol:
  - a. Cadw neu greu swyddi?
  - b. Gwneud swyddi dros dro yn barhaol?
  - c. Galluogi cwmnïau i ehangu eu marchnadoedd neu gynhyrchion/gwasanaethau?
  - d. Galluogi newid cadarnhaol mewn trosiant a phroffidioldeb?
  - e. Gwella cynhyrchiant?
14. I ba raddau ydych chi'n meddwl sydd gan yr FSP:
  - a. Cefnogi cyflogadwyedd tymor hwy y gweithlu mewn cwmnïau a gynorthwyr?
  - b. galluogi cwmnïau â chymorth i ddatblygu perthnasoedd â darparwyr hyfforddiant lleol fel AB ac AU?
  - c. sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r cwmni yn eu rhanbarth / Cymru?
  - d. dylanwadu ar y buddsoddwr / rhiant-gwmni y byddai Cymru/safle Cymreig y cwmni a gefnogir yn lleoliad o ddewis ar gyfer buddsoddiad pellach?
15. I ba raddau y mae'r FSP wedi cyd-fynd â blaenoriaethau sector neu ranbarthol Llywodraeth Cymru neu gyfrannu atynt?
  - a. I ba raddau (os o gwbl) y mae'r FSP wedi effeithio ar ddulliau gwaith teg o fewn busnesau â chymorth (e.e. tâl yn unol â chyflog byw yng Nghymru, creu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol)?
16. Pa mor effeithiol mae FSP wedi bod wrth annog cyflogwyr i ymgysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau eraill a ariennir neu a ddarperir gan LIC?
  - a. Pa raglenni y mae cyflogwyr wedi mynd ymlaen i ymgysylltu â nhw?
  - b. I ba raddau y mae cyflogwyr FSP wedi mynd ymlaen i gynyddu eu recriwtio prentisiaid?



17. Pe na bai cyllid yr FSP ar gael, i ba raddau ydych chi'n meddwl y byddai cwmnïau wedi ymgymryd â rhywfaint neu'r cyfan o'r hyfforddiant beth bynnag?

## Y Dyfodol

18. Ydych chi 'n meddwl y dylid parhau i gynnig yr FSP? Pam ydych chi'n dweud hynny?
19. Pa newidiadau i'r cynnig neu'r dull yr hoffech eu gweld, os o gwbl?

Diolch am eich amser.

## Atodiad B: Canllaw Trafod - Cyfweiliadau gyda chyflogwyr (ymweliad astudiaeth achos)

### Cyflwyniad

1. Dywedwch ychydig wrthyf am eich cwmni.
2. Dywedwch ychydig wrthyf am eich ymwneud â'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg
  - a. Sut wnaethoch chi glywed am y tro cyntaf?
  - b. Dywedwch ychydig wrthym am y broses yr aethoch drwyddi i ddeall y cynnig FSP?
  - c. Beth oeddech chi'n gobeithio y byddai'r FSP yn ei gyflawni?
  - d. Pa ofynion hyfforddiant penodol oedd gennych?
3. Pa hyfforddiant gafodd ei gomisiynu/darparu yn eich cwmni gyda chefnogaeth FSP?
  - a. Beth gafodd ei gyflwyno?
  - b. Pwy roddodd yr hyfforddiant?
  - c. I ba weithwyr a faint?
  - d. Sut wnaethoch chi benderfynu pa staff fyddai'n derbyn yr hyfforddiant?
  - e. A oedd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yr un fath neu'n wahanol i'r cynlluniau gwreiddiol? Os yw'n wahanol, pam fod hynny'n digwydd?

### Gweinyddu'r FSP

4. Pa gefnogaeth, cyngor neu adborth, os o gwbl, a gawsoch gan swyddog Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses ymgeisio?
  - a. (*os caiff ei gefnogi*) Pa mor ddefnyddiol oedd hyn? Beth oedd yn arbennig o ddefnyddiol? Beth allai fod wedi ei wella am y gefnogaeth?
  - b. (*os nad yw'n cael ei gefnogi*) Pa mor ddefnyddiol fyddai hi i gael gafael ar gymorth o'r fath?
  - c. A oedd unrhyw ardaloedd neu adrannau penodol lle roedd angen cymorth arnoch, ond nad oedd ar gael? Os felly, pa ardaloedd/ardaloedd?
  - d. A wnaethoch chi ofyn am gyngor arbenigol pellach i gefnogi cwblhau unrhyw un o'r ffurflenni cais a'r dogfennau gofynnol (gan gynnwys y cynllun MERIT a'r cynllun datblygu sgiliau)? (*Os ydych, holwch o bwy, a pham*)
5. Sut aethoch ati i baratoi'r ffurflen gais ar gyfer yr FSP?
  - a. Beth oedd eich argraff o'r broses ymgeisio?  
*Archwilio: gwaith papur, gofynion tystiolaeth, ymrwymiad amser/buddsoddi sydd ei angen i baratoi*

- b. Pa mor addas yw'r meini prawf ar gyfer cymhwysedd?
  - c. Pa mor glir a dealladwy wnaethoch chi ddod o hyd i'r gwaith papur?
  - d. Pa mor addas yw uchafswm gwerth yr hyfforddiant?
  - e. Beth yw eich barn am y gyfradd ymyrraeth? (50% cyfraniad gan LIC)
  - f. I ba raddau y rhoddodd yr FSP yr hyblygrwydd angenrheidiol i chi nodi ac ariannu hyfforddiant wedi'i deilwra i'ch anghenion?
6. Sut aethoch ati i baratoi'r cynllun hunanasesu a gwella MERIT fel rhan o'r broses ymgeisio?
- a. A wnaeth y broses o baratoi'r hunanasesiad MERIT daflu unrhyw beth annisgwyl?
  - b. Sut wnaethoch chi / sut ydych chi'n bwriadu delio â hyn?
  - c. Sut (os o gwbl) y gwnaeth paratoi cynllun MERIT helpu i'ch gwneud yn fwy ymrwymedig i'r broses o adolygu a gwella'ch statws yn rheolaidd fel cyflogwr 'da'?
  - d. A wnaethoch chi adolygu'r cynllun? Os felly, sut wnaethoch chi fynd ati i wneud hyn?
7. Sut aethoch ati i baratoi'r cynllun datblygu sgiliau?
- a. Oedd y broses o baratoi cynllun datblygu sgiliau yn taflu unrhyw beth annisgwyl?
  - b. A ydych wedi nodi unrhyw anghenion hyfforddi ychwanegol o ganlyniad?
  - c. Pa mor hawdd neu anodd oedd dod o hyd i hyfforddiant sy'n diwallu eich anghenion?
8. Sut wnaethoch chi fynd ati i adnabod/comisiynu'r darparwyr hyfforddiant?
- a. I ba raddau oeddech chi'n gallu dod o hyd i'r hyfforddiant roeddech chi ei eisiau?
  - b. Ydych chi wedi eu defnyddio o'r blaen?
  - c. A wnaethoch chi greu perthynas â darparwyr hyfforddiant sydd wedi'u lleoli yng Nghymru o ganlyniad i gefnogaeth yr FSP?
  - d. Pa mor hapus oeddech chi ag ansawdd/priodoldeb yr hyfforddiant a gafwyd?
